Gofal Cymdeithasol **Cymru**
Social Care **Wales**

# Cefnogi Agenda Gwella Gofal Cymdeithasol Plant yng Nghymru

## Gwaith sefydliadol cyfredol ac arfaethedig ar draws y sector yng Ngwanwyn 2018

**Manylion cyswllt**
Gofal Cymdeithasol Cymru
South Gate House
Wood Street
Caerdydd
CF10 1EW
Ffôn: 0300 3033 444
Minicom: 029 2078 0680
E-bost: gwybodaeth@gofal
cymdeithasol.cymru

Twitter: @GofCymdeithasol
© 2018 Gofal Cymdeithasol Cymru

Cedwir pob hawl. Ni ellir atgynhyrchu unrhyw ran o'r cyhoeddiad hwn, ei storio mewn system adalw neu ei drosglwyddo mewn unrhyw ffurf neu drwy unrhyw fodd heb ganiatâd ysgrifenedig Gofal Cymdeithasol Cymru ymlaen llaw. Dylid anfon ymholiadau am atgynhyrchu y tu allan i'r cwmpas a ganiateir yn benodol gan y gyfraith at Brif Weithredwr Gofal Cymdeithasol Cymru yn y cyfeiriad a roddir uchod.

**Fformatau eraill:**
Mae'r ddogfen hon ar gael yn Saesneg hefyd. Mae copïau o'r ddogfen ar gael mewn print bras neu fformatau eraill, os oes angen.

CASCADE: Canolfan
Ymchwil a Datblygu
Gofal Cymdeithasol Plant
Prifysgol Caerdydd

Awduron:
Jen Lyttleton-Smith
Martin Elliott
Jonathan Scourfield

Gyda chymorth ymchwil:
Wahida Kent, Samuel Parker,
Hayley Reed a Sion Tetlow

## Gwybodaeth am CASCADE a'r awduron

Canolfan ymchwil yn Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol, Prifysgol Caerdydd yw CASCADE. Fe'i sefydlwyd yn 2014, ac rydym yn ymwneud â phob agwedd ar ymatebion cymunedol i anghenion cymdeithasol plant a theuluoedd, yn cynnwys gwasanaethau cymorth i deuluoedd, gwasanaethau plant mewn angen, amddiffyn plant, plant sy'n derbyn gofal a mabwysiadu. Ni yw'r unig ganolfan ymchwil o'r fath yng Nghymru, yn dod ag ymchwilwyr gofal cymdeithasol plant Cymru ynghyd i hyrwyddo tystiolaeth a diwallu anghenion polisi ac ymarfer yn well er mwyn gwella canlyniadau i blant a'u teuluoedd.

Yn ddiweddar, cafodd CASCADE ei henwi fel y partner ymchwil ar gyfer y What Works Centre ar gyfer Gofal Cymdeithasol Plant yn Lloegr, sydd newydd ei sefydlu. Bydd y What Works Centre yn gwerthuso arferion cyfredol ym maes gofal cymdeithasol a gofal cymdeithasol plant, yna'n darparu cyngor ac ymyriadau i wella arferion a sicrhau safon uchel o ofal a chanlyniadau cadarnhaol i bobl ifanc.

**Dr Jen Lyttleton-Smith** – cymdeithasegwr plentyndod sydd wedi gweithio i CASCADE am ddwy flynedd. Mae'n gymrawd ôl-ddoethurol gydag Ymchwil Iechyd a Gofal Cymru.

**Dr Martin Elliott** – gweithiwr cymdeithasol gyda 17 mlynedd o brofiad mewn gwasanaethau plant statudol. Ar hyn o bryd, mae'n Swyddog Datblygu Ymchwil i Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru ac yn gweithio yn CASCADE.

**Yr Athro Jonathan Scourfield** – ymchwilydd gofal cymdeithasol plant a chyn ymarferydd gwaith cymdeithasol. Mae hefyd yn gynghorydd polisi arbenigol i ofal cymdeithasol yn Llywodraeth Cymru.

## Gwybodaeth am Ofal Cymdeithasol Cymru

Ein pwrpas yw meithrin hyder yn y gweithle, ac arwain a chefnogi gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol.

Mae Gofal Cymdeithasol Cymru yn:

- pennu safonau ar gyfer y gweithlu gofal a chymorth, gan eu gwneud yn atebol am eu gwaith
- datblygu'r gweithlu fel bod ganddynt y wybodaeth a'r sgiliau i amddiffyn, grymuso a chefnogi'r rhai sydd angen cymorth
- gweithio ag eraill i wella gwasanaethau ar gyfer meysydd y cytunwyd eu bod yn flaenoriaeth genedlaethol
- pennu blaenoriaethau ar gyfer ymchwil i gasglu tystiolaeth o beth sy'n gweithio'n dda
- rhannu arferion da gyda'r gweithlu er mwyn gallu darparu'r ymateb gorau
- darparu gwybodaeth am ofal a chymorth i'r cyhoedd, y gweithlu a sefydliadau eraill.

# Cynnwys


**Cyflwyniad: Yr agenda wella ar gyfer plant sy'n derbyn gofal ac ar ymylon gofal yng Nghymu** ..... 5

**1. Dulliau casglu data** ..... 7

**2. Adroddiad data** ..... 9

2.1 Modelau a dulliau ymarfer ..... 10

2.2 Prosiectau peilot a mentrau newydd ..... 13

2.3 Gwella ac arloesi wrth feithrin gallu gyda gofalwyr ..... 15

2.4 Gwella ac arloesi mewn gofal preswyl ..... 18

2.5 Gwella ac arloesi gyda phlant a ffiniau gofal ..... 20

2.6 Strategaethau comisiynu a gwaith partneriaeth presennol ..... 22

2.7 Gwella ac arloesi yn CAFCASS Cymru ..... 28

2.8 Safbwyntiau ar wella'r sector gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ..... 30

**3. Tueddiadau presennol ym maes gwella ac arloesi** ..... 32

**4. Heriau cyfredol ar gyfer gwella ac arloesi** ..... 35

**5. Argymhellion ar gyfer gwaith pellach** ..... 39

**Atodiad un: Mapio ymchwil cyfredol a diweddar ar blant sy'n derbyn gofal yng Nghymru** ..... 40

**Atodiad dau: Dulliau ymarfer a disgrifyddion modelau** ..... 42

**Atodiad tri: Disgrifiadau o brosiectau peilot a mentrau newydd** ..... 46

**Atodiad pedwar: Disgrifiadau o brosiectau meithrin gallu gyda gofalwyr** ..... 50


**Cyfeiriadau** ..... 51

# CYFLWYNIAD: YR AGENDA WELLA AR GYFER PLANT SY'N DERBYN GOFAL AC AR YMYLON GOFAL YNG NGHYMRU

Nod y dadansoddiad yn yr adroddiad hwn yw darparu darlun o'r gweithgarwch arloesi a gwella a gwblhawyd, neu a gynlluniwyd, yng Nghymru mewn perthynas â gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal neu'r rhai ar ffiniau gofal. Mae'r ciplun a gyflwynwyd wedi'i gymryd o ddata a gasglwyd yn y cyfnod rhwng mis Ionawr a mis Mawrth 2018. Bwriad yr adroddiad yw darparu trosolwg o'r gweithgarwch wedi'i fapio ledled Cymru, yn hytrach na bod yn ddogfen sy'n nodi dulliau penodol fel enghreifftiau o arfer da.

Mae ffocws yr adolygiad hwn ar weithgarwch gwella ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai sydd mewn perygl o gael eu cymryd i ofal yn dod ar adeg pan mae yna bryderon cenedlaethol (yng Nghymru ac yn y DU) am y niferoedd cynyddol o blant a phobl ifanc sy'n cael eu rhoi yng ngofal y wladwriaeth. Yng Nghymru, y cyd-destun i'r gwaith hwn yw bod cynnydd o dros 40 y cant wedi bod yn niferoedd y plant sy'n derbyn gofal yn y 15 mlynedd o fis Mawrth 2003 (4,195 o blant) i fis Mawrth 2017 (5,995 o blant).

*Ffigur 1: Niferoedd plant sy'n derbyn gofal*




Mewn ymateb i hyn, mae'r Gweinidog Plant, Pobl Hŷn a Gofal Cymdeithasol wedi datgan nod i leihau'r angen i blant gael eu cymryd i ofal yn ddiogel. Yn ei sylwadau agoriadol yng nghynhadledd plant sy'n derbyn gofal Cymru[1] a gynhaliwyd ym Mawrth 2015, cyflwynodd y Gweinidog Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol ar y pryd, Mark Drakeford AC, ddarlun o system anghytbwys sy'n symud gormod o blant a'u gosod mewn system lle mae eu canlyniadau'n debygol o fod yn wael; system lle mae cyfran gynyddol o adnoddau prin yn cael eu gwario ar ofal y tu allan i'r cartref yn hytrach na chefnogi teuluoedd i gadw plant gartref. Y cefndir ar gyfer cynnal yr adolygiad cyflym hwn felly yw un ble mae yna awydd ac angen cydnabyddedig am wella ac arloesedd yn seiliedig ar arferon a gwasanaethau i blant sy'n derbyn gofal, ond un lle mae gweithgarwch yn cael ei wneud mewn hinsawdd o bwysau sylweddol ar y gyllideb a gwasanaethau i awdurdodau lleol a'u partneriaid.

At ddibenion yr adolygiad hwn, mae gweithgarwch 'arloesi' a gwella wedi'i ddiffinio fel gweithgarwch sy'n debygol o:

- gynyddu cyfleoedd bywyd plant sy'n derbyn cymorth gan y system gofal cymdeithasol
- creu cymhellion a mecanweithiau cryfach ar gyfer arloesi, arbrofi ac ailadrodd dulliau newydd llwyddiannus
- sicrhau gwerth am arian ar draws maes gofal cymdeithasol plant (tudalen 4).

Cymerwyd y diffiniad hwn o Raglen Arloesedd Gofal Cymdeithasol Plant Lloegr[2]. Yng nghyd-destun yr

adolygiad hwn, mae'r diffiniad hwn yn perthyn i'r materion a amlygwyd yn araith y cyn weinidog. Mae gwella ac arloesi ym maes plant sy'n derbyn gofal yn ymwneud â gwella canlyniadau a gwneud y defnydd gorau o adnoddau prin. Mae gweithgareddau arloesi a gwella'n canolbwyntio ar amrywiaeth o fodelau a dulliau ymarfer a ddefnyddir ar wahanol lefelau sefydliadol. Mae'r rhain yn amrywio o weithredu modelau ymarfer systemig mawr ledled gwasanaethau plant, i amrywiaeth o ddulliau ymarfer a datblygiadau gwasanaethau.

Yn ogystal ag edrych ar weithgarwch sy'n ymwneud â phlant sy'n derbyn gofal, roedd yr adolygiad hefyd yn ystyried arloesi yn nhermau'r rhai sydd ar ffiniau gofal. Mae 'ar ffiniau gofal' fel term wedi dod yn fwyfwy cyffredin mewn gwasanaethau plant dros y blynyddoedd diwethaf, ond fel y nododd adroddiad gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2015) a gynhaliwyd i Gyngor Hampshire, mae'r ffordd y mae'r term yn cael ei ddefnyddio a'i ddiffinio'n amrywio[3]. At ddibenion tendro ar gyfer yr adolygiad hwn, diffiniodd Gofal Cymdeithasol Cymru 'ar ffiniau gofal' fel term a oedd yn cyfeirio at blant a phobl ifanc sy'n destun gweithdrefnau amddiffyn plant a/neu'r broses amlinelliad cyfraith gyhoeddus a dyma'r diffiniad a roddwyd i gyfranogwyr yn yr astudiaeth hon, er mae'n glir bod y dehongliad yn mynd ymhellach na'r cylch gwaith hwn i lawer. Gellir defnyddio'r term yn ehangach i ddisgrifio: teuluoedd lle mae yna bryderon amddiffyn plant sylweddol, a allai arwain at ofal y tu allan i'r cartref os na wneir cynnydd digonol i fynd i'r afael â'r pryderon[4]; plant a phobl ifanc, sydd wedi bod mewn gofal ond sydd mewn perygl o ailymuno â'r system ofal; teuluoedd y mae eu hanghenion yn dwysáu mewn ffordd a allai olygu bod rhaid i'r plentyn dderbyn gofal o fewn cyfnod o wythnosau neu fisoedd; neu blant y byddai'n rhaid iddynt dderbyn gofal oni bai fod pecyn ymyrryd neu gymorth arall yn cael ei gyflwyno i'w hamddiffyn[5]. Mae rhai awdurdodau yn diffinio gwasanaethau 'ar ffiniau gofal' fel rhai sy'n canolbwyntio'n benodol ar y glasoed a'u teuluoedd, tra bod eraill yn eu diffinio fel rhai sy'n cyfeirio at blant a phobl ifanc o unrhyw oedran. Cafodd y gwahaniaethau diffiniadol a gweithredol hyn eu nodi mewn arolwg gan Ofsted o awdurdodau lleol Lloegr yn 2011 hefyd[6].

### Pryderon dybryd am Wella ac Arloesi: Barn Comisiynydd Plant Cymru

Fel rhan o'r prosiect hwn, casglwyd barn Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ar wella ac arloesi yn y sector. Fel rhan o'r sgwrs hon, gofynnwyd beth oedd eu pryderon dybryd ar hyn o bryd o ran beth y dylai gwaith gwella ac arloesi fynd i'r afael ag ef, a rhoddwyd sylwadau hefyd ar sut y gallai hyn ddigwydd ym maes gofal cymdeithasol Cymru heddiw. Rydym yn cyfeirio at y rhain yma fel dyfais fframio ar gyfer yr adroddiad er mwyn cynnwys barn a llais plant a phobl ifanc yn ein hadroddiad, a oedd yn anymarferol fel arall o ystyried amserlen dynn y prosiect hwn. Cylch gwaith y Comisiynydd Plant yw gwrando ar, a siarad ar ran plant a phobl ifanc yng Nghymru mewn materion sy'n ymwneud â nhw; felly, mae eu barn yma'n cael ei gyflwyno fel barn sy'n cynrychioli prif bryderon plant a phobl ifanc mwn gofal. Mae'n ddefnyddiol cadw'r rhain mewn cof wrth ddarllen yr adroddiad, ac rydym yn dychwelyd i drafod ar ddiwedd yr adroddiad data i weld a yw'r pryderon hyn cael sylw gan weithgarwch sefydliadau eraill.

Y tri maes a nodwyd fel pryder dybryd ar gyfer gwella ac arloesi yw:

- iechyd meddwl a chymorth llesiant
- cyrhaeddiad addysgol (mewn ystyr eang) a chyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant
- gostyngiad mewn elw a'r gallu i ail-fuddsoddi arian mewn gwasanaethau cefnogol yn lle hynny.

Ymhellach, nododd cynrychiolydd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru mai gwaith rhanbarthol a phartneriaeth mwy effeithiol yw'r ffordd orau o fynd i'r afael â'r pryderon hyn. Dywedwyd bod problemau'n datblygu ynghylch cyfathrebu, rhannu cyfrifoldeb, a'r ffaith nad oedd trefniadau rhannu gwybodaeth yn gweithio'n effeithiol, yn enwedig mewn perthynas ag iechyd meddwl ac addysg. Mae hyn yn cyfateb i elfen graidd gwaith partneriaeth sy'n sail i Ddeddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 a Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015. Un o nodau'r prosiect hwn oedd casglu sylwadau sefydliadau ar sut mae gwaith partneriaeth yn digwydd ar draws y sector, a sut mae sefydliadau'n ceisio gwella hyn, ac rydym yn rhoi sylwadau ar ein canfyddiadau ar dudalen 31.

# 1. DULLIAU CASGLU DATA

Cynlluniwyd y prosiect hwn fel ymarfer casglu tystiolaeth cyflym gydag amrywiaeth eang o asiantaethau allweddol sy'n cefnogi plant sy'n derbyn gofal yng Nghymru.

Er mwyn casglu data, canolbwyntiwyd ar gyswllt personol drwy gyfweliadau ffôn, ochr yn ochr â chyflwyniadau ysgrifenedig, lle bo angen, yn sgil capasiti neu gyfyngiadau ar amser y rhai a oedd yn cymryd rhan.

Rhoddwyd cymeradwyaeth foesegol i'r prosiect gan Bwyllgor Moeseg Ymchwil Ysgol Gwyddorau Cymdeithasol Prifysgol Caerdydd ym mis Ionawr 2018. Mae'r gymeradwyaeth hon yn sicrhau cyfranogwyr a defnyddwyr yr ymchwil bod dulliau'r prosiect wedi'u harchwilio gan bwyllgor y tu allan i'r prosiect a bod yr ymchwilwyr wedi derbyn canllawiau a monitro moesegol.

### Cyfranogwyr a wahoddwyd

Gwahoddwyd uwch weithwyr proffesiynol o'r sefydliadau canlynol sy'n cwmpasu Cymru gyfan i gymryd rhan yn y prosiect:

- adrannau gwasanaethau plant awdurdodau lleol
- comisiynwyr heddlu a throseddu
- byrddau iechyd lleol
- Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru
- Gofal Cymdeithasol Cymru
- CAFCASS Cymru
- pob sefydliad trydydd sector a phreifat mawr sy'n cefnogi neu'n gofalu am blant sy'n 'derbyn gofal' yng Nghymru.

Yn ogystal, gofynnwyd am wybodaeth gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru am y gwaith ymchwil cyfredol ar wella ac arloesi gyda'r bwriad o sicrhau gwell canlyniadau i blant sydd mewn gofal neu mewn perygl o fynd i ofal.

### Cyfrinachedd

Y gweithdrefnau moesegol safonol ar gyfer ymchwil prifysgol yw bod y rhai sy'n cymryd rhan mewn astudiaethau ymchwil yn gwneud hynny'n wirfoddol, yn cael gwybodaeth addas am nodau, dulliau a'r defnydd o ddata yn yr astudiaeth, ac yn cael y cynnig i aros yn ddienw. Gofynnodd y mwyafrif o'r rhai a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon am gael aros yn ddienw. Er mwyn bod yn gyson yn yr adroddiad hwn, mae enwau'r holl rai a gymerodd ran wedi'u cuddio.

### Cyfweliadau

Casglwyd y rhan fwyaf o'r data drwy gyfweliadau ffôn lled-strwythuredig wedi'u paratoi ymlaen llaw, gyda'r cyfweliadau wedi'u teilwra i bob math o sefydliad a oedd yn cwmpasu'r meysydd canlynol, fel y bo'n briodol:

- modelau a dulliau ymarfer
- prosiectau peilot
- plant ar ffiniau gofal
- gofal preswyl
- meithrin capasiti gyda gofalwyr maeth
- comisiynu a gweithio mewn partneriaeth
- gweithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014

Cynhaliodd tîm y prosiect tua 55 o gyfweliadau ffôn dros gyfnod o chwe wythnos. Cafodd pob cyfweliad ond dau eu recordio (fe wnaeth y ddyfais recordio fethu). Cyflwynodd pedwar ymatebion ysgrifenedig i gwestiynau pan nad oedd hi'n bosibl cynnal cyfweliad ffôn. Cynhaliwyd cyfweliad personol gyda chynrychiolydd CAFCASS Cymru. Nid yw data ar weithredu Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 wedi'i gynnwys yn yr adroddiad hwn gan ei fod yn faes diddordeb ychwanegol i'r awdur cyntaf ac yn cael ei gyhoeddi ar wahân maes o law.

## Casglu data ychwanegol

Mewn rhai achosion, gofynnwyd am ddogfennau gan y rhai a gyfwelwyd er mwyn ael rhagor o fanylion am brosiectau neu strategaethau penodol. Ni chasglwyd gwybodaeth gyfrinachol drwy'r dull hwn. Er mwyn casglu rhagor o wybodaeth, buom hefyd yn chwilio drwy adroddiadau blynyddol pob adran gwasanaethau cymdeithasol awdurdod lleol a gyhoeddwyd yn 2017.

Yn ogystal, gofynnwyd am restr gyda nodiadau o gyrsiau hyfforddi sydd ar gael i weithwyr cymdeithasol mewn adrannau gwasanaethau plant awdurdodau lleol, ac anfonwyd y rhai ar e-bost.

Darparwyd y dogfennau hyn i Gofal Cymdeithasol Cymru ac efallai y byddwn yn gofyn amdanynt.

## Defnydd o ddata

Ni chafodd y cyfweliadau eu trawsgrifio'n llawn oherwydd cyfyngiadau amser y prosiect a chost afresymol y gwasanaeth hwn. Yn hytrach, paratowyd taenlen 'map data' gan bob aelod o'r tîm a'i defnyddio i dynnu'r wybodaeth berthnasol o'r data sain. I lunio'r adroddiad hwn, defnyddiwyd y map data fel pwynt cyfeirio a chyfeiriwyd at recordiadau sain gwreiddiol am ragor o wybodaeth.

## Cyfyngiadau'r astudiaeth

Y prif gyfyngiad oedd yr amserlen dynn ar gyfer recriwtio pobl i gymryd rhan a chasglu data, a ddigwyddodd yn bennaf dros gyfnod o chwe wythnos o ddiwedd mis Ionawr i ganol mis Mawrth 2018 (cynhaliwyd llond llaw o gyfweliadau hwyr a derbyniwyd cyflwyniadau data dros bythefnos olaf mis Mawrth). Roedd yr heriau recriwtio'n fwy difrifol nag a ddisgwyliwyd yn wreiddiol, gan arwain at dreulio llawer mwy o amser yn recriwtio nag a gynlluniwyd. Nid oedd pob cyfranogwr addas yn gallu cymryd rhan o fewn yr amserlen.

Er ei bod hi'n fwriad cyfweld nifer o bobl o bob sefydliad, roedd hyd yn oed cael un i gymryd rhan yn profi'n heriol iawn mewn nifer o achosion, ac mewn rhai achosion gwrthododd y sefydliadau gymryd rhan am sawl rheswm (capasiti staff yn bennaf). Mewn achosion eraill, fe'n cyfeiriwyd at eraill i drafod mater ond methwyd recriwtio'r unigolyn hwnnw, a arweiniodd at set ddata anghyflawn.

O ganlyniad, ni ellir ystyried y data a gyflwynwn fel set ddata gyflawn o'r holl weithgarwch yng Nghymru, gan nad oedd gan y rhan fwyaf o unigolion a oedd yn cynrychioli eu sefydliadau wybodaeth ymarferol gyflawn am yr holl weithgarwch perthnasol. Felly, pan gyfeirir at sefydliad mewn gweithgarwch penodol, dylid rhagdybio bod eraill yn rhan o'r gwaith hefyd neu'n cynnal yr un prosiect ac nad oedd hi'n bosibl siarad â nhw. Os oes sefydliadau nad yw eu gweithgareddau wedi'u cynnwys yma yn dymuno gwneud cyflwyniadau pellach i'r adolygiad, dylent gysylltu â'r awduron.



# 2. ADRODDIAD DATA

Roedd y sefydliadau a gymerodd ran yn yr astudiaeth hon yn cynnwys y canlynol:

**Adrannau gwasanaethau plant awdurdodau lleol**

- Pen-y-bont ar Ogwr
- Caerdydd
- Sir Gaerfyddin
- Conwy
- Sir Ddinbych
- Sir y Fflint
- Gwynedd
- Ynys Môn
- Casnewydd
- Merthyr Tudful
- Sir Fynwy
- Sir Benfro
- Rhondda Cynon Taf
- Torfaen
- Bro Morgannwg
- Wrecsam

**Sefydliadau'r trydydd sector**

- Gweithredy dros Blant
- Adoption UK
- Barnardo's Cymru
- Plant yng Nghymru
- Rhwydwaith Maethu
- Anabledd Dysgu Cymru
- Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol
- SNAP Cymru
- Tros Gynnal Plant
- Voices from Care Cymru

**Sefydliadau preifat**

- Calon Cymru Fostering
- Foster Care Cardiff and Swansea
- TLC Wales Fostering

**Byrddau iechyd**

- Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg
- Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr
- Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro
- Bwrdd Iechyd Cwm Taf
- Bwrdd Iechyd Hywel Dda
- Bwrdd Iechyd Addysgu Powys Teaching

**Heddluoedd**

- Dyfed-Powys
- Gwent
- Gogledd Cymru

Hefyd: CAFCASS Cymru; Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru; Gofal Cymdeithasol Cymru.



## 2.1 Modelau a dulliau ymarfer

Mae ymchwil ac ymarfer wedi datblygu amrywiaeth eang o fodelau a dulliau ymarfer strwythuredig ym maes gofal cymdeithasol sy'n cynnwys gwerthoedd a chredoau penodol am weithio gyda phobl i sicrhau canlyniadau gwell. Gallai'r canlyniadau hyn fod yn nodau personol unigol, hirdymor sy'n canolbwyntio ar lesiant, neu'n nodau sefydliadol, sy'n canolbwyntio ar fwy o effeithlonrwydd, cyflymder, a gwerth am arian o fewn ffiniau risg dderbyniol. I gyflawni'r amcanion hyn, gall modelau a dulliau gofal cymdeithasol dywys ymarferwyr drwy eu gwaith gan ddefnyddio cwestiynau, strwythurau a phrosesau asesu, neu arddulliau rheoli penodol. Gallant ddylanwadu ar y math o atgyfeiriadau gwasanaeth a wneir, neu'r arddull gofal y mae unigolyn yn ei dderbyn.

Mae gwybod pa fodelau a dulliau mae adran gofal cymdeithasol neu sefydliad yn eu defnyddio yn ffordd o ddeall eu gwerthoedd a'u credoau, yn ogystal â darparu gwybodaeth am arferion bob dydd. Mae hefyd yn dweud wrthym sut maent yn ceisio gwella gwasanaethau ac yn ceisio bod yn arloesol drwy archwilio dulliau newydd neu eu defnyddio mewn ffyrdd gwreiddiol.

Mae rhai adrannau a sefydliadau'n dewis un neu ddau fodel cyffredinol, ac yn eu haddasu i gyd-destunau unigol, tra bod eraill yn dewis cynnwys gwahanol fodelau ar gyfer pob maes ymarfer, grŵp o bobl, neu dîm gwaith cymdeithasol. Ar gyfer yr astudiaeth hon, roeddem am wybod pa fodelau a dulliau sy'n cael eu defnyddio neu eu hystyried ar gyfer eu defnyddio ledled Cymru. Roeddem am ddeall pa rai sy'n cael eu hystyried fel y rhai mwyaf defnyddiol ac ymarferol i wella ymarfer a chyflawni canlyniadau systemig ac unigol da.

Gofynnwyd i bob adran gwasanaethau plant a darparwr gwasanaethau am y modelau a'r dulliau gwasanaeth yr oeddynt yn eu defnyddio[7]. Gofynnwyd iddynt ddiffinio sut roedd y modelau a'r dulliau hyn yn gweithio'n ymarferol, pryd y cawsant eu rhoi ar waith, ac a oeddynt wedi'u gwerthuso. Gofynnwyd beth oedd canlyniadau'r gwerthuso, ac a oeddynt yn bwriadu newid eu harferion neu gynnal unrhyw waith pellach yn y dyfodol agos.

### Dulliau penodol mewn awdurdodau lleol

Dangosodd y cyfweliadau â rheolwyr gwasanaethau plant awdurdodau lleol am y modelau a'r dulliau ymarfer a ddefnyddiwyd yn eu hawdurdod bod y rhain yn cael eu gweithredu ar amrywiaeth o lefelau gwahanol. Mae'r rhain yn perthyn i nifer o fathau yn fras. Dywedodd nifer fechan o awdurdodau eu bod wedi mabwysiadu model ymarfer systemig ar draws gwasanaethau plant, ond mai'r model mwyaf cyffredin oedd *Arwyddion Diogelwch*. Dywedodd grŵp llawer mwy o awdurdodau eu bod yn defnyddio amrywiaeth ehangach o ddulliau ymarfer. Roedd enghreifftiau o'r rhain yn cynnwys defnyddio technegau cyfweld ysgogiadol; adnodd asesu risg Bruce Thornton (a ddisgrifir fel y *Model Risg* hefyd); a dulliau seiliedig ar gryfderau. Disgrifiodd un Pennaeth Gwasanaethau eu model cyffredinol fel pioden, dull a oedd yn cymryd syniadau o amrywiaeth o fodelau a dulliau eraill. Yn yr achos hwn, roedd hyn yn cynnwys elfennau o *Arwyddion Diogelwch*, dulliau adferol, gwahanol fodelau therapiwtig, a *Cymorth Dwys i Deuluoedd* ymysg eraill. Er nad yw'n amlwg mewn rhai ymatebion, mae'n ymddangos bod y dull pioden hwn yn cyd-fynd â'r wybodaeth a ddarparwyd gan awdurdodau lleol eraill.

#### *Modelau ymarfer gwasanaethau plant awdurdodau lleol a'r 'dull pioden'*

Disgrifiodd tri awdurdod lleol eu bod wedi cynnwys Arwyddion Diogelwch yn llawn; fodd bynnag, nid oedd gan y mwyafrif o adrannau gwasanaethau plant awdurdodau lleol unrhyw fodel neu ddull ymarfer, gyda llawer yn ffafrio *dull* pioden a oedd yn teilwra ymarfer i gyd-destunau penodol.

Mae'r awdurdodau lleol hyn yn prynu rhaglenni hyfforddi ac asesu a gynlluniwyd yn benodol gan ymgynghoriaethau i weithio gyda grwpiau penodol, neu'n defnyddio egwyddorion cyffredinol fel *dull seiliedig* ar gryfderau neu theori ymlyniad i arwain nifer o weithgareddau.

Pan ddefnyddir y *dull pioden*, mae'n ymddangos bod gwasanaethau wedi datblygu dros nifer o flynyddoedd drwy arferion ymatebol sy'n ystyried profiad staff a'r cyhoedd. Mae'r dull ymatebol hwn hefyd yn ystyried deddfwriaeth a rhywfaint o'r sylfaen dystiolaeth. Fodd bynnag, mae'n rhesymol gofyn sut y gellir monitro a gwerthuso'r defnydd o ddulliau a modelau niferus ar gyfer defnydd priodol a chanlyniadau gan uwch staff, gan na nododd llawer o awdurdodau lleol fod ganddynt brosesau gwerthuso penodol y tu hwnt i arolygiadau gofal ffurfiol.

**Dull seiliedig ar gryfderau:**
Cyfranogwyr: Caerdydd; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Ynys Môn; Torfaen

**Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:**
Cyfranogwyr: Conwy; Sir y Fflint; Gwynedd

**Dull perthynol / seiliedig ar berthnasoedd / systemig:**
Cyfranogwyr: Sir Gaerfyrddin, Sir Fynwy

**Dull ecolegol:**
Cyfranogwyr: Sir Fynwy

**Dull sy'n canolbwyntio ar dasgau:**
Cyfranogwyr: Conwy; Sir Ddinbych

**Dull therapiwtig:**
Cyfranogwyr: Conwy; Ynys Môn; Merthyr Tudful; Sir Fynwy; Casnewydd; Rhondda Cynon Taf; Bro Morgannwg

**Dull pioden**
Defnyddiwyd gan: Pen-y-bont ar Ogwr; Sir Ddinbych; Gwynedd; Casnewydd; Sir Fynwy; Bro Morgannwg

## Modelau a fframweithiau penodol mewn awdurdodau lleol

**Arwyddion Diogelwch:**
Cyfranogwyr: Caerdydd (llawn); Abertawe (llawn); Sir Benfro (llawn – dim ond amddiffyn ar y dechrau ond nawr yn ehangu i feysydd eraill); Sir Gaerfyrddin (rhan – dim ond at ddibenion asesu); Casnewydd (rhan – mae'r holl staff wedi derbyn hyfforddiant ond cânt eu hannog i deilwra dulliau i gyd-destunau unigol)



**Ymarfer adferol:**
Cyfranogwyr: Casnewydd

**Theori ymlyniad:**
Cyfranogwyr: Ynys Môn; Sir Fynwy; Casnewydd

**Therapi Byr yn canolbwyntio ar atebion:**
Cyfranogwyr: Ynys Môn; Merthyr Tudful

**Tîm/Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd:**
Cyfranogwyr: Conwy; Sir Ddinbych; Ynys Môn; Merthyr Tudful; Casnewydd; Rhondda Cyno Taf; Wrecsam

**Fframwaith / Cynadleddau Asesu Risg Aml-asiantaeth:**
Cyfranogwyr: Merthyr Tudful

**Sylfaen Ddiogel (Safe/Secure Base):**
Cyfranogwyr: Sir Fynwy: Casnewydd

**Model Risg Thornton/Gwynedd:**
Cyfranogwyr: Ynys Môn; Wrecsam

**Proffil Gofal Graddedig:**
Cyfranogwyr: Wrecsam

**Cyfweld ysgogiadol:**
Cyfranogwyr: Conwy; Ynys Môn; Rhondda Cynon Taf; Torfaen; Wrecsam

**Cylch Newid / Cam Newid:**
Cyfranogwyr: Ynys Môn

**Gwasanaeth Atal a Chymorth:**
Cyfranogwyr: Wrecsam

**Y Blynyddoedd Rhyfeddol:**
Cyfranogwyr: Wrecsam

**Rhaglen Rhyddid (Freedom):**
Cyfranogwyr: Wrecsam

## Modelau a dulliau mewn sefydliadau trydydd sector a phreifat

### *Dull hawliau plant ac arferion y trydydd sector*

Dull hawliau plant sy'n seiliedig ar Gonfensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn a ddefnyddir yn bennaf gan drydydd sector gofal cymdeithasol plant yng Nghymru. Nid yw hyn yn syndod, gan fod y sefydliadau hyn yn bodoli i hyrwyddo plant y mae eu lleisiau fel arfer yn cael eu gwthio i ymylon penderfyniadau cyhoeddus a phreifat.

Gan ddefnyddio'r dull hwn, mae sefydliadau'r trydydd sector yn aml yn ceisio dylanwadu ar bolisi a chyfraith cyhoeddus a phenderfyniadau mwy lleol am blant a phobl ifanc drwy hyrwyddo eu lleisiau. Maent hefyd yn darparu gweledigaeth ddyheadol ar gyfer gofal cymdeithasol plant, sydd, er bod yn amrywio yn dibynnu ar natur pob sefydliad, gyda'i gilydd yn gweithredu fel ysgogydd gwella ac arloesol grymus yn y sector. Mae eu swyddogaeth yn ymestyn i ddatblygu a threialu arloesedd, gan ddefnyddio eu cyllid i geisio chwilio am ffyrdd newydd o weithio ledled Cymru, eu treialu, a'u gweithredu os ydynt yn llwyddiannus. Maent yn cyflawni swyddogaeth amlwg yn arwain y sector cyhoeddus a phreifat drwy ddarparu gwybodaeth, cefnogi, a hyrwyddo mewn darpariaeth statudol[8]. Gellir ystyried eu dylanwad ym mholisi Cymru yn llywodraethau parhaus y blaid Lafur a gafwyd yn y Cynulliad ers ei sefydlu fel parhad o strategaeth 'fuddsoddi gymdeithasol' y blaid[9] mewn perthynas â phlant ar ôl i'r grym hwn wanhau yn llywodraeth y DU pan gollodd Llafur etholiad cyffredinol 2010.

Mae Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn ffurfioli llawer o bolisïau argymelledig a dyheadau'r trydydd sector, sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i ofyn barn plant a phobl ifanc pryd bynnag y gwneir penderfyniadau am eu gofal, ac yn ddadleuol, yn ymestyn gofynion Confensiwn y Cenhedloedd Unedig ar Hawliau'r Plentyn. Yn y cyfamser, mae prosiectau newydd arwyddocaol a helaeth dan arweiniad y trydydd sector fel *Hyder mewn Gofal* a phrosiect *Reflect* yn parhau i fod ar flaen arloesi a gwella ym maes gofal cymdeithasol plant.

Nododd wyth o'r naw sefydliad trydydd sector a holwyd, ac un o'r tri sefydliad preifat a holwyd, fod eu dull gwaith craidd yn canolbwyntio ar hawliau plant neu ar gefnogi cyfranogiad plant mewn penderfyniadau sy'n effeithio arnyn nhw; soniodd nifer ohonynt am y ddau.

Yr unig sefydliad trydydd sector na nododd y dull hwn oedd Adoption UK. Nid ydynt yn gwneud llawer o waith uniongyrchol â phlant gan ganolbwyntio mwy ar gryfhau'r uned deuluol. Yn hytrach, buont yn trafod model cefnogaeth gan gymheiriaid sy'n galluogi rhieni sy'n mabwysiadu i helpu a chefnogi ei gilydd.

Yn ogystal â thrafod hawliau plant, mae Tros Gynnal Plant yn defnyddio dull adferol wrth weithio gyda theuluoedd a phobl ifanc.

Roedd pedwar sefydliad trydydd sector a dau sefydliad preifat yn defnyddio neu'n cefnogi arferion seiliedig ar ymlyniad neu rianta therapiwtig, naill ai fel gwerth craidd eu gwaith neu fel agwedd ar brosiect penodol.



## 2.2 Prosiectau peilot a mentrau newydd

### Diffinio a gwerthuso prosiectau peilot

Fel arfer, mae prosiectau peilot yn cyfeirio at wasanaethau newydd sy'n cael eu cyflawni am gyfnod o amser wedi'i benderfynu ymlaen llaw a'u monitro'n ofalus i weld a ydynt yn sicrhau canlyniadau dymunol. Weithiau, mae'r term 'peilot' yn cyfeirio at ailstrwythuro neu broses fewnol arall a brofir i weld a all ddarparu dull o weithio mwy effeithlon neu effeithiol. Yn aml, roedd prosiectau peilot yn gysylltiedig â recriwtio, lle roedd swydd newydd benodol wedi'i hariannu neu dîm cyfredol wedi'i hyfforddi a'i ddyrannu i ddarparu gwasanaeth penodol. Yn ddelfrydol, dylai prosiectau peilot gael eu diffinio gan weithdrefnau gwerthuso a mesuriadau canlyniadau cadarn wedi'u penderfynu ymlaen llaw[10]; fodd bynnag, mae yna ansicrwydd cyffredinol neu ddiffyg hyder ynghylch gweithdrefnau gwerthuso'r agwedd hon ar ddata yn y sector. Cafwyd rhai gwahaniaethau amlwg yn nehongliad ymatebwyr o brosiect peilot, gyda rhai'n adrodd am fentrau newydd a fyddai'n gwella gwasanaethau gobeithio, yn hytrach na phrosiectau'n cael eu cynllunio'n benodol i gyflawni hyn. Gellid gweld hyn drwy ddiffyg amserlen wedi'i diffinio, dim gwybodaeth wedi'i chofnodi am werthuso neu fesurau canlyniadau, a diffyg eglurder am pa waith pellach allai ddeillio o'r prosiect.

Er bod rhywfaint o'r data hwn wedi'i hepgor oherwydd cyfyngiadau ar brosesau casglu data yn ein hymchwil o bosibl (er enghraifft, nid oedd yr unigolyn oedd yn gwybod fwyaf am y pwnc yn rhan o'r gwaith casglu data), fe allai hyn fod yn destun pryder i'r agenda wella. Efallai bod llawer o weithgarwch arloesol yn digwydd yn y sector ble mae llwyddiannau'n cael eu pennu gan ddata sy'n cael ei fonitro'n rheolaidd (fel nifer yr atgyfeiriadau neu nifer y plant mewn gofal) ac sy'n cael ei ddylanwadu gan ystod ehangach o ffactorau dros gyfnodau amser ansicr, neu gan arsylwadau goddrychol rheolwyr wrth i'r gwasanaeth fynd rhagddo. Er bod data o'r fath o werth sylweddol wrth werthuso gwasanaethau ac na ddylid ei ddiystyru, gallai diffyg cynllunio manwl a gwybodus arwain at gamargraff o fethiant neu lwyddiant. Mae defnyddio mesurau pwrpasol i werthuso prosiectau peilot, a sicrhau dealltwriaeth gref o weithdrefnau cymharu a monitro cyn dechrau gweithio yn sail llawer cryfach ar gyfer pennu gwelliannau ym maes gofal cymdeithasol.

Gofynnwyd i holl adrannau gwasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol a darparwyr gwasanaethau am brosiectau peilot a gynhaliwyd dros y 12 mis diwethaf a'r rhai sydd wedi'u cynllunio ar gyfer y 12 mis nesaf. Soniodd pob awdurdod heblaw dau am o leiaf un prosiect peilot, gyda'r rhan fwyaf ohonynt yn sôn am ddau o leiaf. Yn sgil y materion a nodwyd uchod, rydym wedi isdeitlo'r adran hon i nodi bod mentrau newydd yn ddisgrifiad gwell i rai prosiectau a nodwyd, yn hytrach na phrosiectau peilot.

DS. Dywedodd llawer o awdurdodau lleol fod y Gwasanaeth Cymorth Dwys i Deuluoedd yn gysylltiedig â'u prosiectau peilot ataliol. Er bod sawl blwyddyn wedi mynd heibio ers cyflwyno'r gwasanaeth hwn yng Nghymru (2014), mae'n glir bod ei gynllun yn dal i gael ei ystyried fel dull arloesol a defnyddiol o gefnogi amcanion gwella. Enwodd rhai awdurdodau lleol eu timau Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd eu hunain fel prosiect peilot parhaus ynddo'i hun, gydag addasiadau ac achosion o ehangu cwmpas eu hymarfer yn dal i ddatblygu. O'r datblygiadau hyn, dylid nodi prosiect peilot Conwy'n arbennig gan ei fod yn ceisio cynnig Gwasanaethau Cymorth Dwys i Deuluoedd cyn i broblem godi i atal argyfyngau, yn hytrach na gweithredu gwasanaeth ymyrryd mewn argyfwng. Maent wrthi'n recriwtio i'r tîm hwn ac yn datblygu dull gwerthuso i olrhain cynnydd a mesur canlyniadau dros gyfnod o dair i bum mlynedd. Mae'n gobeithio y bydd hyn yn lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal ac yn arwain at gyfnodau ymyrryd cyffredinol byrrach.

**Hyder mewn Gofal**
Cyfranogwyr: Ar gael i bob awdurdod lleol yng Nghymru. Nid yw rhai ohonynt wedi dechrau'r rhaglen eto ac mae eraill wedi penderfynu tynnu allan nes gwybod canlyniadau'r gwerthuso yn 2020. Mae consortiwm o sefydliadau'n arwain a gwerthuso'r prosiect: y Rhwydwaith Maethu; Gweithredu dros Blant; Barnado's; TACT; a Phrifysgol Caerdydd.

**Lleoliad gyda Rhieni**
Cyfranogwyr: Caerdydd.

**Tîm Ar Ffiniau Gofal / Teuluoedd Cydnerth / Ymateb Cyflym Pwrpasol**
Cyfranogwyr: Blaenau Gwent; Conwy; Sir Gaerfyrddin; Gwynedd; Ynys Môn; Merthyr Tudful; a Thorfaen.

**Hyb Cymorth Cynnar**
Cyfranogwyr: Sir y Fflint, gyda phartneriaid.

**Cynorthwywyr Personol Gweithwyr Cymdeithasol**
Cyfranogwyr: Merthyr Tudful.

**Gweithio Rhanbarthol Integredig ar gyfer Anghenion Cymhleth**
Cyfranogwyr: Casnewydd; Sir Fynwy; Torfaen; Blaenau Gwent; Caerffili; a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

**Paneli Maethu Cyfranogiad Llawn**
Cyfranogwyr: Sir Benfro.

**Therapi Chwarae**
Cyfranogwyr: Torfaen, Gweithredu dros Blant; a Chaerffili.

**Model Maethu Therapiwtig**
Cyfranogwyr: Bro Morgannwg a Gweithredu dros Blant

**Gwella / Ar Goll o Gartref**
Cyfranogwyr: Gwella: Abertawe (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Bae'r Gorllewin); Rhondda Cynon Taf (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf); Merthyr Tudful (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Cwm Taf); Sir Gaerfyrddin (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Canolbarth a Gorllewin Cymru); Sir Ddinbych (Bwrdd Diogelu Rhanbarthol Gogledd Cymru); Barnado's Cymru; ac Ar Goll o Gartref; Wrecsam.

**Adlewyrchu**
Cyfranogwyr: Casnewydd (safle peilot cyntaf); Gwynedd a Sir Benfro wedi'u crybwyll fel rhai nesaf ond bydd y broses weithredu'n genedlaethol; a Barnardo's Cymru.

**Prosesau Ymarfer a Datblygu Cysylltiadau Gweithio**
Cyfranogwyr: Sir Benfro.

**Un Pwynt Mynediad**
Cyfranogwyr: Wrecsam, cynrychiolwyr o'r trydydd sector ac iechyd.

**Cynllun Prentisiaeth Corfforaethol**
Cyfranogwyr: Sir Benfro.



## 2.3 Gwella ac arloesi wrth feithrin gallu gyda gofalwyr

Gofynnwyd i bob adran gwasanaethau plant awdurdod lleol a darparwr gwasanaeth a oeddynt wedi bod yn gwneud unrhyw waith i wella neu arloesi mewn perthynas â meithrin gallu gyda gofalwyr yn ystod y 12 mis diwethaf ac a oedd unrhyw waith wedi'i gynllunio ar gyfer y 12 mis nesaf. Pan oedd angen, nododd yr ymchwilwyr bod 'meithrin gallu' yn cyfeirio at sgiliau a datblygu, yn ogystal â recriwtio a marchnata.

Yn ystod ên trafodaethau ar y pwnc hwn, rhannodd mwyafrif y rhai a holwyd o awdurdodau lleol bryderon am recriwtio digon o ofalwyr maeth 'mewnol' gan ddisgrifio ymdrechion i ehangu'r recriwtio hwn, er bod rhai wedi cynnig cynlluniau mwy datblygedig nag eraill; mae'r rhain wedi'u disgrifio yn yr adran isod.

Mae'n bwysig nodi bod Fframwaith Maethu Cenedlaethol Cymru yn ei gamau datblygu olaf erbyn hyn[11]. Mae cylch gwaith y Fframwaith yn cynnwys sawl ffrwd waith sy'n canolbwyntio ar recriwtio, datblygu a chadw gofalwyr maeth ledled Cymru, yn cynnwys creu brand Cymru gyfan ar gyfer maethu mewn awdurdodau lleol, er mwyn llunio strategaeth wella genedlaethol gydlynus ar gyfer capasiti gofalwyr maeth. Er bod nifer o bryderon wedi'u mynegi am allu neu gapasiti awdurdodau lleol i gystadlu â darparwyr preifat wrth ddenu a chadw gofalwyr maeth, y disgwyliad eiddgar yw y bydd y Fframwaith yn ateb posibl.

### Uwchsgilio'r gweithlu gofal maeth cyfredol

Roedd uwchsgilio'r gweithlu gofal maeth i ymdrin â newidiadau parhaus yn amgylchiadau plant a atgyfeirir i ofal cymdeithasol yn flaenoriaeth glir i'r holl gyfranogwyr fwy neu lai. Pwysleisiodd Casnewydd a Wrecsam yn arbennig fod atgyfeiriadau'n mynd yn fwy cymhleth, gan ddweud bod angen hyfforddiant penodol a chynlluniau cymorth ar gyfer materion fel cam-fanteisio'n rhywiol ar blant, unigolion digwmni sy'n ceisio lloches, a phlant ag anghenion cymhleth i sicrhau bod gallu gofalwyr maeth yn ateb y galw. Roedd sawl cyfranogwr yn teimlo bod hon yn her sylweddol yn wyneb cyllidebau gwastad, gyda chyllid i gefnogi ehangu hyfforddiant yn brin.

Mae'r rhaglen *Hyder mewn Gofal*, sy'n cael ei threialu ar hyn o bryd, yn cael effaith amlwg ar y maes ymarfer hwn, gyda nifer o awdurdodau lleol yn sôn ei bod yn cael ei darparu yn eu hardal ar hyn o bryd, neu'n fuan. Mae'r rhaglen yn creu argraff gadarnhaol yn amlwg yn y sector. Mae'r ffaith fod y rhaglen i'w chael am ddim heb amheuaeth yn helpu, a dywedodd sawl awdurdod eu bod yn aros yn eiddgar am ganlyniadau'r treial. Dywedodd Sir Benfro'n arbennig eu bod wedi cael adborth rhagorol gan gyfranogwyr y cwrs ac y byddent yn parhau i ddarparu'r gwasanaeth cyn belled ei fod ar gael am ddim, ac y byddent yn ail-werthuso'r sefyllfa ar sail costau ar ddiwedd y cyfnod treialu. Er ei fod yn dal yn y cam datblygu, soniodd sawl awdurdod am y *Fframwaith Maethu* arfaethedig yn eu hymatebion o dan yr adran hon, gan ddangos ymwybyddiaeth o'i chwmpas a'r potensial i uwchsgilio'r gweithlu.

Roedd yna ffocws clir ar wasanaethau cymorth therapiwtig i ofalwyr maeth mewn nifer o ardaloedd, gyda hyfforddiant ymlyniad yn cael ei nodi fel gweithgarwch gwella allweddol, yn enwedig gan ddarparwyr y trydydd sector. Mae Gweithredu dros Blant yn cynnwys egwyddorion theori ymlyniad yn ei fodel sefydliadol ac yn seilio ei wasanaeth gofalwyr maeth ar egwyddorion therapiwtig, gyda hyfforddiant ymlyniad helaeth ar gael drwy eu sefydliad, yn cynnwys 'clinigau ymlyniad' sy'n darparu cynlluniau ymlyniad ar gyfer cynllunio gofal holistaidd sy'n canolbwyntio ar anghenion emosiynol a llesiant. Cwrs penodol arall mae'n ei gynnig i ofalwyr maeth yw *gofalu am blant sydd wedi'u trawmateiddio*, cwrs deuddydd therapiwtig sy'n cyflwyno trawma datblygiadol a sut i weithio gyda hynny. Mae Adoption UK yn darparu hyfforddiant tebyg i ddarpar rieni mabwysiadu ar ffurf cwrs chwe sesiwn o dan y teitl *rhianta ein plant*. Mae un o grwpiau cyfranogiad lleol Voices from Care Cymru wrthi'n arwain gwaith ar 'ysgolion ymlyniad-gyfeillgar' gan ddefnyddio cyllid y Grant Datblygu Disgyblion. Roedd y theori ymlyniad yn sail boblogaidd i hyfforddiant a datblygiad gan sefydliadau gofal maeth preifat hefyd, gyda Calon Cymru'n defnyddio model datblygu'r ymennydd i weithio gyda lleoliadau rhieni a gofal maeth plant lle mae gan y rhiant anabledd dysgu. Mae TLC Wales yn adrodd am weithgareddau mewn ymateb i gynnydd a welwyd yn nifer y plant mewn gofal ag anhwylderau ymlyniad a cheisiadau gan awdurdodau lleol y dylid darparu Seicotherapi Datblygiadol Dyadig fel rhan o'r pecyn gofal ar gyfer plant maeth. Eglurodd TLC Wales ei fod wedi darparu hyfforddiant Seicotherapi Datblygiadol Dyadig i ddau o'u gweithwyr cymdeithasol eu hunain gan fod yna brinder therapyddion yn y maes yng Nghymru a bod awdurdodau lleol yn amharod i wario ar therapyddion arbenigol yn eu barn nhw. Bydd y

ddau weithiwr cymdeithasol yn derbyn achrediad eleni i fod yn therapyddion Theraplay, mewn paratoad ar gyfer hyfforddiant i fod yn therapyddion Seicotherapi Datblygiadol Dyadig cymwysedig.

O ran gwaith awdurdodau lleol, mae Conwy wrthi'n datblygu model ar gyfer cymorth therapiwtig mewn partneriaeth â CAMHS. Mae hwn wedi'i gynllunio i gefnogi gofalwyr i ddiwallu anghenion iechyd meddwl a llesiant emosiynol y plant (gweler y ddogfen amgaeedig: *Conwy: Model Cymorth Integredig CAMHS*. Nid oes unrhyw drefniadau gwerthuso wedi'u cynllunio eto ond dywedodd y cyfranogwr eu bod yn ystyried sut mae mynd ati i asesu'r ffordd mae'n ategu'r weledigaeth gyffredinol a'r dyhead am ddatblygu gwasanaethau yng Nghonwy. Gwasanaethau eraill a bwysleisiodd yr angen am weithio mewn partneriaeth ag iechyd meddwl oedd Rhondda Cynon Taf, sy'n penodi tîm therapiwtig pwrpasol i weithio gyda gofalwyr a theuluoedd, a Bro Morgannwg, y mae ei gynllun peilot maethu therapiwtig wedi'i ddisgrifio ar dudalen 77. Disgrifiodd Merthyr Tudful sut roedd cyllid Llywodraeth Cymru wedi'i gyfeirio at ddatblygu gwasanaethau therapiwtig; fodd bynnag, nid oedd rhagor o fanylion ar gael adeg casglu data. Yn y cyfamser, nodwyd bod prosiect *Sylfaen Ddiogel* Sir Fynwy (a ddisgrifir ar dudalen 68) yn ysgogydd allweddol ar gyfer meithrin sgiliau gofalwyr maeth a gwella sefydlogrwydd lleoliadau. Dywedodd Voices from Care Cymru ei fod yn gobeithio datblygu hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth ar ymdrin ag ymweliadau gan deuluoedd biolegol.

O ran gwelliannau mewn cymorth a chyngor cyffredinol i ofalwyr maeth, cyfeiriodd sawl sefydliad ac awdurdod lleol, yn cynnwys y Rhwydwaith Maethu, at ymgyrch i ddarparu oriau cymorth estynedig, yn bennaf drwy linellau cymorth 24 awr ond hefyd ymweliadau y tu allan i oriau lle roedd problemau brys yn codi. Enghraifft dda o hyn yw'r gwasanaeth MIST yn Nhorfaen a llinell gymorth 24 awr Bro Morgannwg. Cyfeiriodd Casnewydd at lwyddiant ei fforwm i ofalwyr maeth, sy'n cynnwys cyfarfod chwarterol gyda Phennaeth y Gwasanaeth a Rheolwr y Gwasanaeth, er mwyn sicrhau bod cymorth yn adlewyrchu angen yn y sector hwnnw.

Roedd hyfforddiant ar eiriolaeth a hawliau plant i ofalwyr maeth a chodi eu hymwybyddiaeth o'r pynciau'n ffocws arbennig i'r Rhwydwaith Maethu, tra bod Gweithredu dros Blant wedi gweithio gyda gofalwyr maeth ar erthyglau blogiau, gan drafod iaith gofal maeth, yn cynnwys hyrwyddo'r term amgen 'rhiant maeth' i ddisgrifio natur y berthynas faeth yn well. Maent hefyd yn ceisio cael cymorth gan Llywodraeth Cymru ar y mater hwn.

## Prosiectau sgiliau a datblygu a enwyd

**Hyder mewn Gofal**
Enwyd gan: Pen-y-bont ar Ogwr; Caerdydd; Sir Gaerfyrddin; Conwy; Sir y Fflint; Gwynedd; Casnewydd; Sir Benfro; Rhondda Cynon Taf; Gweithredu dros Blant; y Rhwydwaith Maethu; a Voices from Care Cymru.

**Y Rhwydwaith Maethu Cenedlaethol**
Enwyd gan: Bydd yn cwmpasu Cymru gyfan ond fe'i henwyd yn benodol gan awdurdodau lleol Caerdydd; Sir Gaerfyrddin a Chasnewydd fel meithrin gallu gyda gofalwyr; Gweithredu dros Blant; a'r Rhwydwaith Maethu.

**Llesiant Maethu**
Cyfranogwyr: Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful

**MIST (Multi-Intensive Support Torfaen)**
Cyfranogwyr: Torfaen.

**MAPS (Matching and Placement Support Service)**
Cyfranogwyr: Casnewydd.

## Recriwtio a marchnata

Soniodd llawer o awdurdodau lleol am ymgyrchoedd recriwtio gofalwyr maeth i wella gallu, yn aml gyda dulliau newydd neu ddiwygiedig, yn cynnwys Caerdydd, Sir Fynwy, Casnewydd, Sir Benfro, Ynys Môn a Wrecsam. Roedd rhywfaint o arloesi i'w weld, yn enwedig gan Gaerdydd a Sir Benfro. Mae'r Rhwydwaith Maethu hefyd yn gweithio'n ddygn i wella trefniadau recriwtio gofalwyr maeth ar draws y sector, ond nid yw hyn yn canolbwyntio'n benodol ar ddarpariaeth y sector cyhoeddus. Mae'n werth nodi bod y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn bwriadu newid ffocws yr ymdrechion hyn i weithredu ar lefel rhanbarthol yn hytrach na lleol er mwyn cynnig cymorth mwy cydlynol i awdurdodau lleol unigol.

Roedd Caerdydd yn pryderu'n arbennig am y nifer uchel o blant sy'n gorfod cael eu lleoli y tu allan i'r sir oherwydd bod yna brinder difrifol o ofalwyr maeth i ddiwallu anghenion Caerdydd yn lleol. Ym mis Chwefror 2017, lansiodd yr awdurdod ymgyrch recriwtio newydd 'Count Yourself In' a oedd yn targedu gofalwyr maeth posibl nad oeddynt wedi

sylweddoli eu bod yn gymwys i faethu o bosibl, yn cynnwys pobl sengl, cyplau o'r un rhyw a phobl anabl. Maent wedi hyrwyddo'r ymgyrch mewn ffordd arloesol, gan gefnogi tîm o 100 o redwyr i redeg Hanner Marathon Caerdydd a defnyddio amrywiaeth o gyfryngau cymdeithasol i gefnogi ymwybyddiaeth. Maent hefyd yn datblygu cynlluniau buddion mewn partneriaeth â busnesau i gryfhau apêl maethu trwy'r cyngor o safbwynt ariannol.

Mae Sir Benfro yn datgan eu bod yn cael eu dylanwadu'n sylweddol gan brosesau recriwtio'r sector annibynnol, gan ddefnyddio swyddog marchnata penodol ac archwilio defnydd a chost-effeithiolrwydd marchnata ar y we, er enghraifft Google Ads a hysbysebion Facebook. Fodd bynnag, er bod y syniadau hyn yn cael eu hystyried yn angenrheidiol, roedd yr awdurdod lleol yn rhoi'r un pwysigrwydd i sicrhau bod prosesau mewnol yr awdurdod yn gweithio mor effeithlon â phosibl er mwyn gallu recriwtio'n effeithlon a phrydlon. Roedd hyn wedi'i nodi fel ffactor 'drifftio' allweddol – lle mae gofalwyr maeth posibl yn mynegi diddordeb mewn maethu gyda'r cyngor ond yn cael eu colli i wasanaeth preifat mwy effeithlon. I'r diben hwn, mae'r awdurdod yn adolygu arferion gwaith eu timau maeth ac asesu i sicrhau bod pobl yn symud yn gynt drwy'r camau recriwtio a lleoli, yn arbennig mewn perthynas â gofal gan berthynas, a gwelwyd hyn fel ffordd effeithiol i leihau costau yn ogystal â gwella ffigurau recriwtio.



## 2.4 Gwella ac arloesi mewn gofal preswyl

Dyma faes gwella gwasanaethau sydd wedi derbyn llawer o sylw drwy'r grŵp gorchwyl a gorffen preswyl a sefydlwyd gan Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar ganlyniadau i blant, y mae ei raglen waith yn cynnwys sefydlu proffil o ofal preswyl yng Nghymru; adolygiad o fodelau sy'n darparu gofal preswyl; gwaith i edrych ar y posibilrwydd o ymestyn *Pan fydda i'n Barod* i bobl ifanc mewn gofal preswyl; a lleoliadau preswyl y tu allan i'r ardal a thrawsffiniol.

Wrth holi awdurdodau lleol am weithgareddau arloesi neu wella yn ymwneud â phlant a phobl ifanc mewn gofal preswyl, cyfeiriodd sawl un at y ffaith nad oedd ganddynt unrhyw ddarpariaeth breswyl fewnol mwyach. Gallai hyn awgrymu nad oes gwaith wedi'i nodi rhwng darparwyr gofal preswyl yn y trydydd sector/sector preifat ac awdurdodau lleol i wella canlyniadau i bobl ifanc mewn lleoliadau preswyl. Fodd bynnag, nododd nifer o weithgareddau weithgarwch a oedd yn canolbwyntio'n benodol ar bobl ifanc mewn gofal preswyl (lle roedd darpariaeth fewnol) neu bobl ifanc sydd ar ffiniau gofal ac yn debygol o gael eu rhoi mewn lleoliad preswyl pe baent yn mynd i ofal.

Un enghraifft o waith o'r fath yw'r model gwasanaeth a sefydlwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr, yn seiliedig ar ddull *No Wrong Door* a ddatblygwyd gan Gyngor Sir Gogledd Swydd Efrog. Yn rhan o Raglen Arloesi Gofal Cymdeithasol, gwerthuswyd y dull hwn yn gadarnhaol ym mis Gorffennaf 2017[12]. Mae'r dull yn seiliedig ar fodel hyb a thîm cymorth integredig sy'n cefnogi'r unigolyn ifanc drwy ei daith i sicrhau nad yw'n cael ei drosglwyddo o un gwasanaeth i'r llall, ond yn hytrach yn cael ei gefnogi gan dîm pwrpasol. Mae rhai pobl ifanc yn cael eu lleoli yn yr hyb preswyl, ac eraill yn cael eu cefnogi gan wasanaeth allgymorth pan fyddant mewn gofal maeth neu'n byw gyda'u teuluoedd. Wrth fabwysiadu'r dull hwn, mae Pen-y-bont ar Ogwr wrthi'n troi uned breswyl yn hyb asesu. Mae gwaith yn y maes hwn yn ei ddyddiau cynnar mewn rhai awdurdodau. Er enghraifft, dim ond nawr mae Rhondda Cynon Taf yn sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen i edrych ar ofal preswyl yn cynnwys y potensial ar gyfer ailsefydlu darpariaeth fewnol.

Mae Gwynedd, fel nifer o awdurdodau, yn hap-brynu lleoliadau preswyl i bobl ifanc gan nad oes gan yr awdurdod ddarpariaeth fewnol. Mae'r awdurdod yn nodi ei fod yn cael trafferth i nodi lleoliadau addas a bod bwlch rhwng cyflenwad a galw. Nid oes gan Gyngor Bwrdeistref Sirol Torfaen ddarpariaeth gofal preswyl eu hunain ychwaith. Fodd bynnag, mae adroddiad cyfarfod cabinet mis Medi 2017 yn nodi'r bwriad i sefydlu darpariaeth fewnol ar gyfer pobl ifanc 16+ oed ag ymddygiad cymhleth a heriol drwy ddarparu tai a chymorth mewnol 24 awr, gwasanaeth sy'n cael ei ddarparu'n allanol am gost sylweddol ar hyn o bryd. Mae'r awdurdod wrthi'n ceisio canfod eiddo addas i ddarparu'r gwasanaeth hwn. Gwneir y datblygiad hwn er mwyn arbed costau ac fel ffordd o gael rheolaeth dros ansawdd y ddarpariaeth. Mae'n golygu bod y prosiect yn un gwerth i'w wneud gan fod pobl ifanc yn cael llety diogel a'u hadsefydlu'n brydlon.

Fel y dangoswyd, dywedodd nifer o'r awdurdodau a ddarparodd wybodaeth ar gyfer yr adroddiad nad oedd ganddynt ddarpariaeth breswyl fewnol ar hyn o bryd. O'r ychydig oedd â darpariaeth (Pen-y-bont ar Ogwr, Caerdydd a Chasnewydd), mae gan un, Casnewydd, dair uned breswyl fewnol, un ohonynt yn darparu seibiannau byr i blant a phobl ifanc anabl. Efallai'n fwy pwysig o ran cyd-destun yr adolygiad hwn yw bod un o'r ddau awdurdod arall yn darparu lleoliadau i bobl ifanc sydd mewn perygl o gael eu cam-fanteisio'n rhywiol. Mae Caerdydd a Phen-y-bont ar Ogwr hefyd yn darparu swm cyfyngedig o ofal preswyl mewnol, ac mae Caerdydd yn disgrifio eu bod yn mabwysiadu dull therapiwtig, gan ddefnyddio creadigrwydd a'r celfyddydau i helpu i gefnogi llesiant plant mewn gofal.

Mae Cyngor Bwrdesitref Sirol Conwy wedi cynnig ailgynllunio'r gwasanaeth a ddarperir gan un o gartrefi plant preswyl cyfredol yr awdurdod (gweler y dogfennau amgaeedig, 'Conwy: Crisis Intervention'). Y cynnig yw datblygu gwasanaeth allgymorth ar sail tîm o weithwyr cymorth a'r gallu i ddarparu lleoliadau preswyl byrdymor brys lle bo angen. Y bwriad yw darparu cymorth hyblyg i deuluoedd sydd mewn argyfwng (yn cynnwys y rhai ar ffiniau gofal) a darpariaeth asesu preswyl a lleoli byrdymor.

### Y trydydd sector

Mae Gweithredu dros Blant yn gobeithio y bydd y Fframwaith Maethu Cenedlaethol yn creu cyfleoedd i ehangu ei waith cyfredol i gefnogi plant allan o ofal preswyl ac i deuluoedd maeth neu atal lleoliadau rhag chwalu a phlant yn gorfod symud i ofal preswyl o ganlyniad. Mae hyn yn ategu prosiect gan Calon Cymru sy'n cynnal rhaglen leoliadau trosiannol – cynllun therapiwtig i geisio helpu plant i ddychwelyd at deuluoedd maeth.

Mynegwyd pryderon am allu plant mewn gofal

preswyl i gael gafael ar wasanaeth eiriolaeth ac mae sawl sefydliad yn gweithio i fynd i'r afael â hyn, yn cynnwys Tros Gynnal, SNAP a'r Gwasanaeth Eiriolaeth Ieuenctid Cenedlaethol. Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant yn mynd i'r afael â hyn hefyd.

O ran sefydliadau'r trydydd sector, un o'r meysydd gwaith mwyaf arwyddocaol ar hyn o bryd ar gyfer pobl ifanc mewn lleoliadau preswyl yw *Pan Fydda i'n Barod*. Mae Plant yng Nghymru a Voices from Care yn cymryd rhan mewn gwaith ar gyfer Llywodraeth Cymru, yn casglu barn pobl ifanc ar beth ddylai *Pan Fydda i'n Barod* ei gynnwys i'r rhai sy'n byw mewn lleoliadau preswyl yng Nghymru. Mae Tros Gynnal Plant yn gwneud gwaith gwella gyda chartrefi preswyl unigol, drwy waith ymgynghori gyda phobl ifanc ar eu profiadau o ofal preswyl, sy'n cael ei gyflwyno'n ôl i ddarparwyr i lywio gwelliannau i wasanaethau.

Mae Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar ganlyniadau i blant wedi sefydlu grŵp gorchwyl a gorffen ar ofal preswyl, sydd wedi comisiynu pedwar darn o waith fel rhan o'r cylch gwaith hwn. Mae'r cyntaf o'r rhain yn ymwneud ag ystyried ymestyn egwyddorion *Pan Fydda i'n Barod* i bobl ifanc mewn gofal preswyl, a ddisgrifiwyd yn gynharach. Mae'r meysydd gwaith eraill yn ymwneud â datblygu arferion da yn gysylltiedig â lleoliadau preswyl y tu allan i'r ardal; creu proffil o ofal preswyl plant; a dadansoddiad o wahanol fodelau gofal preswyl.



## 2.5 Gwella ac arloesi gyda phlant ar ffiniau gofal

Yn gynharach yn yr adolygiad, amlygwyd yr amrywiad yn y ffordd mae cwmpas a ffocws gwasanaethau ar ffiniau gofal yn cael eu diffinio, gan dynnu ar adolygiadau o wasanaethau o'r fath a gynhaliwyd yn Lloegr. Mae'r amrywiad hwn yn bresennol yn y gwasanaethau sy'n cael eu darparu neu eu datblygu ledled Cymru; mae enghreifftiau'n cynnwys dull *Baby in Mind* a fabwysiadwyd ym Mhen-y-bont ar Ogwr a Chanolfan Adnoddau'r Glasoed (ARC) sy'n gweithio gyda phobl ifanc 11 i 17 oed yng Nghaerdydd[13]. Er gwaethaf rhywfaint o amrywiad posibl mewn ffocws, mae'n ymddangos bod rhyw lefel o weithgarwch mewn perthynas â gwasanaethau i blant ar ffiniau gofal yn y rhan fwyaf o awdurdodau lleol a ddarparodd ddata.

Mae rhai awdurdodau lleol wedi bod yn darparu gwasanaethau ar ffiniau gofal ers amser maith; er enghraifft, mae gan Gasnewydd wasanaeth cymorth i deuluoedd (mewn partneriaeth â Barnardo's) sydd wedi bod yn gweithio gyda phlant ar ffiniau gofal ers 2010/11 ac mae gan Wynedd wasanaeth sydd wedi bod ar waith ers tair blynedd. Mewn awdurdodau eraill, mae datblygiadau gwasanaeth yn y maes hwn wedi bod yn fwy diweddar; er enghraifft, prosiect peilot a ddatblygwyd yn ddiweddar yn Sir Gaerfyrddin.

Mae Bro Morgannwg wedi datblygu dull 'ymyrraeth mewn argyfwng' ar gyfer plant sy'n wynebu risg o ddod yn blant sy'n derbyn gofal. Erbyn hyn, mae'r prosiect, a sefydlwyd 12 mis yn ôl ac a ariannwyd i gychwyn gan yr awdurdod lleol, yn derbyn cyllid gan Lywodraeth Cymru. Sefydlwyd y gwasanaeth i gydnabod y ffaith nad oedd cymorth i deuluoedd yn aml yn targedu teuluoedd ag anghenion lefel is, a bod gwasanaethau megis y Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd wedi'u cyfyngu i gefnogi teuluoedd a oedd yn wynebu problemau camddefnyddio sylweddau. Felly, roedd yr awdurdod eisiau datblygu dull ataliol a oedd yn gweithio'n fwy eang gyda theuluoedd lle'r oedd y plant yn wynebu risg o ddod yn blant sy'n derbyn gofal. Datblygwyd y gwasanaeth mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant.

Mae'r math hwn o wasanaeth, sy'n darparu cymorth dwys i deuluoedd ag anghenion ehangach na'r rhai sy'n ymwneud â chamddefnyddio sylweddau (ac felly'n cael ei gwmpasu gan gylch gwaith gwasanaethau y Tim Integredig Cymorth i Deuluoedd), yn cael ei weithredu hefyd gan y gwasanaeth atal a chymorth PASS sydd ar waith yn Wrecsam. Mae'r gwasanaeth yn gweithredu y tu allan i oriau swyddfa craidd, gan gynnwys ar benwythnosau, ac ar y cyd â'r sector tai.

Mae model Tîm Integredig Cymorth i Deuluoedd ar waith yn Rhondda Cynon Taf hefyd. Mae'n rhan o'r Miskin Service. Rôl y Miskin Service yw cefnogi gweithwyr cymdeithasol sy'n gweithio gyda phlant a'u teuluoedd trwy ddarparu cymorth dwys uniongyrchol i deuluoedd neu gyda phobl ifanc trwy ymyriadau arbenigol dwys sy'n canolbwyntio ar y teulu, sy'n seiliedig ar dystiolaeth ac sydd â therfyn amser. Nodau'r gwasanaeth yw hyrwyddo sefydlogrwydd lleoliadau i blant ledled Rhondda Cynon Taf sy'n wynebu anawsterau yn eu bywydau.

Mae enghreifftiau eraill o ddulliau gwasanaethau ar ffiniau gofal sy'n seiliedig ar fodel cymorth dwys i deuluoedd yn cynnwys *Ar Ffiniau Gofal / Newidiadau Conwy*. Mae'r model Cymorth Dwys i Deuluoedd yn defnyddio dulliau sy'n canolbwyntio ar y dasg ond wedi'u hintegreiddio ag ymarfer sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn ac yn seiliedig ar ganlyniadau. Mae gwaith uniongyrchol gyda theuluoedd yn cael ei ategu gan y defnydd o ddulliau cyfweld ysgogiadol. Mae'r gwasanaeth *Newidiadau* yn darparu cymorth dwys dros amryw o wythnosau i helpu teuluoedd i ddod o hyd i ffyrdd o wneud y newidiadau gofynnol a/neu ddatblygu strategaethau i ymdopi â materion/ymddygiadau sy'n bygwth sefydlogrwydd y teulu. Defnyddir dull cydweithredol, seiliedig ar ganlyniadau i gael teuluoedd i gymryd rhan mewn dull partneriaeth i reoli anawsterau a gwneud newidiadau cynaliadwy. Yn yr un modd, mae Sir Fynwy wrthi'n ail-ddylunio ei darpariaeth cymorth i deuluoedd bresennol i gynnwys tîm cymorth i deuluoedd ar ffiniau gofal penodol. Mae dogfen *Multi-agency Early Support* yr awdurdod yn amlinellu sut mae datblygiad y gwasanaeth hwn yn cyd-fynd â chynllun ehangach i newid y gwasanaeth *Tîm o Amgylch y Teulu* a gwella ymyrraeth gynnar. Mae datblygiad y gwasanaeth hwn yn ei ddyddiau cynnar ac wedi'i lunio fel prosiect tymor hir i leihau nifer y plant sy'n cael mynediad at ofal ac i nodi sut y dylai'r trothwy cyn-statudol gael ei osod a'i reoli.

Mae prosiectau peilot eraill sy'n canolbwyntio ar y rhai ar ffiniau gofal yn cynnwys dull gweithiwr achos sy'n cael ei ddatblygu ym Merthyr Tudful. Nid yw'r dull hwn yn cynnwys sefydlu gwasanaeth/tîm ar ffiniau gofal; yn hytrach, mae'n gweithredu ar draws pob tîm. Nododd rhai awdurdodau lleol (er enghraifft, Ynys Môn a Rhondda Cynon Taf) eu bod

yn cyflwyno dulliau Teuluoedd Cydnerth. Yn achos Rhondda Cynon Taf, roedd y gwasanaeth yn cael ei gyflwyno yn ystod y cyfnod casglu data ar gyfer yr adolygiad hwn (Ionawr 2018).

O ran gwaith partneriaeth gyda'r sector iechyd, nododd bwrdd iechyd Abertawe Bro Morgannwg fod nyrs plant sy'n derbyn gofal yn mynychu cyfarfodydd wythnosol y panel adnoddau, sy'n cynnwys trafod plant ar ffiniau gofal. Nid yw'r achosion hyn yn rhan o gylch gwaith nyrsys plant sy'n derbyn gofal gan nad yw'r plant hyn yn derbyn gofal eto; byddant yn cysylltu â nyrs ysgol y plentyn ac yn helpu trwy atgyfeirio i wasanaethau iechyd perthnasol.

Mae'r Rhwydwaith Maethu yn gweithredu gwasanaeth cymorth gofal maeth ledled y DU. Yng Nghymru, mae'n gweithredu mewn dau awdurdod lleol, sef Abertawe a Phowys. Mae'r gwasanaeth yn darparu seibiant i deuluoedd sydd angen cymorth gyda'r nod o atal plant rhag mynd i ofal. Gall y gwasanaeth ddarparu gofal seibiant am rhwng naw a 12 mis.

Fel y nodir mewn rhan arall o'r adolygiad, mae'n ymddangos nad oes llawer o weithgarwch gwerthuso mewn perthynas â datblygu a gweithredu gwasanaethau ar ffiniau gofal. Un eithriad i hyn, o ran gwerthusiad allanol, yw'r gwasanaeth cymorth i deuluoedd sy'n gweithredu yng Nghasnewydd. Cafodd y gwasanaeth, a ddarperir mewn partneriaeth â Barnardo's, ei werthuso'n ffurfiol gan y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (IPC) yn 2015-16. Mae un awdurdod, Gwynedd, yn gwerthuso'n fewnol, ond gan ddefnyddio adnodd gwerthuso dilys, sef *Outcomes Star*. Mae'r adnodd hwn yn cael ei ddefnyddio gyda theuluoedd bob chwech i wyth wythnos ac i werthuso canlyniadau ar ddiwedd yr ymyrraeth i fesur llwyddiant. Mae'r gwasanaeth wedi derbyn adborth cadarnhaol gan deuluoedd. Nododd amryw o awdurdodau eraill fod ganddynt fecanweithiau ar gyfer monitro a gwerthuso eu gwasanaethau ar ffiniau gofal yn fewnol. Er enghraifft, ers sefydlu ei gwasanaeth ARC ym mis Ebrill 2017, mae Caerdydd yn monitro perfformiad yn chwarterol. Bydd gwerthusiad allanol yn cael ei gynnal pan fydd y gwasanaeth wedi bod ar waith ers blwyddyn. Nododd Ynys Môn hefyd ei bod yn monitro rhifau a chanlyniadau, er enghraifft, a oeddent yn cael eu gwyro o ofal yn ddiogel.

Mae tystiolaeth o effeithiolrwydd gwasanaethau ar ffiniau gofal o ran lleihau nifer y plant sy'n mynd i ofal yn anghyson. Yn adroddiad blynyddol y Cyfarwyddwr Gwasanaethau Cymdeithasol, mae Sir Gaerfyrddin yn nodi bod gwasanaethau ar ffiniau gofal yr awdurdod yn ffactor allweddol o ran lleihau nifer y plant sy'n derbyn gofal yn yr awdurdod. Nodwyd gostyngiad pellach mewn niferoedd yn adroddiad 2017 y Cyfarwyddwr; fodd bynnag, ni sonnir yn benodol am gyfraniad gwasanaethau ar ffiniau gofal. Yng Ngwynedd, er nad yw nifer y plant sy'n derbyn gofal wedi gostwng, credir bod y tîm ar ffiniau gofal yn cael effaith ar ble mae plant yn cael eu lleoli. Mae nifer y plant a leolir mewn lleoliadau maeth a phreswyl wedi aros yr un fath (yn ystod cyfnod o gynnydd yn nifer y plant sy'n derbyn gofal), tra bod nifer y plant a osodir o dan leoliad gyda rhieni wedi cynyddu. Mae plant a leolir yn eu cartref yn fwy aml yn cael eu hystyried fel canlyniad llwyddiannus i waith y tîm.



## 2.6 Strategaethau comisiynu a gwaith partneriaeth presennol

### Consortiwm Comisiynu Plant Cymru a lleoliadau annibynnol mewn gofal preswyl

Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn cynnwys y rhan fwyaf o awdurdodau lleol Cymru sy'n cydweithredu ar leoliadau comisiynu ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae Consortiwm Comisiynu Plant Cymru yn darparu gwasanaeth comisiynu i 15 o awdurdodau lleol yn y De a'r Canolbarth ac yn rheoli'r fframweithiau Cymru gyfan ar gyfer lleoliadau maethu a phreswyl annibynnol. Mewn tystiolaeth i Bwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus y Senedd disgrifiodd y Nationwide Association of Fostering Providers (NAFP) y berthynas rhwng darparwyr maethu annibynnol a Chonsortiwm Comisiynu Plant Cymru ei disgrifio fel '*obstructive and unhelpful*'. Gall hyn adlewyrchu pryder yn y sector ynghylch cost uchel gofal maeth preifat (gweler tudalen 62). Fodd bynnag, ers yr adolygiad o fframwaith y contract yn 2016, nodwyd bod trefniadau partneriaeth a chyfathrebu rhwng y consortiwm a darparwyr maethu annibynnol wedi gwella'n sylweddol[14].

O ran ymarfer arloesol, cyfeirir ar waith Consortiwm Comisiynu Plant Cymru gyda phobl ifanc yn *Seeing Is Believing: Co-production case studies from Wales*[15]. Mae'r prosiect hwn wedi cynnwys pobl ifanc yn derbyn hyfforddiant 'Comisiynydd Ifanc' achrededig fel rhan o ddull cydgynhyrchiol, gyda'r nod o alluogi pobl ifanc i ddylanwadu ar ba wasanaethau plant sy'n derbyn gofal a gomisiynir yng Nghymru a sut y gwneir hynny. Mae'r bobl ifanc yn cymryd rhan mewn gweithgareddau comisiynu rhanbarthol a chenedlaethol megis mapio asedau fel rhan o waith dadansoddi anghenion, datblygu canlyniadau ac arolygon, cyfrannu at sicrhau ansawdd a gwerthuso darparwyr i'w cynnwys ar Fframwaith Lleoli Cymru Gyfan (tudalen 85).

Mae'n ymddangos bod y lefelau ymgysylltu a'r defnydd o Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru i gomisiynu lleoliadau gyda darparwyr annibynnol yn amrywio'n fawr. Mae'n ymddangos nad yw rhai awdurdodau lleol yn ymgysylltu â'r consortiwm o gwbl; mae'n ymddangos bod rhai awdurdodau yn defnyddio'r consortiwm i gomisiynu lleoliadau ar gyfer plant ag anghenion cymhleth; ac mae'n ymddangos bod grŵp arall yn comisiynu eu holl leoliadau allanol trwy Gonsortiwm Comisiynu Plant Cymru.

Adeg ysgrifennu hwn, Sir Benfro yw'r unig awdurdod lleol nad yw wedi cofrestru ar gyfer y fframweithiau Cymru gyfan, ond mae wedi nodi'r angen am weithgarwch gwella mewn perthynas â threfniadau ariannu a chomisiynu ar y cyd gydag iechyd ac addysg ar gyfer plant a phobl ifanc ag anghenion cymhleth. I'r gwrthwyneb, mae gan Sir Fynwy dîm comisiynu integredig ar gyfer plant ac oedolion, gyda swyddog arweiniol ar gyfer gwasanaethau plant, sy'n rhan o'r adran gofal cymdeithasol ac iechyd.

O ran gwaith partneriaeth ac ymarfer arloesol rhwng awdurdodau lleol a darparwyr annibynnol, nododd Sir Fynwy enghraifft o ddatblygu lleoliad pwrpasol. Wedi'i deilwra i anghenion penodol unigolyn ifanc, trwy weithio mewn partneriaeth â darparwr lleoliad annibynnol a chymdeithas dai yr awdurdod, aeth yr awdurdod trwy'r broses gofrestru gan weithio'n agos gyda'r darparwr. Mae'r dull a ddefnyddiwyd yn yr achos wedi llywio ymarfer y dyfodol yn fwy eang mewn perthynas â'u dull cyffredinol o ddarparu llety â chymorth. Mae amryw o awdurdodau lleol wedi cysylltu â'r awdurdod i drafod dull a ddefnyddiwyd. Felly, roedd yr awdurdod o'r farn bod y dull hwn yn un arloesol.

### Hybiau Diogelu Amlasiantaethol a strategaethau eraill ar gyfer gwaith partneriaeth

Un o'r enghreifftiau cryfaf o waith partneriaeth a ddisgrifiodd cyfranogwyr i ni oedd y defnydd o Hybiau Diogelu Aml-asiantaeth (MASH) mewn perthynas â phryderon amddiffyn plant. Defnydd ac addasiad y model hwn oedd prif ffocws cyfweliadau heddlu; mae MASH wedi dod yn fwyfwy poblogaidd fel dull o fynd i'r afael â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant, ond mae'n mynd i'r afael â phryderon amddiffyn plant brys eraill. Mae modelau MASH wedi'u defnyddio ledled y DU, yn enwedig yn Lloegr, ar ôl i Adolygiad Munro o Amddiffyn Plant nodi bod gwaith amlasiantaethol yn elfen hanfodol o amddiffyn plant effeithiol[16]. Dan arweiniad yr heddlu, mewn partneriaeth â gwasanaethau cymdeithasol, mae gweithwyr iechyd ac addysg proffesiynol wedi cyfrannu i wahanol raddau at drefniadau MASH hefyd. Arweiniodd gwerthusiad lled gadarnhaol o safleoedd MASH lluosog[17] a gyhoeddwyd yn fuan ar ôl Adolygiad Munro at boblogeiddio dull MASH ac, erbyn hyn, mae yna ymwybyddiaeth sylweddol o'r dull yn y sector.

Yn y De, mae gwaith amlasiantaethol yn cael ei gyflawni yn bennaf trwy MASH mewn dau o'i



bedwar rhanbarth. Mae yna gynlluniau hefyd i agor MASH yn y ddau ranbarth arall cyn gynted â phosibl gan ei fod wedi arwain at gynnydd yng nghyflymder canlyniadau mewn ardaloedd sydd â MASH. Roedd gan ein cyfranogwr yn y De farn gadarnhaol ar ei MASH lleol, gan nodi ei fod yn hwyluso'r broses waith amlasiantaethol bob dydd, yn cyflymu'r broses o rannu gwybodaeth ac yn ei alluogi i ymdrin â sefyllfaoedd ar unwaith a chyfarwyddo staff yn effeithlon. Nododd Bwrdd Iechyd Cwm Taf fewnbwn sylweddol i'r MASH sydd ar waith yn Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful, gan ariannu amryw o swyddi iechyd yn y prosiect (dwy nyrs ddynodedig; nyrs arwain; a gweithiwr cymorth busnes). Fodd bynnag, yn ôl Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro, ychydig iawn o bresenoldeb oedd ganddo yn y MASH lleol, gyda'r rheolwr gweithrediadau yn mynychu cyfarfodydd ond dim sôn am unrhyw aelodau staff eraill.

Nododd ein cyfranogwr o Fwrdd Iechyd Aneurin Bevan fod y Bwrdd yn cyfrannu at MASH ond nid yn bersonol ac nad oedd ganddo unrhyw fanylion pellach am faint y cyfranogiad. Yn ardal Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr, sy'n cwmpasu Wrecsam a Sir y Fflint, mae'r MASH wedi cael ei ddisodli gan bwynt mynediad unigol (SPOA). Nododd ein cyfranogwr fod cynrychiolwyr iechyd yn cymryd rhan weithredol yn y prosiect hwn ac yn ceisio gwneud cymaint o waith amlasiantaethol â phosibl. Nododd fod y pwynt mynediad unigol yn creu cysylltiadau cryf â'r nyrs plant sy'n derbyn gofal a'r Cydgysylltydd Addysg lleol.

Er nad oes gan Ddyfed-Powys MASH, mae'n cyflawni gwaith amlasiantaethol trwy Uned Atgyfeirio Ganolog (CRU) sy'n gweithredu ochr yn ochr ag Uned Amddiffyn y Cyhoedd, ac roedd ein cyfranogwr yn ei ddisgrifio fel 'mini-MASH'. Mae'r uned atgyfeirio yn rheoli cyfathrebu amlasiantaethol trwy ddosbarthu achosion i asiantaethau priodol, ond mae'n ymddangos bod ganddi rôl fwy goddefol na MASH traddodiadol o ran datblygu a chau achosion atgyfeirio. Nododd Bwrdd Iechyd Powys ei fod yn bwriadu ailystyried y syniad o MASH llawn ar ôl argymhelliad arolygiad.

Yng Ngwent, wrth geisio dod o hyd i gyswllt i drafod gwella ac arloesi gydag ef, cawsom ein hatgyfeirio'n uniongyrchol i'r tîm *Torri'r Cylch* ac aethom ati i gynnal cyfweliad gydag aelod o staff yn y gwasanaeth. Amrywiad arall ar y model MASH, mae'r prosiect hwn (hen Hyb Unigolion Coll Gwent sydd ar waith ers 2011) yn rheoli ymateb amlasiantaethol dan arweiniad yr heddlu mewn perthynas ag achosion o blant coll yr ystyrir eu bod yn wynebu risg uchel o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant ac sydd angen cael eu hatgyfeirio i wasanaethau cymdeithasol yn aml. Mae'r gwasanaeth wedi'i werthuso'n gadarnhaol ac wedi sicrhau cyllid pellach i barhau ac ymestyn y gwasanaeth. Wrth werthuso, gwelwyd ei fod yn hynod lwyddiannus o ran lleihau nifer yr achosion o blant yn mynd ar goll.

Mae *Torri'r Cylch* yn defnyddio model amlasiantaethol a fabwysiadwyd gan gynghrair o wasanaethau sector cyhoeddus Gwent, gan gynnwys: pum awdurdod lleol Gwent (Blaenau Gwent; Caerffili; Sir Fynwy; Casnewydd; Torfaen); Heddlu Gwent; Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan; gwasanaeth ôl-drafodaeth y trydydd sector a ddarperir gan Llamau ac a ariennir gan y Gronfa Loteri Fawr.

Mae'r model yn copïo cynllun y model MASH a ddefnyddir yn fwy eang (gweler isod sut mae'r model hwn yn cael ei ddefnyddio yn y De ac yn Nyfed-Powys). Mae dau swyddog yr heddlu a

dadansoddwr yr heddlu, hyd at ddau weithiwr cymdeithasol, gweithiwr iechyd, gweithiwr addysg, dau weithiwr ôl-drafodaeth annibynnol a swyddog cyfryngu annibynnol yn gweithio mewn un swyddfa, ac mae'r prif adnodd adrodd, y *Ffurflen Asesu Risg Unigolyn Coll* (MIRAF), ar gael i bob sefydliad. Mae'r gwasanaeth yn cynnwys gwasanaeth ôl-drafodaeth hefyd, lle mae pob plentyn yr adroddwyd ei fod ar goll yn cael cyfle i siarad â rhywun annibynnol mewn cyfweliad dychwelyd i asesu risg a hwyluso atgyfeiriadau i wasanaethau cymorth eraill.
Roedd y rheolwr gwasanaeth yn teimlo bod y dull amlasiantaethol yn hynod lwyddiannus, a nododd ganlyniadau cadarnhaol mewn perthynas ag amrywiaeth o weithgareddau, gan gynnwys:

- Gostyngiad sylweddol yn nifer y cyfnodau coll a ailadroddir. O'r 746 o blant sydd wedi bod ar goll eleni, mae 615 wedi bod ar goll bum gwaith neu lai. Mae heddluoedd eraill wedi gweld cynnydd o hyd at 80 y cant, ond mae'r ffigurau yng Ngwent yn sefydlog neu'n gostwng

- Nodi plant sy'n wynebu risg o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant na fyddent wedi'u nodi o dan ddulliau eraill

- Gwell gwaith gyda'r sector addysg. Er enghraifft, cafodd plentyn a waharddwyd ei dderbyn yn ôl i'r ysgol ar ôl trafod a rhannu gwybodaeth trwy'r gwasanaeth.

Mae gwefan *Torri'r Cylch* yn cynnwys pob math o wybodaeth, ac mae'r gwerthusiad o Hyb Unigolion Coll Gwent ar gael i'r cyhoedd[18].

Mae gwaith pellach sy'n cael ei gyflawni yng Ngwent a hwylusir gan *Torri'r Cylch* yn cynnwys gweithiwr addysgol yn cyflwyno hyfforddiant ym mhob ysgol yng Ngwent. Maent yn cynnig hyfforddiant i bob rheolwr diogelu lefel uwch, tra bod athrawon yn cael briffiau a phlant yn cael gwasanaeth a gynlluniwyd yn benodol. Gwahoddir plant y nodir eu bod yn wynebu risg o gam-fanteisio'n rhywiol ar blant trwy'r gwaith hwn i weithdai, a gwahoddir eu rhieni i fore coffi lle cânt eu hyfforddi i adnabod ymddygiadau risg cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Maent yn cynnal fforwm preswyl unwaith y chwarter gyda holl reolwyr cartrefi preswyl ledled Gwent. Maent wedi hyfforddi gyrwyr tacsis a rheolwyr gwestai yn y rhanbarth i fod yn ymwybodol o arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant, ac wedi derbyn adborth cadarnhaol ar yr hyfforddiant hwn.

Er bod *Torri'r Cylch* yn sefyll allan fel gwasanaeth sydd wedi datblygu'n dda yng Ngwent, mae pob math o waith gwella mewn perthynas â cham-fanteisio'n rhywiol ar blant ar waith yn y De. Maent yn diweddaru eu protocolau cam-fanteisio'n rhywiol ar blant er mwyn sicrhau gwaith mwy effeithiol ac effeithlon, ac mae ganddynt dîm cam-fanteisio'n rhywiol ar blant arbenigol ar waith. Maent wedi gwella eu hyfforddiant cam-fanteisio'n rhywiol ar blant hefyd, gyda chyrsiau yn targedu staff gweithredol ar ddeddfwriaeth ac ymarferoldeb o ran sut y gallant adnabod arwyddion o gamfanteisio'n rhywiol ar blant. Maent wedi datblygu gwefan fewnol hefyd, gyda thudalen unigolion coll a thudalen cam-fanteisio'n rhywiol ar blant lle gall swyddogion a staff fewngofnodi i gael eu hatgoffa neu i adolygu deddfwriaeth ac arweiniad newydd. Mae ganddynt eiriolwyr cam-fanteisio'n rhywiol ar blant a gyflogir gan Barnardo's yn gweithio gyda'u tîm cam-fanteisio'n rhywiol ar blant sy'n darparu ymyrraeth gynnar gyda phlant. Maent yn cynnal cyfweliadau 'dychwelyd adref' ac yn eu hatgyfeirio i wasanaethau pellach os credant eu bod yn wynebu risg. Mae dull aml-asiantaeth Barnardo's ar gamfanteisio'n rhywiol ar blant yn cael ei ddatblygu ymhellach ar hyn o bryd fel astudiaeth beilot o dan y teitl Gwella; disgrifir hyn ymhellach ar dudalen 74.

Mae'r brwdfrydedd presennol tuag at y model risg Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod wedi arwain at gynnydd yn y gwaith aml-asiantaeth rhwng yr heddlu, iechyd a gwasanaethau cymdeithasol (a ddisgrifir isod). Yn olaf, mae'r De yn cyflwyno *Operation Encompass*, sy'n helpu ysgolion i adrodd achosion o drais domestig.
Mae 'oedolyn allweddol' yn yr ysgol, sydd wedi derbyn hyfforddiant amddiffyn plant lefel tri ac sy'n gweithredu fel yr arweinydd diogelu dynodedig, yn cael gwybod am ddigwyddiadau gan yr heddlu fel y gall gefnogi'r plentyn a monitro ei lesiant. Mae Hysbysiadau Diogelu'r Cyhoedd (a ddefnyddir i atgyfeirio i asiantaethau eraill) yn cael eu cyhoeddi ar gyfer digwyddiadau trais domestig ac mae plant yn y teulu yn cael eu hatgyfeirio i wasanaethau plant; yn flaenorol, byddai'r heddlu ond wedi nodi bod plentyn yno, ond heb gymryd unrhyw gamau pellach[19].

## Gwaith partneriaeth a Phrofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod

Nododd Heddlu Dyfed-Powys a Heddlu De Cymru eu bod wedi sefydlu Uned Profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod. Daeth profiadau o'r fath i'r amlwg fel fframwaith yn UDA ym 1998, gan ddadlau

y gallai'r potensial i blentyn ddioddef niwed sylweddol a thymor hir gael ei symleiddio i ystod fach o ffactorau risg cynnar, gyda chynnydd yn y risg yn dibynnu ar nifer y ffactorau risg sy'n bresennol yn eu profiadau cynnar[20]. Mae'r ffactorau risg hyn yn cynnwys y canlynol:

- **Camarfer plant:** Cam-drin geiriol; cam-drin corfforol; cam-drin rhywiol; esgeulustod emosiynol; ac esgeulustod corfforol

- **Profiadau'r aelwyd:** Rhieni yn gwahanu; salwch meddwl; trais domestig; camddefnyddio alcohol; camddefnyddio cyffuriau; a charcharu.

Mae astudiaethau yn UDA yn nodi cysylltiad agos rhwng nifer y profiadau niweidiol yn ystod plentyndod a salwch meddwl ymhlith oedolion[21], ac mae'r canlyniadau hyn wedi'u hailadrodd yng Nghymru[22]. O ganlyniad i'r astudiaethau hyn, mae'r gydnabyddiaeth o'r profiadau hyn fel mesur derbyniol o risg a niwed posibl wedi cynyddu yn gyflym ar draws y sector gofal cymdeithasol ac iechyd y cyhoedd yng Nghymru, gan arwain at ariannu unedau a gynlluniwyd yn arbennig.

Mewn perthynas â phlant mewn gofal, mae'r Uned yn hyfforddi staff mewn dulliau ymyrraeth gynnar i nodi gwendidau er mwyn atal pryderon rhag gwaethygu. Lle nodir risg, cwblheir ffurflen atgyfeirio amlasiantaethol i atgyfeirio i'r Uned os aseswyd y risg fel un lefel isel, ac i wasanaeth diogelu lleol os yw'r risg o niwed yn uchel. Mae Dyfed-Powys a'r De wedi sefydlu hybiau profiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod gyda chyllid ar gyfer tair blynedd i gychwyn i brofi eu heffeithiolrwydd a'u potensial atal. Mae gwerthusiad ar y gweill i arsylwi sut mae'r hybiau cymorth yn gweithio gyda'i gilydd.



## Dulliau partneriaeth ar gyfer gwasanaethau iechyd meddwl

Mae cefnogi iechyd meddwl a lles emosiynol plant a phobl ifanc mewn gofal yn faes lle mae gwaith partneriaeth yn ffynnu yn y sector; nid yw hyn yn syndod o ystyried cyfraniad angenrheidiol iechyd a gwasanaethau cymdeithasol a'r potensial monitro a chymorth dyddiol mae addysg yn ei ddarparu. Fodd bynnag, er gwaethaf yr ymdrechion a ddisgrifir yma, mae swyddfa Comisiynydd Plant Cymru yn nodi bod rhaid gwneud cynnydd pellach i sicrhau bod iechyd meddwl plant a phobl ifanc mewn gofal yn cael ei flaenoriaethu'n briodol ac nad yw'n cael ei ddisodli gan bryderon cyllidebol.

Ers 2006, mae Bwrdd Iechyd Betsi Cadwaladr wedi gweithredu gwasanaeth ymgynghorol yn CAMHS ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth yn darparu mynediad at seicolegydd clinigol ddau ddiwrnod y mis. Er bod y rhan fwyaf o atgyfeiriadau yn cael eu derbyn gan weithwyr cymdeithasol, gall unrhyw un â phlentyn sy'n derbyn gofal wneud atgyfeiriad. Cyflwynwyd y gwasanaeth gan nad oedd llawer o blant sy'n derbyn gofal yn bodloni meini prawf CAMHS ac nad oeddent eisiau dod i'r gwasanaeth i gael eu hasesu neu i gael therapi. Teimlwyd felly y byddai'n fwy buddiol i weithio gyda'r gofalwyr maeth, y gweithwyr cymdeithasol a'r athrawon sy'n gweithio gyda'r bobl ifanc. Ni chynhaliwyd gwerthusiad ffurfiol o'r gwasanaeth. Fodd bynnag, mae'r bwrdd iechyd wrthi'n cyflwyno cyfres o fesurau canlyniadau a gesglir yn rheolaidd. Y mesurau i'w defnyddio yw'r CGAS (Children's Global Assessment Scale) a'r GBOS (Goal Based Outcomes Scales). Yn yr un modd, mae Bwrdd Iechyd Prifysgol Caerdydd a'r Fro wedi cyflwyno gwasanaeth trawma datblygiadol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal. Mae'r gwasanaeth, a sefydlwyd ym mis Gorffennaf 2016, yn gweithredu ar sail ymgynghorol yn bennaf (80-90 y cant ar sail ymgynghorol). Mae gan y gwasanaeth gysylltiadau cryf ag awdurdodau lleol a gweithwyr gofal iechyd proffesiynol. Yr un fath â gyda gwasanaeth Betsi Cadwaladr, mae'r tîm yn darparu cymorth i'r rhwydwaith o amgylch plentyn yn hytrach na chyfarfod â phlentyn yn benodol. Fodd bynnag, cyflawnir rhywfaint o waith clinigol uniongyrchol hefyd gan ddefnyddio'r model Seicotherapi Datblygiadol Dyadig (DDP). Unwaith eto, nid yw'r gwasanaeth hwn wedi cael ei werthuso'n allanol hyd yma, ond mae mesurau canlyniadau wedi'u datblygu.

Nododd Caerdydd a'r Fro yr hyfforddiant a'r gwaith cymorth y maent wedi'i gyflawni gyda

gweithwyr proffesiynol sy'n gweithio gyda phlant a phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Roedd hyn yn cynnwys cyflwyniadau untro ar drawma ac ymlyniad i wasanaethau awtistiaeth, pediatregwyr a therapyddion lleferydd ac iaith. Datblygiad pellach yw rhaglen hyfforddi ar drawma a phlant sy'n derbyn gofal, a fydd yn cael ei threialu mewn dwy ysgol dros y misoedd nesaf. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu hyfforddiant pwrpasol i staff gwasanaethau cymdeithasol hefyd. Yn ogystal, nododd Bwrdd Iechyd Prifysgol Betsi Cadwaladr weithgarwch hyfforddi y mae wedi bod yn ei gyflawni mewn perthynas ag anghenion plant sy'n derbyn gofal. Mae'r bwrdd iechyd yn darparu cwrs hyfforddi ymlyniad modiwlaidd gyda gofalwyr maeth yn Sir y Fflint (18 o sesiynau i gyd) yn edrych ar ymlyniad, trawma a sut i fod yn rhiant i blentyn â'r anghenion cymorth hynny a chefnogi gofalwyr gyda thechnegau rheoli, gyda'r nod o leihau nifer yr achosion o leoliad yn torri i lawr. Yn ogystal, mae gan y Gwasanaeth Ymyrryd ac Atal yn Gynnar (EIPS) amryw o gyrsiau hyfforddi y mae'n eu cyflwyno'n flynyddol, gan gynnwys un ar drawma, sy'n arbennig o berthnasol i blant sy'n derbyn gofal. Mae staff awdurdodau lleol, staff ysgol a staff iechyd yn gallu cael mynediad at yr hyfforddiant. Dros y flwyddyn ddiwethaf, mae EIPS wedi cynnig hyfforddiant penodol i weithwyr cymdeithasol a thimau plant ar drawma, ymlyniad a datblygiad, anhwylderau ymlyniad, profedigaeth a cholled.

Mae yna sawl enghraifft o waith i wella prydlondeb asesiadau iechyd statudol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a chydgysylltu gwasanaethau mewn perthynas â'u hanghenion iechyd, ac mae pethau'n dechrau symud tuag at waith mwy integredig gyda staff addysg. Nododd byrddau iechyd Aneurin Bevan a Chwm Taf waith sy'n cael ei gyflawni i sicrhau bod gwasanaethau'n cael eu cydgysylltu'n well a bod asesiadau iechyd yn gyfredol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal, gan nad oeddent wedi bod yn gyfredol yn y gorffennol (yn Aneurin Bevan). Mae rhan o'r gwaith hwn wedi cynnwys trosglwyddo asesiadau iechyd ar gyfer plant ifanc iawn mewn gofal o nyrsys plant sy'n derbyn gofal i ymwelwyr iechyd. Er bod gan bob ardal nyrs plant sy'n derbyn gofal, i sicrhau bod asesiadau'n amserol, defnyddir nyrsys ysgol ac ymwelwyr iechyd banc i gynnal asesiadau. I gychwyn, roedd y gwaith hwn yn cael ei gyflawni ochr yn ochr neu â goruchwyliaeth gan y nyrs plant sy'n derbyn gofal. Yn yr un modd, mae gan Hywel Dda fodel gwasanaeth ychydig yn wahanol i rai o'r byrddau iechyd eraill. Er bod gan rai byrddau iechyd dîm plant sy'n derbyn gofal, yn Hywel Dda mae'r tîm plant sy'n derbyn gofal yn gweithio gyda phlant â'r anghenion mwyaf cymhleth, yn cynnal asesiadau y tu hwnt i'r ardal ac yn goruchwylio'r broses, ond mae ymwelwyr iechyd a nyrsys ysgol prif ffrwd yn gwneud gweddill y gwaith asesu iechyd gyda phobl ifanc sy'n derbyn gofal. Ethos y dull hwn yw ei fod yn llai stigmateiddiol gan fod gan bob plentyn nyrs ysgol sydd mewn ysgolion drwy'r amser.

## Arloesi ym myd iechyd wrth gefnogi anghenion plant mewn gofal

Mae Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg yn cynnal prosiect peilot i ddatblygu dogfennau safoni asesiadau iechyd ar gyfer asesiadau iechyd plant sy'n derbyn gofal. Er bod y fformat yn cael ei dreialu ar hyn o bryd (ym mis Mawrth 2018), disgwylir y bydd y fersiwn derfynol yn cael ei chytuno o fewn tri mis. Mae Bwrdd Iechyd Powys wedi datblygu pasbort iechyd ar gyfer pobl ifanc sy'n gadael gofal. Mae'r pasbort yn cynnwys manylion yr holl asesiadau iechyd a gynhaliwyd ar gyfer y person ifanc yn ystod ei amser mewn gofal. Mae gwerthusiad o'r datblygiad hwn ar y gweill, ond nid yw wedi'i gynnal hyd yma.

Cyfeiriodd Bwrdd Iechyd Powys at ddatblygiad mewn perthynas â phlant o awdurdodau lleol eraill yn cael eu gosod yn ardal y bwrdd iechyd. Mae plant sydd yng ngofal awdurdod lleol arall yn cael cardiau gan y bwrdd iechyd, sy'n gofyn yr un cwestiynau ag mewn asesiadau iechyd ond mewn ffordd efallai y byddent yn teimlo'n fwy cyfforddus yn eu hateb. Un o nodau'r cardiau post yw gweld a yw pobl ifanc yn hapus yn eu lleoliad ac yn teimlo'n ddiogel a'u bod yn cael eu gwerthfawrogi.

## Gwella prosesau ar gyfer cyfathrebu a rhannu gwybodaeth â phartneriaid

Mae Bwrdd Iechyd Hywel Dda wedi bod yn cynnal archwiliadau o asesiadau iechyd plant sy'n derbyn gofal. Mae hwn yn ddarn o waith parhaus sy'n galluogi nodi themâu neu faterion yn ymwneud ag anghenion iechyd plant mewn gofal. Mae canlyniadau'r archwiliad yn cael eu hadrodd yn ôl i awdurdodau lleol bob chwe mis. Mae canlyniadau'r archwiliad yn sail i gronfa ddata gynhwysfawr o iechyd plant sy'n derbyn gofal, gan gynnwys ystadegau cyffredinol, ac yn nodi pa atgyfeiriadau a wnaed; pa weithgareddau hybu iechyd a gynhaliwyd; faint o achosion sydd wedi'u hadolygu gan CAMHS arbenigol ac ati, er mwyn nodi tueddiadau a phatrymau angen. Mae

Bwrdd Iechyd Powys wedi bod yn cyflawni gwaith yn ymwneud â threfniadau llywodraethu ac yn enwedig yr hysbysiadau gan awdurdodau lleol o blant a leolir yn eu hardal a goblygiadau oedi o ran derbyn y rhain ar gyfer asesiadau iechyd a gynhelir yn amserol. Yn yr un modd, mae Bwrdd Iechyd Cwm Taf wedi cyflwyno gwelliannau i brosesau ar gyfer plant iau (o dan bump oed) a leolir mewn lleoliadau y tu allan i'r sir. Mae hyn wedi cynnwys cysylltu â'r ymwelydd iechyd blaenorol a'r ymwelydd iechyd ar gyfer yr ardal y maent wedi symud iddi a sicrhau eu bod yn ymwybodol o'r manylion cyswllt diweddaraf fel y gallant gydgysylltu. Maent yn hwyluso cysylltiad hefyd rhwng y gofalwr blaenorol a'r gofalwr newydd i sicrhau bod ganddynt yr holl wybodaeth ddiweddaraf, gan sicrhau nad oes unrhyw apwyntiadau heb eu cwblhau. Yn ogystal, nododd Bwrdd Iechyd Abertawe Bro Morgannwg weithgarwch yn ymwneud ag archwilio ansawdd asesiadau iechyd.

Darparwyd amryw o enghreifftiau o well gwaith partneriaeth yn yr ymatebion. Er enghraifft, nododd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ei fod yn cymryd rhan yn y panel rhianta corfforaethol ar gyfer y tri awdurdod lleol (Sir Gaerfyrddin, Sir Benfro a Cheredigion) a gwmpasir gan y bwrdd iechyd. Yn yr un modd, nododd Powys waith sy'n cael ei gyflawni i ailsefydlu a chryfhau'r Bartneriaeth Plant a Phobl Ifanc yn y sir. Mae'n gweithio mewn partneriaeth â'r awdurdod lleol hefyd i ddatblygu siarter plant, sy'n rhan annatod o'r strategaeth ddiogelu. Nododd Bwrdd Iechyd Hywel Dda ei gyfraniad at y panel parhad yn Sir Gaerfyrddin y mae pob plentyn sy'n derbyn gofal am fwy na phedwar mis yn cael ei atgyfeirio iddo, er mwyn trafod ei gynlluniau ar gyfer y dyfodol. Nododd rhai o'r ymatebwyr gyfarfodydd chwe misol y rhwydwaith nyrsys plant sy'n derbyn gofal, a gynhelir gan AFA Cymru.



## 2.7 Gwella ac arloesi yn CAFCASS Cymru

Cymerodd CAFCASS Cymru ran yn yr astudiaeth hon trwy gyfweliad lled-strwythuredig gydag aelod o staff uwch-reoli. Gofynnwyd pob math o gwestiynau mewn perthynas â gwella ac arloesi ar gyfer eu sefydliad. Rydym wedi cyflwyno hyn mewn adran ar wahân i adlewyrchu pryderon, pwysau a rôl genedlaethol unigryw CAFCASS.

Yn yr un modd ag awdurdodau lleol yng Nghymru, y brif flaenoriaeth i CAFCASS Cymru o ran gwella yw parhau i gyflawni ei rwymedigaethau statudol gyda chyllideb wastad ond gyda chynnydd sylweddol yn nifer y ceisiadau cyfraith gyhoeddus (25 y cant yn 2016/17 a saith y cant pellach yn 2017/18). Mae hyn yn galw am welliannau sylweddol o ran effeithlonrwydd a gwerth am arian eu gwasanaethau. Nodwyd llwyddiant yn y maes hwn gan eu bod yn dal i weithredu heb restr aros oherwydd arbedion effeithlonrwydd a gynhyrchir ar draws y gwasanaeth.

Cynhyrchwyd yr arbedion effeithlonrwydd hyn trwy gefnogi ac annog staff i fabwysiadu dull mwy hyblyg o weithio, gan gynnwys derbyn achosion o ardal gyfagos (a fyddai wedi'u gwrthod yn y gorffennol). Cyflawnwyd hyn trwy hyrwyddo'n fewnol ethos craidd y sefydliad sy'n canolbwyntio ar eu cyfrifoldebau moesegol tuag at blant a phobl ifanc agored i niwed. Nodwyd bod gweithwyr wedi derbyn y dull hwn. Mae dysgu a datblygu staff wedi bod yn rhan graidd o hyn, ond ceir ffocws hefyd ar wrando ar farn a phryderon staff sy'n gwneud iddynt deimlo eu bod yn cael eu gwerthfawrogi yn y sefydliad. O ganlyniad i hyn, maent yn darparu hyfforddiant gwydnwch a lles emosiynol i staff i'w cefnogi gydag agweddau heriol eu hymarfer, ynghyd â chodi ymwybyddiaeth a chyfeirio at wybodaeth a chymorth. Adroddir canlyniadau cadarnhaol o arolwg pobl 2017 ynghylch barn staff am CAFCASS Cymru, ac mae morâl wedi gwella'n sylweddol ers arolygon blaenorol.

Mae CAFCASS Cymru'n hyrwyddo hawliau plant a llais y plentyn ar draws ei waith ac wedi gweithredu ar awgrymiadau i wella'r amgylchedd swyddfa yn yr ardaloedd mae plant yn ymweld â nhw. Mae'n cynnwys paneli plant yn uniongyrchol mewn prosesau llywodraethu, gan gynnwys cyfweld ymgeiswyr am swyddi uwch-reoli. Arweiniodd pobl ifanc weithdai ar gydraddoldeb ac amrywiaeth yn eu cynhadledd staff ddiweddar hefyd.

Mae wedi buddsoddi hefyd mewn banc o weithwyr ar alwad i leihau seilos achosion lle bo angen, sy'n costio mwy i gychwyn ond sy'n gwneud arbedion cost mwy sylweddol yn ddiweddarach. Mae hyn yn gweithredu fel asiantaeth fewnol i leihau'r ddibyniaeth ar asiantaethau allanol a'u ffioedd uwch.

Mae wedi canolbwyntio hefyd ar wella ansawdd ei wasanaeth, er enghraifft, trwy gyflwyno system electronig ar gyfer cynllunio a chofnodi gwaith. Mae'r gwaith hwn wedi ennill ei blwyf gydag ymarferwyr, ac mae'n cyflwyno disgwyliadau clir ar gyfer eu gwaith. Mae hwn wedi bod yn brosiect enfawr, a chawsant broblemau ar y cychwyn o ran y ffaith bod y cynllun gwreiddiol yn rhy gymhleth, felly maent wedi ei wneud yn fwy syml a hawdd ei ddefnyddio. Cyfeiriwyd at rywfaint o wrthwynebiad gan staff i'r cyflwyniad hwn, ond maent wedi bod yn gadarn o ran yr angen i gofnodi a chynllunio yn y fformat hwn, gan ddweud bod cynnydd sylweddol wedi'i wneud o ran cyflawnrwydd ac ansawdd y wybodaeth a gynhyrchir.

Mae wedi datblygu ei fframwaith perfformiad fel ei fod yn fwy perthnasol ac yn canolbwyntio mwy ar ganlyniadau. Er enghraifft, mae wrthi'n datblygu ffurflen 'cau achos' sy'n annog ymarferwyr i fyfyrio ar achos a chofnodi a gafodd eu hargymhelliad ei ddefnyddio yn y gorchymyn terfynol i gyflawni gwell trosolwg o ganlyniadau. Mae hefyd yn cyflwyno dull adolygu ymarfer seiliedig ar gryfderau a fydd yn fwy systematig o ran darpariaeth trwy drefnu adolygiadau ar gyfer pob ymarferydd bob chwarter.

Mae'n canolbwyntio ar greu cysylltiadau cryfach â sefydliadau eraill megis Gofal Cymdeithasol Cymru, awdurdodau lleol a phrifysgolion; fodd bynnag, mae'n pwysleisio bod gwaith i'w wneud o hyd a bod y capasiti i wneud hyn yn cyflwyno her. Mae'n ymestyn ei raglen MA lleoli gweithwyr cymdeithasol dan hyfforddiant i gwmpasu Cymru gyfan (roedd ond ar gael yn y De ac yng Ngwent yn flaenorol) i wella ei gysylltiadau addysg uwch, ac wedi cynnig pynciau traethawd. Mae'n cydnabod bod mwy o waith i'w wneud gydag awdurdodau lleol ac yn teimlo y gallent gyfrannu mwy o ran cyfraith gyhoeddus a phreifat.

Mae menter newydd bellach yn treialu'r defnydd o staff cymorth gweinyddol i ryddhau amser ymarferwyr ar gyfer gwaith uniongyrchol. Mae hyn yn debyg i brosiect peilot sydd ar waith ym Merthyr Tudful (gweler tudalen 76). Mae'n cael ei ariannu gan Nuffield hefyd i drosglwyddo data i'r SAIL Databank[23] i gefnogi gwell cysylltiadau data ar draws y sector.

O ran barn ehangach am y sector, mae CAFCASS yn credu'n gryf bod angen i'r sector cyfan ddatblygu gwell cydweithredu a diwylliant o waith cydgysylltiedig, sef thema sy'n gyffredin i bob maes casglu data yn yr astudiaeth hon. Mae'n teimlo hefyd y gallai ef a sefydliadau eraill wneud yn well o ran ymateb i anghenion a llesiant staff o ystyried y pwysau aruthrol ar y sector. Yn olaf, mae'n eirioli datblygiad ar draws y sector o ran dulliau dan arweiniad data o wella gwasanaethau, yn enwedig gwell cysylltiadau data. Mae'n dadlau bod yna gyfle gwych i uno data iechyd, addysg a gwasanaethau cymdeithasol i olrhain canlyniadau tymor hir yn effeithiol ac i wneud gwelliannau mawr ar draws y sector.



## 2.8 Safbwyntiau ar wella'r sector gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru

Darparodd Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ddata ar ffurf cyflwyniad ysgrifenedig ar gyfer yr astudiaeth hon. Roedd hyn oherwydd cyfyngiadau amser a'r ffaith nad oedd amser cyfweld ar gael a oedd yn addas i bawb.

Fe ofynnon ni am restr gyflawn o flaenoriaethau presennol Swyddfa'r Comisiynydd Plant o ran gwella canlyniadau i blant a phobl ifanc mewn gofal ac ar ffiniau gofal, a pha brosiectau penodol y maent yn cyfrannu atynt ar hyn o bryd i gefnogi'r rhain. Darparwyd y blaenoriaethau a'r prosiectau canlynol:

- **Pobl sy'n gadael gofal, a gefnogir gan y prosiect *Breuddwydion Cudd***

  Mae Breuddwydion Cudd[24] yn adrodd ar gymorth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal, ac yn datblygu'r cymorth hwnnw. Mae'r prosiect yn galw am: gymorth ar gyfer pobl sy'n gadael gofal hyd at 25 oed; ffocws ar ddatblygu sgiliau annibyniaeth pobl ifanc; gwaith cydgysylltiedig ym maes gwasanaethau cymdeithasol, tai ac addysg; pecyn clir a chyson o gymorth ariannol; mynediad at hyfforddiant pwrpasol a chyfleoedd swyddi; a chymorth rhagweithiol gan ofalwyr a gweithwyr proffesiynol i'w helpu i baratoi ar gyfer hyfforddiant pellach.

- **Cyfraniad at waith Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant**

  Cyfraniad at y ffrydiau gwaith o Y Grŵp, gan gynnwys gofal preswyl, gofal diogel, canlyniadau addysgol, rhianta corfforaethol a'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

- **Grŵp Strategol Cenedlaethol Llywodraeth Cymru ar Blant sy'n Derbyn Gofal a'r Cynllun Gweithredu ar Gyrhaeddiad Addysgol**

  Mae Comisiynydd Plant Cymru yn arsylwi'r grŵp hwnnw.

- **Gwrando ac adrodd ar safbwyntiau a phrofiadau plant mewn gofal**

  Ymgysylltu blynyddol â phlant mewn gofal trwy ddigwyddiadau ymgynghori.

- **Llesiant plant mewn gofal a chefnogi peilot arolwg 'Dy Fywyd Di, Dy Ofal Di' Bright Spots gyda chwe awdurdod lleol yng Nghymru[25]**

  Y rheswm rhannol pam eu bod yn cymryd rhan yn Bright Spots yw pryder nad oes gan y Fframwaith Canlyniadau Cenedlaethol ffocws penodol ar fywydau a phrofiadau plant.

Fe ofynnon ni pa ddulliau arloesol penodol ar gefnogi gwell canlyniadau i blant mewn gofal neu ar ffiniau gofal y mae gan Swyddfa Comisiynydd Plant Cymru ddiddordeb ynddynt ar hyn o bryd. Rhestrwyd y meysydd canlynol:

- **Gwneud elw mewn gwasanaethau gofal plant**

  Mae sawl person wedi codi'r mater hwn yn uniongyrchol gyda'r Swyddfa. Maent yn adrodd ychydig iawn o newid yn y sefyllfa bresennol hyd yma; fodd bynnag, maent yn galw am dystiolaeth o hyn i lywio ymchwiliad y Pwyllgor Cyfrifon Cyhoeddus i blant sydd â phrofiad o fod mewn gofal[26].

- **Iechyd a lles meddyliol plant mewn gofal a phlant a phobl ifanc yn gyffredinol**

  Mae gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant ddiddordeb mewn hyrwyddo dulliau ysgol gyfan o ymdrin â llesiant a fyddai o fudd i blant mewn gofal a'r boblogaeth ysgol ehangach.

- **Sut y gall y strwythurau rhanbarthol newydd megis Byrddau Partneriaeth Rhanbarthol a Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus sicrhau gwasanaeth cwbl gydgysylltiedig i gefnogi iechyd a llesiant plant[27]**

  - Nododd y Swyddfa fod llawer o achosion wedi'u rhannu â nhw yn ymwneud â phlant a phobl ifanc sydd islaw'r trothwyon uchel ar gyfer llawer o ymyriadau, ond sy'n dal i fod ag anawsterau emosiynol/ymddygiadol/lles sydd angen cymorth sylweddol. Yn yr achosion hyn, roedd y gwaith o borthgadw mynediad at wasanaethau unigol yn atal plant a phobl ifanc rhag cael mynediad at y cymorth sydd ei angen i atal problemau rhag gwaethygu. Felly, roedd Swyddfa'r comisiynydd yn teimlo bod hwn yn faes lle mae angen gwneud gwelliannau sylweddol.

  - Mae'n ymddangos bod hon yn broblem fawr mewn perthynas ag asiantaethau yn 'pasio atgyfeiriadau plant' o gwmpas - o iechyd i addysg, ac yn ôl i iechyd, er enghraifft - gyda'u hanghenion yn cael eu hoedi tra bod asiantaethau'n pennu ble i gyfeirio atgyfeiriadau. Maent yn disgrifio hyn fel 'y plentyn yn gorfod ffitio i mewn i systemau, yn hytrach nag i'r gwrthwyneb'.

- Fe nodon nhw hefyd eu bod wedi clywed am wasanaethau yn defnyddio dehongliad mwy caeth o anghenion ac anghenion cymhleth i gyfyngu ar fynediad oherwydd argaeledd, a'u bod yn poeni am anghenion y plentyn yn cael eu diwallu o dan yr amgylchiadau hyn. Pwysleisiwyd bod y fframwaith deddfwriaethol ar waith er mwyn i hyn ddigwydd ond bod angen gwella arferion gwaith i gefnogi gwaith cydgysylltiedig yn well.

Yn olaf, ofynnon ni i Gomisiynydd Plant Cymru grynhoi ei dri phryder mwyaf ynghylch gwella canlyniadau a llesiant plant mewn gofal yng Nghymru ar hyn o bryd. Nododd y canlynol:

- Cymorth iechyd a lles meddyliol

- Cyrhaeddiad addysgol mewn ystyr eang a chyfleoedd ar gyfer addysg a hyfforddiant

- Gostyngiad mewn elw a'r gallu i ail-fuddsoddi arian mewn gwasanaethau cefnogol yn lle hynny.

Mewn sgwrs ffôn arall gyda'n cyfranogwr, eglurwyd mai barn Swyddfa'r comisiynydd yw mai'r ateb i fynd i'r afael â'r pryderon hyn yw gwell gwaith partneriaeth a chydgysylltiedig, o ystyried y materion yn yr enghraifft uchod lle'r oedd diffyg cyfathrebu effeithiol yn atal plentyn rhag cael mynediad at ymyrraeth ofynnol. Yn yr adran nesaf, rydym yn trafod ein canfyddiadau o ran tueddiadau a heriau presennol a nodwyd yn yr adroddiad data ac, yn yr adrannau hyn, rydym yn cyfeirio at y tri phryder a nodwyd gan y Swyddfa ac yn trafod barn cyfranogwyr am wella ac arloesi mewn gwaith partneriaeth. Un cyfyngiad yma yw nad ydym yn ystyried addysg yn benodol yn yr adroddiad hwn: mae hyn oherwydd astudiaeth sydd i ddod gan ICF Consulting sy'n cwmpasu'r un maes â'r prosiect hwn yn benodol mewn perthynas ag addysg plant mewn gofal a'r Grant Datblygu Disgyblion.



# 3. TUEDDIADAU PRESENNOL YM MAES GWELLA AC ARLOESI

## Gwelliant mewn hinsawdd ariannol heriol

Nod craidd y prosiect hwn oedd nodi sut mae sefydliadau gofal cymdeithasol plant yn gwella gwasanaethau er mwyn sicrhau gwell canlyniadau i blant a phobl ifanc. Un o agweddau angenrheidiol hyn yw gwella gwerth am arian y ddarpariaeth gofal gan fod cyllidebau gwasanaethau cymdeithasol o dan bwysau ariannol ar adeg pan fo nifer yr atgyfeiriadau i wasanaethau cymdeithasol plant yn cynyddu bob blwyddyn. I gyflawni'r rhwymedigaethau statudol ar gyfer y niferoedd cynyddol hyn o atgyfeiriadau, rhaid i awdurdodau lleol ddod o hyd i ffyrdd o wneud i'r cronfeydd sydd ar gael fynd ymhellach. Un thema eang o gyfweliadau ag awdurdodau lleol, boed hynny'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol, oedd yr ymdeimlad bod parhau i gyflawni rhwymedigaethau statudol yng nghyd-destun cyni yn gwella'r gwasanaeth ynddo'i hun. Mae'r pwynt hwn yn cynnig cyd-destun pwysig i'r adroddiad hwn, sef er gwaethaf y pwysau ar adrannau gwasanaethau plant, ein bod wedi casglu llawer o enghreifftiau o waith gwella a oedd yn canolbwyntio yn y lle cyntaf ar gynhyrchu gwell canlyniadau ar gyfer plant a phobl ifanc mewn gofal, yn hytrach na chanolbwyntio ar werth am arian yn unig.

Mae effaith y pwysau ariannol hwn i'w weld yn y data fel ffocws cryf ar wella gwasanaethau ymyrryd ac atal yn gynnar, wrth i awdurdodau lleol geisio lleihau nifer y plant sy'n cael mynediad at ofal. Mae hyn i'w weld hefyd yng ngwaith sefydliadau partner, yn enwedig mewn heddluoedd sy'n cyfrannu adnoddau at y maes ymyrryd ac atal gyda phlant sy'n wynebu risg o gael mynediad at ofal trwy'r gwaith presennol ar Brofiadau Niweidiol yn ystod Plentyndod a ddisgrifir ar dudalennau 36-37. Yn wir, mae'n ymddangos bod cydweithio ar ymyrryd ac atal yn gynnar yn ffynnu, gan fod sefydliadau'r trydydd sector yn canolbwyntio ar y maes hwn hefyd, ac fe wnaethon ni gofnodi sawl achos o gydweithio effeithiol. Un enghraifft gref yw'r prosiect Reflect i dorri'r cylch o blant yn cael eu cymryd oddi ar eu rhieni dro ar ôl tro, a gychwynnodd fel cydweithrediad rhwng Gwasanaethau Plant Casnewydd a Barnardo's. Ar ôl gwerthusiad cadarnhaol ar raddfa fach i gychwyn gan Brifysgol Caerdydd, mae'r gwasanaeth bellach yn cael ei gyflwyno'n genedlaethol ac mae ganddo'r potensial i gael effaith ddramatig ar y maes pryder hwn.

## Arloesi yn y sector

Er bod y prosiect hwn yn canolbwyntio'n bennaf ar welliannau ym maes gofal cymdeithasol plant, nododd Gofal Cymdeithasol Cymru fod arloesi yn faes o ddiddordeb penodol yn y cylch gwaith hwn a gododd sawl gwaith yng nghyfweliadau pob cyfranogwr i grynhoi achosion o arfer arloesol. Fodd bynnag, nid oedd cyfranogwyr yn awyddus i ddosbarthu'r rhan fwyaf o'r gweithgareddau a ddisgrifiwyd fel rhai arloesol; yn aml, roeddent yn ansicr ynghylch y defnydd o'r term ac yn tueddu i fod yn fwy pwyllog gan adrodd, ar ôl ychydig o feddwl, nad oeddent yn arloesol iawn wedi'r cyfan. Cwestiynodd rhai cyfranogwyr pam roedd arloesedd yn cael ei hyrwyddo gyda gofal cymdeithasol statudol, gan fynegi pryderon bod arloesi yn cyflwyno gormod o risg i fod yn dderbyniol ar adeg pan fo baich cyfrifoldeb y sector yn sylweddol yn barod.

Pwynt perthnasol pellach yma yw'r gwahaniaeth rhwng awdurdodau lleol a'r trydydd sector o ran gweithdrefnau cynllunio a gwerthuso prosiectau peilot: roedd y trydydd sector yn tueddu i adrodd cynlluniau peilot clir a oedd yn cynnwys rhyw fath o werthusiad, tra bod awdurdodau lleol yn aml yn ansicr ynghylch sut y byddent yn gwerthuso gweithgarwch arloesol, gan ymateb yn aml i'r cwestiynau hyn gyda 'cawn weld sut yr aiff hi'. Rydym yn trafod hyn ymhellach isod, ond mae'n bwysig nodi yma y gall diffyg chapasiti, adnoddau a hyfforddiant fod yn cyfrannu at ddiffyg hyder ynghylch arloesi yn y sector statudol. Heb hyfforddiant effeithiol ar gynllunio gwerthusiad a gallu ac adnoddau digonol i redeg gweithdrefnau gwerthuso a gynlluniwyd ochr yn ochr â mentrau newydd, ni all rheolwyr bennu union ganlyniadau arloesi, gan wneud gwaith o'r fath yn llai deniadol o lawer. Mae'n ymddangos bod hyn yn creu tuedd o arloesi yn digwydd pan

fo cydweithrediad trydydd sector ar gael, lle gellir ei ddatblygu gyda mynediad at fwy o gyllid sydd ei angen ar sefydliadau trydydd sector ei eisiau.

## Y cysylltiad rhwng modelau a dulliau ymarfer a'r agenda wella

Mae pob math o wahanol fodelau yn cael eu defnyddio ar hyn o bryd gyda theuluoedd sydd â phlant ar ffiniau gofal, plant sy'n derbyn gofal a'u gofalwyr. Mae'r ystod o ddulliau sy'n cael eu defnyddio yn tynnu ar lawer o wahanol ddamcaniaethau seicolegol a chymdeithasegol. Wedi dweud hynny, mae yna rywfaint o gonsensws ynghylch rhai egwyddorion allweddol ar gyfer ymarfer - y dylent ganolbwyntio ar y person; y dylent fod yn seiliedig ar gryfderau; ac y dylent fod wedi'u gwreiddio mewn perthnasoedd cryf rhwng teuluoedd a gweithwyr proffesiynol. Mae'r consensws hwn yn ategu nodau ac amcanion y ddeddfwriaeth bresennol, gyda Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014 yn hyrwyddo dull seiliedig ar hawliau sy'n cydnabod arbenigedd unigolion yn eu bywydau eu hunain.

O ran modelau ymarfer penodol, soniodd rhai awdurdodau am ddefnyddio 'dull pioden' (gweler tudalen 63) i ddewis rhwng amrywiaeth o wahanol fodelau gwasanaeth. Gellid ystyried hyn mewn ffordd gadarnhaol fel dulliau pwrpasol i deuluoedd, yn seiliedig ar y ffaith efallai na fydd yr hyn sy'n gweithio i un yn gweithio i bawb, gyda gweithwyr medrus yn tynnu ar eu harbenigedd a'u profiad ymarfer i bennu pa un yw'r model mwyaf effeithiol mewn unrhyw gyd-destun penodol. Fodd bynnag, mae dull o'r fath yn cyflwyno ambell risg. Yn gyntaf, o ystyried y ffaith ein bod yn gwybod nad yw pob dull mor effeithiol â'i gilydd[28]; gall dull pioden olygu cefnogi rhai dulliau sy'n llai tebygol o fod yn ddefnyddiol. Yn ail, gall cefnogi sawl dull gwahanol ar yr un pryd arwain at gyfaddawdu effeithiolrwydd, gan fod cymorth wedi'i ledu'n rhy denau, a gallai buddsoddiad mwy pwrpasol mewn llai o fodelau arwain at ymarfer arbenigol o safon uwch.

Yn olaf, o ystyried bod gwerthuso yn peri problemau i awdurdodau lleol yn barod, fel y nodir uchod, gall rhoi ystod eang o fodelau ar waith ar yr un pryd – yn enwedig os yw meysydd ymarfer yn gorgyffwrdd – gymhlethu ymhellach y gwaith o oruchwylio sut mae canlyniadau da yn cael eu cyflawni o fewn darpariaeth statudol.

## Cydweithrediad iechyd ac addysg ar iechyd meddwl

Mae rhywfaint o dystiolaeth o duedd cyfredol mewn ymarfer iechyd i geisio gwella hyfforddiant nyrsys ysgol a staff addysg eraill i allu asesu a chefnogi plant mewn angen yn well. Mae hyfforddiant trawma ac ymlyniad yn cael ei gynnig i nyrsys ysgol



a staff addysgu trwy'r Gwasanaeth Ymyrryd ac Atal yn Gynnar yn CAMHS Betsi Cadwaladr a Bwrdd Iechyd Caerdydd a'r Fro. Mae Betsi Cadwaladr hefyd yn cynnig clinigau 'galw heibio' i blant sy'n cael eu hatgyfeirio gan athrawon, gofalwyr maeth a gweithwyr cymdeithasol nad ydynt yn bodloni'r trothwy ar gyfer CAMHS ac sy'n amharod i gael eu hasesu'n ffurfiol. Nododd sawl bwrdd iechyd eu bod nhw wrthi'n hyfforddi nyrsys ysgol i gynnal asesiadau cychwynnol ar gyfer plant sy'n derbyn gofal; tuedd sy'n cyd-fynd â'r Fframwaith Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru a gyflwynwyd yn 2017[29]. Er na nodwyd y byddai nyrsys ysgol neu staff addysgu yn cael unrhyw gyfrifoldebau cymorth pellach ar hyn o bryd, gyda'r cyfrifoldeb hyfforddi ac asesu uwch hwn yn dod i'r amlwg, mae'n debygol y bydd y sector yn dangos mwy a mwy o ddibyniaeth ar gymorth gan y sector addysg i nodi anghenion iechyd a chefnogi iechyd meddwl plant mewn gofal yn y dyfodol agos. Os bydd hyn yn digwydd, bydd angen gwaith monitro agos i sicrhau bod staff ysgol, ac yn enwedig staff addysgu, yn derbyn hyfforddiant a chymorth digonol i gyflawni'r rôl hon. Mae'n bwysig hefyd ymgynghori â phlant a phobl ifanc mewn gofal ar eu barn a'u profiadau o dderbyn cymorth o'r fath, gan fod plant wedi mynegi pryder yn y gorffennol ynglŷn â diwallu eu hanghenion penodol yn ystod amser ysgol; sef amser a ddylai gael ei neilltuo ar gyfer dysgu a datblygu[30]. Nid ydym wedi edrych yn benodol ar rôl addysg yn y gwaith o wella'r sector o fewn y prosiect hwn gan y bydd astudiaeth a gomisiynwyd gan Lywodraeth Cymru, sy'n canolbwyntio ar roi'r Grant Datblygu Disgyblion ar waith a'i ddefnyddio ar gyfer plant mewn gofal, yn cael ei chyhoeddi'n fuan gan ICF Consulting. Bydd yr adroddiad hwn yn archwilio llawer o'r materion sy'n codi yn yr adolygiad hwn, yn benodol mewn perthynas â gwella darpariaeth a chanlyniadau addysgol ar gyfer plant mewn gofal.

## Diogelu aml-asiantaeth: datblygiadau cyfredol

Mae rhannu gwybodaeth a gwaith partneriaeth aml-asiantaeth mewn perthynas â phlant mewn gofal neu blant ar ffiniau gofal yn cael digwydd yn amlwg ledled Cymru, yn bennaf ar ffurf Canolfannau Diogelu Aml-asiantaeth (neu 'MASH'). Yn y canolfannau atgyfeirio hyn, mae cynrychiolwyr o'r heddlu, y gwasanaeth iechyd, gwasanaethau cymdeithasol ac weithiau y byd addysg yn dod ynghyd i gydweithio lle mae pryderon amddiffyn plant yn codi. Er bod y rhan fwyaf o'r heddluoedd yng Nghymru yn cymryd rhan mewn MASH (gyda Heddlu Dyfed-Powys yn cyfeirio at 'Mini-MASH' fel yr 'Uned Atgyfeirio Ganolog'), ychydig iawn o sylw a roddodd awdurdodau lleol i'w cyfranogiad, a nododd y rhan fwyaf o fyrddau iechyd nad oeddent yn cymryd rhan mewn MASH neu mai rôl fach yn unig oedd ganddynt. Mae hyn yn awgrymu er bod y model MASH yn dod yn fwy poblogaidd mewn perthynas â diogelu ei fod yn dal i fod yn adnodd i'r heddlu, felly efallai bod cyfle wedi'i golli i wneud gwaith partneriaeth yn rhan annatod o'r sector. Ar y pwynt hwn, efallai bod penderfyniad Wrecsam i gyflwyno pwynt mynediad unigol (SPOA - fel y disgrifir ar dudalen 28) yn lle'r MASH yn gam cadarnhaol gan ei fod wedi cynnwys mwy o gynrychiolwyr o'r sector gwirfoddol. Mae'r SOPA yn cael ei ystyried mewn ffordd gadarnhaol gan y bwrdd iechyd lleol a gall fod yn arwydd o gyfeiriad cadarnhaol i'r dyfodol ar gyfer gwaith aml-asiantaeth ar gyfer plant mewn gofal neu blant ar ffiniau gofal.

## Pryder ynghylch gofal preswyl a chostau

Mae'r diddordeb sydd gan rai awdurdodau lleol mewn modelau pwrpasol o ofal preswyl yn ddiddorol gan fod y defnydd o leoliadau sector preifat drud, sydd ymhell o gartref yn aml, wedi peri problemau ers cryn amser. Er mai dim ond tri awdurdod lleol a nododd eu bod yn cynnig darpariaeth fewnol[31], gydag un arall yn paratoi gofal seibiant preswyl tymor byr, cododd pryder ynghylch y gost uchel o ddarparu lleoliadau preswyl i blant ag anghenion cymhleth yn aml mewn cyfweliadau ag awdurdodau lleol. Mae hyn yn ymwneud â phwynt a gododd ym mis Ionawr 2018 yng Ngrŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant[32], lle trafodwyd y posibilrwydd o symud i fodel dielw gorfodol mewn perthynas â darpariaeth gofal preswyl neu ddarparu mwy o ddarpariaeth fewnol mewn awdurdodau lleol. Gallwn ragweld trafodaeth gyhoeddus bellach ar y mater hwn gan y bydd tri adroddiad pellach ar ddarpariaeth gofal preswyl yn cael eu cyhoeddi yn y dyfodol agos ar y pynciau canlynol:

- Proffilio'r Farchnad Breswyl yng Nghymru (Uned Ddata Llywodraeth Leol)
- Gwerthuso'r Modelau Gofal Newydd a Datblygol (Cordis Bright)
- Ymestyn 'Pan rwy'n Barod' i Ofal Preswyl (Cognition Associates).

# 4. HERIAU CYFREDOL AR GYFER GWELLA AC ARLOESI

## Cefnogi gwerthuso effeithiol mewn awdurdodau lleol

Fel y nodir uchod, ychydig o waith gwerthuso sy'n cael ei wneud mewn perthynas â gwasanaethau ar gyfer plant sy'n derbyn gofal a'r rhai ar ffiniau gofal. Mae hyn oherwydd mai ychydig iawn o gyllid sydd ar gael i asiantaethau ymarfer gomisiynu gwerthusiad allanol ac ychydig iawn o gapasiti sydd gan sefydliadau i gynnal gwerthusiadau mewnol a manteisio'n llawn ar ddata a gesglir yn rheolaidd. Nid ydynt yn manteisio'n llawn ar botensial data rheolaidd. Er enghraifft, gellid gwneud datblygiadau mawr o ran olrhain canlyniadau i unigolion trwy gysylltu data gofal cymdeithasol lefel unigolyn â setiau data tebyg o gyfiawnder troseddol, addysg a gofal iechyd. Os oes angen, gellir cysylltu data o'r fath yn ddienw. Mae CAFCASS Cymru yn dilyn y llwybr hwn trwy fanc data SAIL. Un her arall yw'r cyfyngiadau i setiau data rheolaidd presennol, yn enwedig mewn perthynas â chanlyniadau ar gyfer plant unigol a'u rhieni.

Un cysylltiad pwysig i'w wneud yma yw y gallai diffyg gwerthusiad effeithiol ar draws y sector statudol fod yn cyfrannu at ddiffyg hyder i dreialu gwaith arloesol. Efallai bod rheolwyr yn ymwybodol pan maent yn cynnal prosiectau peilot heb werthusiad cadarn nad ydynt yn cael llawer o dystiolaeth o union natur a chwmpas gwelliannau, a sut y maent yn perthyn i feysydd ymarfer eraill. Mae hyn yn effeithio hefyd ar y gallu i gael cyllid ar gyfer arloesi, gan fod ffynonellau cyllid o'r fath fel arfer yn gofyn am gynnwys gwerthusiad mewn ceisiadau.

## Diffyg consensws ar fodelau ymarfer

Efallai bod diffyg consensws ynglŷn â'r dulliau priodol i'w defnyddio. Dylid nodi mai ychydig iawn o dystiolaeth gref sydd o effeithiolrwydd unrhyw un o'r dulliau hyn. Yr unig ymyriadau a nodir sydd â thystiolaeth gref iawn yw rhai rhaglenni rhianta sydd wedi bod yn destun treialon a reolir ar hap mewn sawl gwlad wahanol, megis Blynyddoedd Rhyfeddol[33]. Fodd bynnag, nid yw'r rhaglenni hyn hyd yn oed yn gweithio i bawb, a mynegwyd pryderon ynghylch eu gallu i gyrraedd teuluoedd agored i niwed[34]. Mae yna brinder gwaith ymchwil cadarn ar ymarfer gwaith cymdeithasol rheolaidd, yn hytrach na rhaglenni penodol[35]. Yn ogystal, ymysg y dystiolaeth sy'n bodoli ynghylch ymyriadau a dulliau, mae'n glir nad yw pob un mor effeithiol â'i gilydd[36]. Mae hwn yn faes anodd oherwydd, mewn gofal cymdeithasol, mae rhai ymarferwyr a rheolwyr wedi ymrwymo i ddulliau penodol, ac mae'r ymrwymiad hwn yn gallu trechu pryderon ynghylch tystiolaeth.

## Diwylliannau ymarfer ac ymyrraeth lleol

Mae llawer o wahanol ddulliau'n cael eu defnyddio i asesu risg a gweithio gyda theuluoedd mewn cyd-destun amddiffyn plant, lle gallai plant gael eu rhoi mewn gofal. Yr hyn nad yw'n hysbys yw faint o gonsensws sydd ynghylch trothwyon ymyrryd. A oes gan awdurdodau â gwahanol gyfraddau ymyrraeth, er eu proffiliau economaidd-gymdeithasol tebyg, syniadau gwahanol iawn ynghylch pa lefel o broblemau teuluol sy'n cynnwys niwed digon sylweddol i gyfiawnhau plant yn mynd i ofal?

Mae'n bwysig cwestiynu i ba raddau mae modelau'n dylanwadu ar ymarfer gwaith cymdeithasol bob dydd. Er bod rhywfaint o gonsensws, fel y nodir uchod, ynghylch yr egwyddorion sy'n sail i ymarfer, yr hyn sy'n llai pendant yw i ba raddau mae'r egwyddorion hyn yn gweithio mewn ymarfer, yn enwedig mewn gwaith amddiffyn plant statudol lle mae tystiolaeth o rannau eraill o'r DU yn awgrymu bod cyfarfodydd rhwng gweithwyr a theuluoedd yn gallu cynnwys rhywfaint o wrthdaro, sy'n annhebygol o fod yn effeithiol o ran ysgogi newid[37].


*Sut mae ymarfer gwaith cymdeithasol lleol yn effeithio ar gyfraddau plant sy'n mynd i ofal?*

Mae Ffigur 1 yn dangos y berthynas rhwng y gyfradd gyfartalog o blant sy'n derbyn gofal ym mhob awdurdod lleol dros gyfnod o chwe blynedd a chanran y cymdogaethau mwyaf difreintiedig yng Nghymru ym mhob awdurdod lleol. Mae'r ffigur yn dangos bod yna berthynas eang rhwng y ddau, gyda'r cyfraddau cyffredinol o blant sy'n derbyn gofal yn codi wrth i ganran y cymdogaethau mwyaf difreintiedig gynyddu. Mae'n ymddangos bod y cynnydd yng nghanran y cymdogaethau difreintiedig yn esbonio ychydig dros draean (37 y cant) o'r amrywiad mewn cyfraddau. Fodd bynnag, fel y dangosir, mae yna wahaniaethau o hyd rhwng awdurdodau lleol â lefelau tebyg o amddifadedd. Er enghraifft, mae gan Gastell-nedd Port Talbot a Chaerffili bron yn union yr un ganran o'r cymdogaethau mwyaf difreintiedig, ond roedd y cyfraddau plant sy'n derbyn gofal yng Nghaerffili ar gyfer y cyfnod dan sylw bron hanner cymaint â'r cyfraddau yng Nghastell-nedd Port Talbot. Byddai hyn yn awgrymu er bod lefelau amddifadedd yn ffactor sylweddol wrth esbonio'r gwahaniaethau mewn cyfraddau rhwng awdurdodau lleol, mae pob math o ffactorau eraill yn cael effaith hefyd. Gall y gwahaniaethau hyn gael eu hesbonio gan ffactorau megis diwylliant sefydliadol ac argaeledd gwasanaethau ymyrryd ac atal yn gynnar[38].

## Meithrin chapasiti gyda gofalwyr

Mae llawer o awdurdodau lleol yn ei chael hi'n anodd recriwtio digon o ofalwyr maeth lleol ar hyn o bryd. Er bod ymdeimlad o optimistiaeth o ran uwchsgilio'r gweithlu presennol yn glir mewn awdurdodau lleol, mewn perthynas â pheilot *Hyder mewn Gofal* a datblygiad y Fframwaith Maethu Cenedlaethol, mynegodd sawl cyfranogwr bryderon ynghylch ansawdd a llwyddiant eu strategaethau recriwtio. Thema glir yma oedd ymdeimlad o gystadleuaeth gyda darparwyr maethu annibynnol, ond dim ond o ran cymhellion a marchnata; nodwyd effeithlonrwydd a phrofiad o'r broses recriwtio fel maes yr oedd angen gweithio arno hefyd.

Mae'n ymddangos ar hyn o bryd bod gan awdurdodau lleol Caerdydd a Sir Benfro syniad clir o sut i fynd i'r afael â'r mater hwn, gan gymryd ysbrydoliaeth gan ddarparwyr maethu annibynnol o ran marchnata ar-lein, gweithio mewn partneriaeth â busnes i ddarparu cymhellion ar gyfer gofalwyr maeth ac adolygu gweithdrefnau mewnol ar gyfer ymdrin â cheisiadau i gynyddu cyflymder ac effeithiolrwydd recriwtio. Mae'r gefnogaeth gan y Rhwydwaith Maethu ar y mater hwn yn gadarnhaol hefyd.



## Morâl y gweithlu a chyfraddau cadw

Mewn cyfweliadau, soniodd sawl awdurdod lleol am yr her o gynnal neu wella morâl staff, a gwnaeth llawer o awdurdodau lleol eraill sylwadau ar drosiant staff o swyddi ymarferydd rheng flaen i swyddi rheoli. Dywedodd un Pennaeth Gwasanaeth: "fe allech chi fod â'r model ymarfer gorau yn y byd ond, oni bai bod y gweithlu y tu ôl iddo, ni fydd yn gweithio." Roedd hi'n glir bod cael cefnogaeth y gweithlu ar gyfer mentrau gwella ac arloesi yn ffactor pwysig i gyfranogwyr yn y sector statudol.

Mae morâl y gweithlu yn fater hollbwysig sy'n cael effaith fawr ar gyfraddau cadw. Nid yw hi'n hawdd lleddfu'r pwysau. Er enghraifft, mewn hinsawdd o gyni, gyda thoriadau i fudd-daliadau, mae pwysau ar y bobl dlotaf, sydd â'r angen mwyaf am wasanaethau gofal cymdeithasol, yn ddifrifol ac mae'r problemau o ganlyniad yn gallu effeithio ar forâl y gweithlu gofal cymdeithasol. Fodd bynnag, mae prosesau sefydliadol cyfranogol, llwythi achos a reolir, cymorth gweinyddol da, goruchwylio da a chyfleoedd datblygiad proffesiynol da (gydag amser amdanynt) yn rhai elfennau sy'n gallu gwneud sefydliadau gofal cymdeithasol yn llefydd hapusach i weithio ynddynt, gyda staff yn fwy bodlon ac yn cael eu cefnogi'n well.

Un pwynt arall i'w ystyried yma yw'r effaith y gall mwy o arloesi ei chael ar lesiant a brwdfrydedd staff. Mae rhywfaint o dystiolaeth ymchwil sy'n cefnogi'r syniad y gall syniadau a modelau ymarfer newydd gyfrannu at gynyddu'r ymdeimlad o lesiant a brwdfrydedd ymhlith ymarferwyr gwaith cymdeithasol[39]. Cwestiwn arall sy'n codi yma yw, pan fo modelau neu ddulliau newydd yn cael eu rhoi ar waith ar raddfa fawr, megis Arwyddion Diogelwch neu Hyder mewn Gofal, a yw canlyniadau cadarnhaol yn cael eu cyflawni oherwydd cynllun y model neu'r dull, neu a ydynt yn cael eu cyflawni yn bennaf oherwydd effaith ysgogiadol ar weithlu'r sefydliad? Er nad oes ateb clir i'r cwestiwn hwn, mae'r dystiolaeth a nodir uchod yn awgrymu y gall arloesi yn y sector fod â goblygiadau ehangach ar gyfer gwella sy'n mynd y tu hwnt i drafodaethau ynghylch 'pa fodel sydd orau?' Mae'n bosibl y bydd 'unrhyw' ddulliau neu fodelau seiliedig ar dystiolaeth newydd, os cânt eu rhoi ar waith gyda digon o frwdfrydedd, yn cael effaith gadarnhaol ar ganlyniadau, yn rhannol oherwydd y gefnogaeth a'r brwdfrydedd cynyddol y gallant ei greu ymhlith y gweithlu.

## Gwaith partneriaeth a gwaith cydgysylltiedig

Un maes diddordeb allweddol ar gyfer yr astudiaeth hon a osodwyd gan Gofal Cymdeithasol Cymru oedd gwella ac arloesi mewn perthynas â gwaith partneriaeth. Mae'r diddordeb hwn yn dod yn fwyfwy pwysig o ystyried barn gref Swyddfa'r Comisiynydd Plant bod gwelliant o ran canlyniadau plant a gwaith effeithiol y sector yn dibynnu ar ddull gwell o waith partneriaeth a gwaith rhanbarthol. O ystyried hyn, rydym yn canolbwyntio yma ar dri maes sy'n berthnasol i bryder Swyddfa'r Comisiynydd ynghylch gwaith partneriaeth ond, fel y nodir uchod, mae addysg yn faes allweddol arall sy'n absennol yma ac a fydd yn cael ei drafod yn adroddiad ICF sydd i ddod.

**Gofal preswyl:** Mae hwn yn faes darparu gwasanaethau sydd wedi'i gontractio allan yn bennaf i'r sector preifat/trydydd sector gan awdurdodau lleol, gydag ychydig iawn yn cadw darpariaeth breswyl fewnol. Mae'n ymddangos, fodd bynnag, mai ychydig iawn o enghreifftiau sydd o waith partneriaeth rhwng awdurdodau lleol a darparwyr preswyl.

**Iechyd Meddwl a Lles:** Mae'r adolygiad hwn wedi nodi amryw o ddatblygiadau mewn trefniadau partneriaeth yn ymwneud ag iechyd a llesiant plant sy'n derbyn gofal. Mae enghreifftiau'n cynnwys cyfraniad iechyd at wasanaethau megis y Prosiect Adleoli ac Atal Wrecsam a chydleoli nyrsys plant sy'n derbyn gofal mewn timau gwaith cymdeithasol yn ardal Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan.

**MASH/SPOA a'r Heddlu:** mae'n ddiddorol bod yr enghraifft gryfaf o welliant mewn gwaith aml-asiantaeth a gynigiwyd i ni mewn perthynas â throsedd a phlismona, yn rhannol oherwydd bod llawer iawn o'r gwaith hwn yn deillio o bryder cenedlaethol cymharol ddiweddar am gam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Er bod y dystiolaeth i gefnogi defnydd pellach o MASH yn amrywio, adroddwyd rhai llwyddiannau, sy'n awgrymu, mewn rhai achosion o leiaf, bod y fformat yn ddull gwaith partneriaeth effeithiol. Mae'n ymddangos mai'r her sy'n weddill yw pennu sut y gellid ymestyn y model MASH i gwmpasu pryderon sy'n cyflwyno llai o risg (neu bryderon llai uchel eu proffil) megis y rhai a godwyd gan Swyddfa'r Comisiynydd Plant mewn perthynas ag iechyd meddwl plant mewn gofal. Mae SPOA Wrecsam, a ddisgrifir ar dudalen 76, yn rhoi cynnig ar hyn a dylid ei fonitro'n ofalus i werthuso

a yw hwn yn fodel a allai fynd i'r afael â phryderon Swyddfa'r Comisiynydd pe bai'n cael ei ehangu'n genedlaethol.

Yn yr adran ganlynol, rydym yn dod â chorff yr adroddiad hwn i ben gyda 10 argymhelliad sydd wedi codi o'r prosiect hwn. Mae'r argymhellion hyn yn ystyried y blaenoriaethau a'r pryderon a gododd Swyddfa'r Comisiynydd Plant, ond hefyd rhai bylchau clir a nodir yn yr adroddiad hwn a ystyriwyd mewn perthynas â thrafodaethau diweddar Grŵp Cynghori'r Gweinidog ar Wella Canlyniadau i Blant a phryderon a thrafodaethau academaidd presennol.



# 5. ARGYMHELLION AR GYFER GWAITH PELLACH

Gallai Gofal Cymdeithasol Cymru ystyried y posibiliadau canlynol ar gyfer blaenoriaethau gwella posibl yn seiliedig ar y dystiolaeth yn yr astudiaeth hon:

1. Gallai sgwrs genedlaethol gychwyn ar beth yw dull effeithiol mewn gofal cymdeithasol, o ystyried pa mor wan yw'r dystiolaeth ar gyfer rhai dulliau sy'n cael eu defnyddio ar hyn o bryd.

2. Gallai awdurdodau lleol gael eu hannog i gymharu'r trothwyon risg a ddefnyddir gan eu hymarferwyr ym maes amddiffyn plant â'r rhai a ddefnyddir mewn awdurdodau cyfagos, efallai gyda phartneriaethau rhanbarthol.

3. Mae angen hyrwyddo gwaith gwella yn y sector gofal preswyl gan nad yw hi'n glir ar hyn o bryd pwy sy'n gyfrifol am hyn.

4. Gallai awdurdodau lleol gael eu cefnogi i archwilio eu hopsiynau gofal preswyl pwrpasol eu hunain.

5. Gallai awdurdodau lleol gael eu cefnogi i wella eu sgiliau gwerthuso eu hunain, gan ddefnyddio eu data rheolaidd presennol eu hunain a thrwy gasglu rhywfaint o ddata gwahanol gyda mwy o ffocws ar ganlyniadau i unigolion.

6. Dylai cysylltiadau data gael eu hannog a'u cefnogi yn y sector cyhoeddus i alluogi gwerthusiad mwy cadarn o wasanaethau ledled Cymru.

7. Gallai darn o waith penodol i Gymru i nodi'r ffactorau allweddol sy'n dylanwadu ar forâl staff gael ei gyflawni gyda'r nod o liniaru'r rhain.

8. Mae dulliau recriwtio a marchnata gofal maeth awdurdodau lleol angen sylw gofalus i leihau lleoliadau y tu allan i'r sir, ac argymhellir y dylid monitro mentrau Caerdydd a Sir Benfro yn fanwl. Dylid mynd i'r afael â'r argymhellion hyn, yn rhannol, trwy gyflwyno'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol.

9. Gellid archwilio sut y gellir cyflwyno addasiad o fodel MASH (megis SPOA Wrecsam) i wella gwaith aml-asiantaeth yn y sector.



# ATODIAD UN: MAPIO YMCHWIL CYFREDOL A DIWEDDAR AR BLANT SY'N DERBYN GOFAL YNG NGHYMRU

Dangosodd yr ymarfer mapio i nodi ymchwil gofal cymdeithasol a wneir yng Nghymru, gan Ysgol Ymchwil Gofal Cymdeithasol Cymru, 25 prosiect a oedd yn ymwneud yn fras â phlant sy'n derbyn gofal. Roedd yr holl waith ymchwil a nodwyd fwy neu lai yn cael ei gynnal mewn prifysgolion, gydag ychydig o eithriadau. Roedd dros hanner y gwaith ymchwil yn cael ei wneud gan fyfyrwyr a oedd yn astudio am PhD neu MA mewn gwaith cymdeithasol. Roedd y prosiectau ymchwil yn amrywio o'r rhai a oedd yn canolbwyntio ar gyrhaeddiad addysgol plant sy'n derbyn gofal i'r rhai sy'n edrych ar y broses fabwysiadu. Mae'n ymddangos bod rhai ohonynt yn berthnasol i'r agenda wella ac arloesi. Er enghraifft, gwerthuso *Hyder mewn Gofal; Fostering Healthy Futures/Feasibility study of Fostering Changes*; a gwerthusiad o hyfforddiant gofalwyr maeth yng Nghymru. Mae crynodeb o deitlau'r prosiectau ymchwil wedi'u darparu isod yn ffigur 2.

Mae enghreifftiau o gyhoeddiadau sydd ar gael i'r cyhoedd o'r prosiectau hyn yn cynnwys:


- Moody, G. et al. (2018) Evaluating the long-term impact of the Fostering Changes training programme for foster carers in Wales, the Confidence in Care trial: study protocol for a randomised controlled trial. Trials 19, article number: 34. Ar gael [ar-lein] yn: trialsjournal.biomedcentral.com/articles/10.1186/s13063-017-2424-3

- Elliott, M. and Scourfield, J. (2017) *Identifying and Understanding Inequalities in Child Welfare Intervention Rates: Comparative studies in four UK countries. Single country quantitative report: Wales.* Child Welfare Inequalities Project. Ar gael [ar-lein] yn: www.coventry.ac.uk/research/research-directories/current-projects/2014/child-welfare-inequality-uk/cwip-project-outputs/

- Mannay, D. et al. (2017) The consequences of being labelled 'looked-after': Exploring the educational experiences of looked-after children and young people in Wales. *British Educational Research Journal. Cyfrol. 43, Rhif 4. tud.. 683–699*.

- Elliott, M. (2018) *Looked-after children in Wales: An analysis of the backgrounds of children entering public care.* Traethawd Doethuriaeth. Ar gael [ar-lein] yn: www.cardiff.ac.uk/people/view/548559-elliott-martin

- Elliott, M., Staples, E. and Scourfield, J. B. (2017) The characteristics of children and young people in residential care in Wales. *Child Care in Practice.*

| Teitl prosiect ymchwil | Sefydliad |
|---|---|
| Adoption Support Plans: Exploring the processes | Prifysgol Caerdydd |
| An analysis of the backgrounds of children entering public care (looked-after children) in Wales | Prifysgol Caerdydd |
| An exploration of supervised contact between looked-after children with additional needs and their birth parents | Prifysgol Bangor |
| An investigative study: Exploring the co-ordination of multi-agency resettlement strategies for young people leaving secure accommodation | Prifysgol Caerdydd |
| Analysis of the residential child care workforce | Prifysgol Caerdydd |
| Children in residential care in Wales | Prifysgol Caerdydd |
| Confidence in Care (CiC) evaluation | Prifysgol Caerdydd |
| Emotion recognition and perceived social support in young people who offend | Prifysgol Caerdydd |
| Evaluating training for foster carers in Wales | Prifysgol Bangor |
| Exploring the impact of crime on young homeless people | Prifysgol Caerdydd |
| Fostering Healthy Futures/Feasibility study of Fostering Changes | Prifysgol Caerdydd |
| Getting more involved in social care project | Plant yng Nghymru |
| Identifying and understanding inequalities in child welfare intervention rates: Comparative studies in four UK countries | Prifysgol Caerdydd |
| Improving the education experiences and attainment of looked-after children and young people | Prifysgol Caerdydd |
| Looked-after children and birth family contact | Prifysgol Abertawe |
| Looked-after children and education | Prifysgol Caerdydd |
| Looked-after children and Education Outcomes: What contributes to success? | Prifysgol Caerdydd |
| Looked-after children and education: Understanding the education experiences and opinion, attainment, achievement and aspirations of looked-after children in Wales | Prifysgol Caerdydd |
| Looked-after children and higher education | Prifysgol Caerdydd |
| Outcomes for looked-after children and the role of social work | Prifysgol Bangor |
| Self-harm, suicide ideation and suicidal behaviours in looked-after children and young people: Incidence, prevalence | Prifysgol Caerdydd |
| Transracial adoption, identity and social work: A study exploring the needs of black and ethnic minority children requiring an adoptive family | Prifysgol Bangor |
| Wales Adoption Cohort Study | Prifysgol Caerdydd |
| What is best practice in supervised birth family contact? | Prifysgol Abertawe |
| What's best in the promotion of trafficked child's agency and rights, and how can this be further incorporated within the United Kingdom's child protection system? | Prifysgol Abertawe |

*Ffigur 2: teitlau prosiectau astudiaethau sy'n ymwneud â phlant 'sy'n derbyn gofal'*

# ATODIAD DAU: DULLIAU YMARFER A DISGRIFYDDION MODELAU

## Dull ecolegol:

Tebyg iawn i'r dull perthynol ac mae'r ddau'n cael eu defnyddio'n gyfnewidiol yn aml. Mae'r dull hwn yn ceisio ystyried yr 'ecoleg' sy'n sail i fywyd unigolyn. Gall hyn gynnwys teuluoedd, diwylliannau, cymunedau, a pholisïau, ac mae'r dull yn edrych ar y ffordd mae'r grwpiau hyn yn rhyngweithio â'i gilydd i nodi eu cryfderau a'u gwendidau. Mae'n defnyddio'r wybodaeth hon mewn ffordd ymarferol i helpu'r unigolyn gael budd o berthnasoedd cadarnhaol a'u gwella a gweithio trwy broblemau perthnasoedd negyddol. Mae yna gefnogaeth eang i'r dull hwn mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd[40], ac er mai dim ond Sir Fynwy sy'n ei ddefnyddio fel model ymarfer, mae llawer o awdurdodau eraill wedi sôn am ddulliau perthynol tebyg.

## 'Dull pioden'

Term a awgrymwyd gan Bennaeth Gwasanaeth a gymerodd ran yr ydym wedi'i ddefnyddio i ddisgrifio'r awdurdodau lleol sy'n defnyddio sawl dull yn dibynnu ar yr unigolyn neu'r math o wasanaeth dan sylw. Rydym wedi nodi awdurdodau lleol yn defnyddio hyn pan mae ganddynt ddulliau niferus enwebedig neu pan nad ydynt yn enwi unrhyw beth yn benodol ond yn dweud eu bod yn tynnu ar nifer o ddulliau.

## Dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn:

Mae dull sy'n canolbwyntio ar yr unigolyn yn ceisio sicrhau bod yr unigolion sy'n derbyn gofal yn aros yn parhau i fod yn ganolog yn y penderfyniadau sy'n effeithio ar eu bywyd. Mae eu llais a'u barn, yn cynnwys rhai plant a phobl ifanc, wedi'u canoli mewn ymarfer ac yn ymateb i'w gallu i wneud penderfyniadau am eu bywyd[41]. Er bod y dull hwn yn cyd-fynd â Deddf Gwasanaethau Cymdeithasol a Llesiant (Cymru) 2014, mae cwestiynau wedi'u gofyn am i ba raddau mae gan unigolyn sy'n derbyn gofal cymdeithasol unrhyw bŵer wrth ddarparu gwasanaethau[42].

## Dull perthynol / seiliedig ar berthnasoedd / systemig:

Caiff y dulliau hyn eu defnyddio mewn ymarfer i ddeall a chael effaith gadarnhaol ar y perthnasoedd sydd gan unigolyn i wella ei wydnwch a'i allu i ddatrys anawsterau. Mae problemau ac atebion yn cael eu gweld fel rhai sy'n datblygu o berthnasoedd, ac mae'r berthynas ddatblygol gyda gweithwyr cymdeithasol a gweithwyr proffesiynol eraill yn cael sylw gofalus fel conglfaen ar gyfer datrys problemau a nodwyd[43].

## Dull seiliedig ar gryfderau:

Mae dull seiliedig ar gryfderau'n canolbwyntio ar gryfderau unigolion, eu teuluoedd, grwpiau ffrindiau a sefydliadau. Maent yn nodi ac yn cefnogi unigolion gan ddefnyddio eu cryfderau personol i'w helpu i wella a'u grymuso. Mae rhywfaint o dystiolaeth bod y dull hwn yn effeithiol ar gyfer cael teuluoedd i gymryd rhan mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd, ond llai o dystiolaeth ar ei effaith ar ganlyniadau[44].

## Dull sy'n canolbwyntio ar dasgau:

Model ar gyfer newid sy'n defnyddio dull datrys problemau cryno i helpu unigolion i ddatrys problemau sy'n datblygu yw hwn. Mae'n canolbwyntio ar ddarparu strwythur clir i bobl i'w ddilyn, gan nodi rhwystrau i lwyddiant a llunio cynlluniau clir i'w goresgyn. Gall fod yn fwyaf addas i'w ddefnyddio pan fo pobl yn amharod neu'n methu cymryd rhan mewn trafodaethau am darddiad neu ddatblygiad problemau ond yn awyddus i newid eu hymddygiad[45].

## Dull therapiwtig:

Term cyffredinol am wasanaethau sy'n canolbwyntio ar helpu pobl i weithio trwy drawma, yn aml trwy ddefnyddio dulliau siarad neu greadigol i'w cefnogi i fynegi profiadau trawmatig ac emosiynau cysylltiedig. Gall y rhain hefyd ddefnyddio cymorth gweithwyr iechyd meddwl proffesiynol neu gwnselwyr i gefnogi unigolion i fynd i'r afael â phroblemau maent yn eu hwynebu fel problemau

ymlyniad, camddefnyddio alcohol a chyffuriau, neu drais. Mae dull therapiwtig yn aml yn canolbwyntio ar drin trawma mewn plant a theuluoedd pan fo camdriniaeth, trais a cholled wedi bod yn rhan o'u bywydau. Pan roedd awdurdodau lleol yn enwi dull therapiwtig fel sail i'w gwaith, yn aml roedd yn cyfeirio at fwy o ffocws ar weithio mewn partneriaeth â gwasanaethau iechyd, ac rydym wedi cynnwys unrhyw awdurdodau lleol a restrodd weithgareddau therapiwtig yn benodol yn eu cyfweliadau, hyd yn oed os na wnaethant ei enwi fel model neu ddull ymarfer.

## Theori ymlyniad:

Mae theori ymlyniad yn ddealltwriaeth boblogaidd o ddatblygiad sy'n sail i wahanol fodelau ymarfer gofal cymdeithasol, gan ddarparu model ymarfer sy'n amlygu profiadau cynnar a'u canlyniadau canfyddedig fel prif ffocws gwaith ymyrryd. Er y gellid ei defnyddio'n ehangach na'r modelau eraill a ddisgrifir yma, a'i bod yn ymddangos ar sawl ffurf wahanol mewn gwaith cymdeithasol, mae nifer o awdurdodau lleol a sefydliadau wedi'i henwi fel y model ymarfer cyffredinol[46]. Caiff ei defnyddio'n aml wrth weithio gyda phlant, gan ei bod yn darparu esboniad o sut mae profiadau cynnar o rianta a gofal yn effeithio ar ddealltwriaeth plentyn o amddiffyn a chysur. Mae hefyd yn darparu dealltwriaeth seicolegol o sut mae trawma parhaol yn cael ei achosi a sut y gellir ei drin. Defnyddir y dull yn eang mewn gwahanol ffurfiau ond yn arbennig gyda phlant maeth sy'n debygol iawn o fod wedi profi perthynas ansefydlog (a elwir yn 'anhrefnus' yn aml) gyda'u prif ofalwyr ac sy'n cael trafferth i ffurfio perthynas agos ag eraill o ganlyniad[47].

## Cylch newid / Cam newid:

Model a ddefnyddir mewn dull therapiwtig sy'n annog pum cam o newid: cyn-fyfyrio, myfyrio, paratoi, gweithredu a chynnal. Mae'n darparu model therapiwtig i ymarferwyr i helpu pobl i weithio drwy'r camau hyn i newid ymddygiad problemus ac yn cael ei ddefnyddio'n aml mewn cyd-destunau iechyd ym maes camddefnyddio alcohol a sylweddau. Mae'n ddull sydd wedi hen ennill ei blwyf gyda thystiolaeth yn dangos ei fod yn cael ei ddefnyddio mewn cyd-destunau seicotherapiwtig a hybu iechyd[48], er, fel yn achos dulliau therapiwtig eraill, mae'n dibynnu ar barodrwydd a gallu'r unigolyn i gydnabod ei gyfraniad a'i gyfrifoldeb ei hun am y problemau yn ei fywyd.

## Rhaglen Rhyddid (Freedom):

Cynlluniwyd y rhaglen adferol i fenywod a oedd wedi dioddef trais domestig yn bennaf, er y gellid ei defnyddio gyda dynion hefyd ac mae'n cael ei defnyddio mewn gwaith cymdeithasol teuluol yma, yn ogystal â ledled Cymru gan Cymorth i Ferched Cymru. Mae'n edrych ar rôl agweddau a chredoau camdrinwyr, a'r effaith ar ddioddefwyr, mewn ymdrech i sicrhau bod y rhai dan sylw'n deall problemau a'u hatebion posibl yn well. Canfu gwerthusiad cadarnhaol y mae'n rhaid ei ystyried yn ofalus fod mynychwyr wedi datblygu hyder a gwell perthynas gyda'u plant ac yn gallu cydnabod achosion o gam-drin pŵer yn eu perthnasoedd[49]. Fodd bynnag, mae astudiaethau eraill wedi mynegi pryderon am ffocws sylfaenol y rhaglen ar ddioddefwyr trais domestig yn gyfrifol am newid[50].



## Proffil gofal graddedig:

Adnodd asesu risg yw'r model hwn sy'n canolbwyntio'n benodol ar nodi a graddio difrifoldeb achosion o esgeuluso plant. Mae'n seiliedig ar theori datblygiadol ac yn defnyddio hierarchaeth anghenion Maslow[51] wrth asesu. Mae'r NSPCC wedi cynnal gwerthusiad cadarnhaol o gynllun cychwynnol yr adnodd ac wedi creu fersiwn ddiwygiedig sy'n mynd i'r afael â phryderon a godwyd ynghylch ei argaeledd a'r gallu i'w ddefnyddio mewn cyd-destunau amlddiwylliannol[52]. DS. Mae Wrecsam yn priodoli'r model hwn i Bruce Thornton, sy'n argymell ei ddefnyddio o fewn ei Fodel Risg. Fodd bynnag, cynlluniwyd yr adnodd gan y pediatregydd ymgynghorol Dr Srivastava a'r NSPCC.

## Model risg Gwynedd/Thornton:

Mae'r model hwn, a elwir yn "fodel Gwynedd" yn y gogledd, yn darparu adnoddau amddiffyn plant ar gyfer sgrinio ac asesu risg. Bruce Thornton, ymgynghorydd gofal cymdeithasol profiadol a gynlluniodd y model ar y cyd â Chyngor Gwynedd, ac mae'n parhau i ddarparu hyfforddiant i sefydliadau ar y model. Defnyddir y model gan lawer o awdurdodau lleol ledled Cymru a Lloegr. Er bod Ofsted wedi'i ganmol am ei ansawdd[53] a'i fod yn cael croeso da gan weithwyr proffesiynol sy'n ei ddefnyddio yn eu gwaith, mae yna ddiffyg gwerthusiad annibynnol i gefnogi ei ddefnydd. Canmolodd Arolygiaeth Gofal Cymru y defnydd o'r model yn 2014, gan ddod i'r casgliad ei fod yn cael ei weithredu'n glir a'i fod yn rhoi hyder i staff wneud penderfyniadau[54].

## Y Blynyddoedd Rhyfeddol:

Mae'r rhaglen hon yn cynnwys rhaglenni hyfforddiant ar wahân i rieni, therapyddion, athrawon, arweinwyr grwpiau a gweithwyr proffesiynol eraill i roi sylfeini emosiynol, cymdeithasol ac addysgol cadarn i blant (0-12 oed) drwy wella sgiliau rhianta ac ymddygiad plant[55]. Mae'r model wedi'i ddefnyddio ers dros 20 mlynedd mewn cyd-destunau addysgol ac mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd, ac mae tystiolaeth gref iawn i ddangos ei fod yn effeithiol ar gyfer gwella sgiliau rhianta a phroblemau ymddygiad plant[56]. Dadleuwyd hefyd fod ei ddull aml-haen yn sicrhau gwerth da am arian[57].

## Tîm/Gwasanaeth Integredig Cymorth i Deuluoedd:

Dull perthynol/ecolegol ei natur, a ddatblygwyd i ddechrau i'w ddefnyddio gyda theuluoedd lle roedd yna bryder am les y plant yn sgil camddefnydd o alcohol a chyffuriau, er ei fod wedi'i ehangu i gynnwys mathau eraill o bryderon. Mae'r dull hwn yn gweithio gyda theuluoedd i'w helpu i wneud newidiadau cadarnhaol a gwella lles a diogelwch eu plant. Roedd gwerthusiad o'r dull gwasanaeth yng Nghymru yn adrodd am ganlyniadau byrdymor cadarnhaol a chafodd groeso da gan deuluoedd a oedd yn defnyddio'r gwasanaeth, er y teimlwyd ei fod yn llai llwyddiannus wrth fynd i'r afael â sawl problem yr un pryd, ac roedd canlyniadau'n ddibynnol iawn ar allu'r gweithwyr proffesiynol unigol a oedd yn gweithio gyda'r teuluoedd[58]. Yn dilyn y gwerthusiad hwn, argymhellwyd y dylid defnyddio'r gwasanaeth yn holl awdurdodau lleol Cymru. Roedd sylfaen dystiolaeth y model gwreiddiol yn seiliedig ar ymyrraeth Homebuilders UDA, wedi'i addasu ar gyfer Cymru[59]. Nid yw'n glir i ba raddau mae gwasanaethau integredig cymorth i deuluoedd yng Nghymru wedi glynu at y model hwn neu wedi gwyro oddi wrtho.

## Cyfweld ysgogiadol:

Mae'r dechneg ymarfer hon yn defnyddio cyd-destunau therapiwtig i helpu unigolion i archwilio a datrys ansicrwydd a gwrthddywediadau mewn meddyliau, emosiynau ac ymddygiad. Gall fod yn ddefnyddiol iawn i gleientiaid sydd â phroblemau camddefnyddio sylweddau neu sy'n gaeth i sylweddau. Mae llawer o dystiolaeth i ddangos bod y dull yn cael ei ddefnyddio gyda theuluoedd a chyda goruchwyliaeth sefydliadau o ymarferwyr gwaith cymdeithasol. Fodd bynnag, mae hyfforddiant effeithiol a chywirdeb y model wedi'u nodi fel problemau sylweddol wrth ei ddefnyddio gyda chamddefnyddwyr sylweddau[60].

## Fframwaith / Cynadleddau Asesu Risg Aml-Asiantaeth:

Adnodd aml-asiantaeth ar gyfer asesu risgiau trais domestig i blant a theuluoedd yw'r fframwaith ac fe'i henwyd gan un awdurdod lleol fel ffordd o weithio a oedd yn ddefnyddiol iawn i'w ymarfer cyffredinol. Mae'n helpu asiantaethau i reoli a chyfeirio atgyfeiriadau i sawl gwasanaeth ac yn gymorth mawr ar gyfer gwaith partneriaeth effeithiol ac effeithlon. Nid yw'n ddull newydd, fodd bynnag, ac mae wedi'i ddefnyddio ledled Cymru ers llawer o flynyddoedd ar ôl gwerthusiad cadarnhaol yng Nghaerdydd yn 2004[61], felly mae'n amheus a all arwain at unrhyw welliannau pellach i'r gwasanaeth ar y cam hwn.

## Gwasanaeth Atal a Chymorth:

Mae'r gwasanaeth ymyrraeth gynnar hwn wedi mabwysiadu dull gweithredu aml-asiantaeth i ddarparu cymorth integredig i blant, pobl ifanc a theuluoedd. Mae'n cynnig cyngor ymarferol, cymorth a gwaith achosion i atal problemau rhag dwysáu. Mae Wrecsam yn disgrifio gweithwyr y gwasanaeth yn rhai sy'n ymrwymedig i gadw plant gartref os yw hynny'n ddiogel, ac maent yn gweithredu gwasanaeth saith diwrnod yr wythnos rhwng 7.00am a 10.00pm. Darperir dogfen sy'n disgrifio'r gwasanaeth yn fanylach ('Wrexham:PASS Programs and Support).

## Ymarfer adferol:

Mae cysylltiad agos rhwng ymarfer adferol ac ymarfer systemig a dull gweithredu perthynol/ ecolegol, ac mae'n gweithio i ddatblygu a chynnal perthnasoedd iach o fewn teuluoedd, yn enwedig lle mae gweithredoedd aelod o deulu wedi niweidio'r teulu yn uniongyrchol. Mae'n deillio o gyfiawnder adferol fel dull o ymdrin â throseddu adsefydlu, ac mae'n canolbwyntio ar ddatrys anawsterau neu wrthdaro ac unioni niwed i fywyd teuluol a achoswyd gan y ffactorau hyn. Mae cynadleddau grŵp teulu yn dechneg graidd a ddefnyddir i helpu teuluoedd i weithio drwy eu problemau a datblygu perthnasoedd mwy cadarnhaol â'i gilydd. Gan fod rhywfaint o dystiolaeth wedi dod i'r golwg i gefnogi ei ddefnydd, mae ymarfer adferol wedi dod yn fwy amlwg yn y blynyddoedd diwethaf[62].

## Sylfaen Ddiogel

Mae'r model sylfaen ddiogel (a enwyd yn 'Safe Base' gan Gasnewydd a 'BASE' gan Sir Fynwy) yn canolbwyntio ar ryngweithiadau rhwng darparwyr gofal a phlant ar lefel ficro, ar raddfa fach o ddydd i ddydd. Mae'n seiliedig ar theori ymlyniad, gan bwysleisio pwysigrwydd ffigur(au) ymlyniad sylfaenol sefydlog o ran darparu model er mwyn i blant ddatblygu perthnasoedd iach. Y theori sy'n sail i'r model hwn yn ymarferol yw, lle bydd perthynas glós yn cael eu ffurfio â ffigur ymlyniad sylfaenol, y bydd hunan-barch a gwytnwch y plentyn yn datblygu, a bydd yn goresgyn trawma parhaus yn sgil profiadau cynnar yn well[63]. Mae teimlad o ddiogelwch emosiynol ac ymddiriedaeth mewn lleoliadau gofal, fel sy'n cael ei hyrwyddo gan y model 'Secure Base', yn golygu canlyniadau mwy cadarnhaol ar ôl i blant adael gofal[64].

## Arwyddion Diogelwch:

Mae'r dull Arwyddion Diogelwch ychydig yn wahanol i'r modelau eraill a restrir yma, gan ei fod yn ceisio cynnig dull gweithredu system gyfan gwbl gyfannol ar gyfer gwaith cymdeithasol sy'n ymwneud ag amddiffyn plant. Mae'n darparu fframwaith asesu risg a chynllunio ochr yn ochr ag ystod o adnoddau ymarfer, sy'n cynnwys dulliau gweithredu sy'n canolbwyntio ar unigolion ac sy'n seiliedig ar gryfderau. Mae'n ddull gweithredu cydweithredol ac mae'n ceisio helpu ymarferwyr sy'n gweithio ar draws disgyblaethau ac asiantaethau gwahanol i weithio'n effeithiol gyda'i gilydd a chyda'r teuluoedd sydd yn eu gofal. Er ei bod yn bosibl defnyddio rhai elfennau o Arwyddion Diogelwch heb fabwysiadu'r system lawn, fel y mae rhai awdurdodau lleol yn ei wneud, mae cynllunwyr y rhaglen yn cynghori y dylid dilyn y rhaglen yn llwyr a systematig i sicrhau'r canlyniadau gorau[65]. Lluniodd yr NSPCC adroddiad cynhwysfawr ynghylch defnyddio'r model yn 2013 ac, er iddo ganmol ei hyblygrwydd, ei adnoddau effeithiol a'r perthnasoedd cadarnhaol a grëir rhwng teuluoedd ac ymarferwyr, roedd hefyd wedi rhybuddio bod diffyg tystiolaeth ynghylch canlyniadau hirdymor 'Arwyddion Diogelwch'[66].

## Therapi Byr yn Canolbwyntio ar Atebion:

Mae'r dull gweithredu therapiwtig hwn sy'n canolbwyntio ar unigolion yn defnyddio seicoleg sy'n canolbwyntio ar newid. Mae'n cynorthwyo unigolion i fod yn atebol am atebion yn hytrach na phroblemau. Hefyd, tynnwyd sylw at amrywiaeth o dystiolaeth sy'n adrodd ynghylch canlyniadau cadarnhaol mewn gwaith cymdeithasol gyda phlant a theuluoedd, yn ogystal â'i werth am arian. Canfu un astudiaeth, a oedd yn adolygu tystiolaeth ynghylch ei ddefnyddio, ganlyniadau cadarnhaol o ran problemau mewnol, megis gorbryder a hunan-barch, ond ei fod yn llai effeithiol na dulliau gweithredu eraill ar gyfer problemau yn ymwneud â theuluoedd a pherthnasoedd, sy'n awgrymu y dylid bod yn ofalus ynghylch ei ddefnyddio'n gyffredinol[67].



# ATODIAD TRI: DISGRIFIADAU O BROSIECTAU PEILOT A MENTRAU NEWYDD

## Hyder mewn Gofal

Mae'r prosiect hwn yn darparu rhaglen hyfforddiant ar gyfer gofalwyr maeth o'r enw '*Fostering Changes*'. Mae'n ceisio datblygu sgiliau rhianta a hybu cymorth academaidd ac emosiynol llwyddiannus i blant mewn gofal. Datblygwyd yr hyfforddiant hwn yn y DU ac mae sylfaen dystiolaeth gref yn bodoli eisoes sy'n dangos canlyniadau cadarnhaol o ran hyder a sgiliau gofalwyr maeth[68]. Ar hyn o bryd, mae'r prosiect yn cael ei ddarparu yn rhad ac am ddim i awdurdodau lleol ledled Cymru fel rhan o werthusiad ar raddfa fawr a fydd yn penderfynu a fydd yn cael ei ymgorffori mewn ymarfer yn y tymor hir.

**Rhagor o wybodaeth:** Y Rhwydwaith Maethu; Fostering Changes

## Cynllun Prentisiaethau Corfforaethol

Mae prentisiaethau modern wedi dod yn fwy amlwg fel llwybr i gyflogaeth sgil fedrus ar gyfer yr holl bobl ifanc yn y blynyddoedd diwethaf, yn ddewis arall yn lle addysg prifysgol yn sgil ffioedd myfyrwyr uwch a marchnad swyddi fwy cystadleuol. Mae'r cyfleoedd y mae'r rhaglenni hyfforddiant hyn â chyflog yn eu cynnig wedi'u nodi'n ddewis addawol i bobl ifanc sy'n gadael gofal nad yw parhau ag addysg ffurfiol yn apelio atynt. Cafwyd cynllun yn Sir Benfro am y flwyddyn ddiwethaf i gefnogi pobl ifanc sy'n gadael gofal i ddechrau prentisiaethau; fodd bynnag, hyd yma nid ydynt wedi llwyddo i leoli unrhyw bobl ifanc yn y cynllun hwn. Yng ngoleuni hyn, maent wrthi'n treialu ffocws manylach newydd ar brentisiaethau corfforaethol ac yn darparu canllawiau sydd wedi'u hail-lunio ynghylch hyfforddiant ac ymarfer i gynorthwyo gweithwyr sydd wedi cael y dasg o recriwtio pobl ifanc ar gyfer prentisiaethau. Maent yn gobeithio ennyn diddordeb o'r newydd a chynnig mwy o eglurder ynghylch prentisiaethau i ddarpar ymgeiswyr, gan eu bod yn credu bod hyn yn ddiffygiol yn y gorffennol.

Yn ddiweddar, mae Comisiynydd Plant Cymru wedi argymell mwy o gymorth a gwaith paratoi i bobl ifanc sy'n gadael gofal o ran cyrchu prentisiaethau a mathau eraill o addysg bellach a hyfforddiant[69]. Mae strategaethau tebyg yn dod i'r golwg ledled y DU[70]; fodd bynnag, mae diffyg tystiolaeth ynghylch llwyddiant y cynlluniau hyn hyd yma.

**Rhagor o wybodaeth:** Dim ar gael ar hyn o bryd

## Tîm Penodedig - Ar Ffiniau Gofal / Teuluoedd Gwydn / Ymateb Cyflym

Adroddodd nifer o awdurdodau lleol ynghylch datblygu a threialu prosiectau tebyg sy'n creu timau penodedig i atal chwalfa teuluoedd lle mae pryderon yn cael eu codi ynghylch amddiffyn plant ond nad oes gorchymyn gofal wedi'i gyhoeddi eto. Mae'r prosiectau hyn yn ymateb i Adran Iechyd a Gwasanaethau Cymdeithasol Llywodraeth Cymru a ddyrannodd gyllid o £5m ar draws holl awdurdodau lleol Cymru i ddatblygu gwaith o'r fath sy'n ymwneud â phlant ar ffiniau gofal yn 2017. Yn gryno, mae'r rhan fwyaf o'r timau hyn yn gysylltiedig â Gwasanaethau Integredig Cymorth i Deuluoedd ac yn cynnig ymyrraeth ddwys ar ffurfiau gwahanol gan staff arbenigol. Er y cafwyd rhywfaint o anghytundeb ynghylch yr hyn a olygir gan 'ar ffiniau gofal', roedd y cyfranogwyr wedi nodi bod y prosiectau peilot dan y pennawd hwn yn ymwneud yn benodol â phlant ar ffiniau gofal. Mae Merthyr Tudful yn nodi y bydd 'gweithiwr allweddol' yn cael ei bennu ar gyfer plant fel rhan o'u prosiect peilot, ond mae'n aneglur i ba raddau y bydd cylch gwaith y swydd yn ymestyn y tu hwnt i gymorth gan y Tîm o Amgylch y Teulu i gynnwys plant ar ffiniau gofal. Nodwedd arall y mae'n werth ei nodi yw'r ystyriaeth a roddir gan Gonwy ar hyn o bryd i ymestyn gofal preswyl arhosiad byr i blant ar ffiniau gofal er mwyn asesu eu hanghenion yn well a'u cynorthwyo i ddychwelyd adref lle bo hynny'n briodol. Mae rhagor o fanylion ynghylch y prosiect hwn yn y ddogfen a ddarparwyd, *Conwy – Crisis Intervention*.

Roedd nifer o awdurdodau lleol wedi crybwyll bod ymyriadau aml-systemig yn elfen allweddol o'u strategaeth. Mae llawer o dystiolaeth o ymyriadau therapiwtig, aml-systemig i deuluoedd â phlant ar ffiniau gofal, gan gynnwys pennu gweithiwr allweddol sy'n gyfrifol am fonitro'r teulu ac ymarfer yn fanwl, yn ogystal â gwaith partneriaeth cryf ochr yn ochr ag ymarferwyr iechyd. Fodd bynnag, mae'r dystiolaeth hon hefyd yn rhybuddio bod ymrwymiad i'r rhaglen yn allweddol i lwyddiant ac mae'r awduron yn awgrymu y gall dulliau gweithredu *ad hoc* yn y maes hwn nad ydynt yn ystyried tystiolaeth

fod yn beryglus[71]. O ran gofal preswyl arhosiad byr i blant ar ffiniau gofal, canfu Dixon et al (2015) nad oedd llawer o dystiolaeth ynghylch ei effeithiolrwydd yn y DU; fodd bynnag, mewn adolygiad o dystiolaeth Ewropeaidd ynghylch yr ymarfer hwn, canfu Boddy et al (2009) ei fod yn fuddiol yn rhan o ddull therapiwtig cyfannol ar gyfer y teulu[72].

**Rhagor o wybodaeth:** Blaenau Gwent dolen. Sir Gaerfyrddin - dogfen wedi'i darparu. Conwy - dogfen wedi'i darparu. Gwynedd dolen. Ynys Môn - dogfen wedi'i darparu. Merthyr Tudful - gweler y ddogfen a ddarparwyd, 'ICP Edge of Care Research', sy'n llywio eu dull gweithredu. Torfaen - dogfen wedi'i darparu.

### Canolfan Cymorth Cynnar

Dyma fenter rhannu gwybodaeth aml-asiantaeth ataliol a lansiwyd yn hydref 2017. Y nod yw darparu cyngor, gwybodaeth a chymorth cyflymach a mwy cynhwysfawr i deuluoedd sydd ag anghenion cymhleth, a chreu gwell canlyniadau i blant sydd mewn perygl o fynd i mewn i ofal. Dan arweiniad yr heddlu, ac mewn partneriaeth â gwasanaethau plant ac oedolion, addysg, tai ac iechyd, mae'r darparwyr yn ceisio sicrhau cyllid ar hyn o bryd ar gyfer gwerthusiad sy'n dechrau yn 2018.

**Rhagor o wybodaeth:** Dogfennau wedi'u darparu (Sir y Fflint: *'Early Help Hub Inception'* ac *'Early Help Hub PowerPoint Summary'*)

### Paneli Maethu Cwbl Gyfranogol

Mae Sir Benfro ar fin gweithredu dull cwbl gyfranogol newydd o ran paneli maethu i sicrhau mwy o dryloywder, lle na fydd trafodaethau caeedig a gall gofalwyr maeth ddewis aros am y cyfarfod cyfan os ydynt yn dymuno gwneud hynny, yn hytrach na chael eu cau allan o rannau o'r drafodaeth, fel sy'n digwydd ar hyn o bryd. Mae'r dull gweithredu hwn wedi'i ddylanwadu gan ymarfer yn y sector preifat, lle mae'r adborth gan ofalwyr maeth wedi bod yn gadarnhaol, ac maent yn credu ei fod yn unigryw i Sir Benfro ar hyn o bryd o ran ymarfer mewn awdurdodau lleol. Fel rhan o'r prosiect peilot hwn, maent hefyd yn cyhoeddi canllawiau newydd i ymarferwyr ynghylch trafodaethau yn y panel i sicrhau bod holl iaith a natur y trafodaethau yn briodol ac yn barchus. Byddant yn mynd ati i geisio adborth ansoddol gan holl fynychwyr y panel, gweithwyr proffesiynol a gofalwyr maeth, i fonitro'r dull gweithredu, ac mae ganddynt ddiddordeb mewn cynhyrchu data meintiol ynghylch y canlyniadau ond maent yn ansicr ar hyn o bryd ynghylch y ffordd orau o fesur llwyddiant yn y modd hwn.

Ni allem ddod o hyd i unrhyw dystiolaeth ymchwil benodol ynghylch tryloywder llawn paneli maethu (mae'n debyg oherwydd nad ystyrir bod tryloywder rhannol yn broblem yn gyffredinol), er bod peth tystiolaeth ddiddorol sy'n awgrymu bod cyfranogiad perthnasau naturiol neu ddarpar rieni mabwysiadol mewn paneli mabwysiadu yn gwella ansawdd y penderfyniadau a wneir[73]. Hefyd, mae rhai ymchwilwyr yn argymell y dylai pobl ifanc fod yn bresennol mewn paneli maethu sy'n ymwneud â nhw[74]. O ystyried y llenyddiaeth hon, argymhellir y dylid monitro prosiect peilot Sir Benfro yn fanwl a dosbarthu'r gwerthusiad a gyhoeddir yn effeithiol.

**Rhagor o wybodaeth:** Dim ar gael ar hyn o bryd

### Gwella/Ar Goll o Gartref

Mae plant sy'n rhedeg i ffwrdd o leoliadau maethu a chartrefi preswyl yn broblem gyffredin ym maes gofal cymdeithasol, yn enwedig gan fod hyn yn cynyddu'r perygl y byddant yn cychwyn perthnasoedd camfanteisiol er mwyn goroesi y tu allan i ofal. Ar draws awdurdodau lleol Cymru, mae byrddau iechyd a'r heddlu wedi bod yn cydgysylltu eu hymarfer drwy'r Byrddau Diogelu Rhanbarthol mewn perthynas â phlant sydd ar goll o gartref neu sydd mewn perygl fel arall yn sgil cam-fanteisio'n rhywiol ar blant. Mewn partneriaeth â Barnardo's, nod y prosiect Gwella yw lleihau'r risg y bydd plant a phobl ifanc agored i niwed yn profi cam-fanteisio rhywiol, neu'n arddangos ymddygiad rhywiol niweidiol, drwy ddatblygu model atal i'w ddefnyddio mewn gofal cymdeithasol. Er bod cyfranogiad yn y prosiect hwn gan nifer o ardaloedd yng Nghymru ar hyn o bryd, dim ond Wrecsam a grybwyllodd hyn yn benodol, gan eu bod yn gweithredu prosiect lleol cysylltiedig yn y maes hwn, sef Ar Goll o Gartref. Gallai'r diffyg adrodd fod o ganlyniad i'r ffaith nad yw Gwella wedi'i dargedu'n benodol at blant mewn gofal, felly ni thybiwyd ei fod yn berthnasol i'r meysydd diddordeb a nodwyd gennym. Hefyd, gellid priodoli hyn i'r ffaith bod y prosiect peilot yn cael ei reoli ar lefel y Byrddau Diogelu Rhanbarthol, yn hytrach nag o fewn yr awdurdodau lleol, sy'n golygu bod lefel y wybodaeth neu'r ymwybyddiaeth ar lefel gwasanaethau plant yn isel ar hyn o bryd. Mae Prifysgol Caerdydd yn cynnal gwerthusiad o'r prosiect Gwella ar hyn o bryd a disgwylir y canlyniadau yn 2019.

**Rhagor o wybodaeth:** Gwella (Gwerthusiad Prifysgol Caerdydd - nid oes cyhoeddiad ar gael gan Barnardo's)

## Gweithio Rhanbarthol Integredig ar gyfer Anghenion Cymhleth

Mae'r awdurdodau lleol ar draws rhanbarth Gwent wedi nodi'r angen am weithio agosach a mwy integredig mewn partneriaeth â'i gilydd a Bwrdd Iechyd Aneurin Bevan i gynorthwyo plant ag anghenion cymhleth yn well. Mae eu Cynllun Ardal Ranbarthol ynghylch Llesiant ar gyfer 2018-19 (dogfen wedi'i darparu) yn nodi y bydd yr awdurdodau lleol yn cydweithio i "Recriwtio (ac o bosibl defnyddio) gofalwyr maeth; cynorthwyo plant sy'n cael problemau o ran ymlyniad a phroblemau sy'n seiliedig ar drawma; [darparu] mwy o ofal preswyl yn y rhanbarth, yn ogystal â datblygu'r gwaith o gydgysylltu ac integreiddio rhaglenni presennol. Esboniodd Sir Fynwy hefyd y byddant yn creu canolfan adnoddau ranbarthol integredig i gynorthwyo gyda'r broses hon.

**Rhagor o wybodaeth:** Dogfen wedi'i darparu (Sir Fynwy: Cynllun Ardal Ranbarthol Llesiant Gwent 2018-19)

## Lleoli gyda Rhieni

Mae'r prosiect hwn yn cynnwys creu tîm gwaith cymdeithasol penodedig ar gyfer plant sy'n byw gartref dan orchymyn gofal ac sy'n destun rheoliadau Lleoli gyda Rhieni. Cynigir cymorth arbenigol a goruchwyliaeth i'r teuluoedd er mwyn ceisio cadw teuluoedd gyda'i gilydd ac atal problemau rhag dwysáu. Mae'r prosiect ar fin dechrau, felly nid oes canlyniadau ar gael ar hyn o bryd.

Ychydig o dystiolaeth sydd ar gael ynghylch rheoli plant y gofalir amdanynt drwy reoliadau lleoli gyda rhieni a'r canlyniadau i'r plant; fodd bynnag, gwnaed peth gwaith i archwilio'r heriau yn sgil hyn a lluniwyd rhai argymhellion ynghylch ymarfer[75]. Negeseuon craidd y llenyddiaeth hon yw bod angen i weithwyr cymdeithasol fod yn hynod o ofalus ynghylch camgydymffurfiaeth ac y gall ymdrechion ystyriol i gynorthwyo rhieni i gymryd rhan yn y broses o wneud penderfyniadau a darparu gwasanaethau arwain at well canlyniadau i'r plentyn ac i'r teulu.

**Rhagor o wybodaeth:** Dogfen wedi'i darparu (Caerdydd: Dogfen Asesu Lleoli gyda Rhieni 2016)

## Therapi chwarae

Mae'r gwasanaeth MIST (Tîm Cefnogi Ymyrraeth Aml-ddisgyblaeth Torfaen) yn dechrau prosiect peilot newydd ynghylch therapi chwarae i blant mewn gofal yn Nhorfaen. Trafodir MIST ymhellach isod dan *Meithrin Gallu gyda Gofalwyr Maeth*. Yn gryno, mae gwasanaeth MIST wedi'i weithredu ers 2008, mewn partneriaeth â Gweithredu dros Blant, er mwyn cynnig cymorth a hyfforddiant dwys i ofalwyr maeth, ac mae ar gael 24 awr y dydd. Bydd prosiect peilot therapi chwarae yn cael ei weithredu ar gyfer plant rhwng 5 ac 16 oed (gyda gweithgareddau creadigol a chwarae sy'n briodol i'w hoedran) am dair blynedd. Cafodd ei gychwyn o ganlyniad i ddiffyg a nodwyd o ran cymorth ar drothwy lefel angen Haen 2. Maent yn dal i ddatblygu'r ffordd y bydd y prosiect hwn yn cael ei werthuso.

Mae tystiolaeth gref i gefnogi *therapi chwarae* i ddatblygu gwytnwch emosiynol a gwella trawma i blant mewn gofal maeth. Mae ymchwil yn awgrymu bod canlyniadau cadarnhaol, sef gwell iechyd meddwl a pherthnasoedd â chyfoedion, a lleihad o ran problemau sy'n ymwneud ag addysg, er y pwysleisir pwysigrwydd gwaith hydredol a chysondeb i sicrhau'r canlyniadau hyn[76]. O ystyried y dystiolaeth hon, mae'n gadarnhaol nodi bod hyd y prosiect peilot hwn wedi'i ymestyn.

**Rhagor o wybodaeth:** Nid oes dogfennau sy'n ymwneud yn benodol â'r prosiect peilot hwn, ond mae crynodeb o'r prosiect MIST, ei ymarfer a'i nodau ar gael yn y dogfennau a ddarparwyd, 'Torfaen: Moving Into Maturity (MIST)' a 'Torfaen: SCIE MIST Features'

## Prosesau Ymarfer a Datblygu Perthnasoedd Gwaith

Dangosodd trafodaeth Sir Benfro ynghylch prosiectau peilot nad yw'r holl brosiectau peilot yn ymwneud â gwaith uniongyrchol gyda phlant a theuluoedd. Roeddent wedi adrodd, ochr yn ochr â phrosiectau peilot sy'n ymwneud â gwaith uniongyrchol, eu bod hefyd yn adolygu ac yn treialu newidiadau i brosesau ymarfer mewnol a pherthnasoedd gwaith yn ofalus, er mwyn sicrhau bod gwasanaethau yn cael eu darparu'n fwy effeithlon ac effeithiol, gan arwain at fanteision i blant a theuluoedd. Mae'r adran wedi datblygu prosesau ymarfer newydd ac integreiddio timau er mwyn gwella perthnasoedd ac amseroldeb o ran rhannu gwybodaeth rhwng Cadeiryddion Adolygu Ymarfer a'r Tîm Rhianta Corfforaethol. Drwy integreiddio'r ddau dîm swyddfa gwahanol mewn un lleoliad (un ystafell) ac ail-lunio gweithdrefnau a phrosesau adrodd, maent yn credu y byddant yn hwyluso gwelliant o ran cyfathrebu, perthnasoedd ymarfer a rhannu gwybodaeth. Mae'r ymdrech hon i integreiddio hefyd yn cael ei threialu am dri mis

gyda'u Gwasanaeth Lleoli Teuluoedd a'r Tîm Plant mewn Angen, er mwyn gwella a chyflymu'r broses o gwblhau asesiadau hyfywedd a pherson cysylltiedig, gan fod yr amserlenni yn heriol yn y maes hwn. Mae gwerthusiad mewnol wedi'i gynllunio ar gyfer pob prosiect peilot er mwyn asesu effeithlonrwydd.

**Rhagor o wybodaeth:** Dim ar gael ar hyn o bryd.

## 'Reflect'

Mae'r prosiect hwn yn cynorthwyo rhieni y mae mwy nag un o'u plant wedi'u tynnu oddi wrthynt yn sgil gwaharddiad parhaol ac sydd mewn perygl mawr o gael rhagor o blant a fydd hefyd yn mynd i mewn i ofal. Cynigir gwasanaethau therapiwtig i fenywod (a'u partneriaid) i dorri'r cylch gofal ac osgoi beichiogrwydd oni bai eu bod wedi cyflawni nodau y cytunwyd arnynt o ran newid. Cafodd 'Reflect' ei ysbrydoli'n wreiddiol gan brosiect Gweithredu dros Blant yn Llanelli, a chafodd ei dreialu yng Nghasnewydd yn bartneriaeth rhwng yr awdurdod lleol a Barnardo's. Yn sgil llwyddiant y prosiect peilot hwn, cafodd ei ariannu'n ddiweddar i'w gyflwyno ledled Cymru. Roedd dau awdurdod lleol wedi crybwyll ei fod yn brosiect peilot sydd i ddod.

Bydd adroddiad gwerthuso ynghylch prosiect peilot Casnewydd yn cael ei gyhoeddi'n fuan gan ymchwilwyr ym Mhrifysgol Caerdydd a chynhelir gwerthusiad pellach fel rhan o'r broses o'i gyflwyno'n genedlaethol.

**Rhagor o wybodaeth:** Reflect (Gwerthusiad Prifysgol Caerdydd – dim cyhoeddiad ar gael gan Barnardo's)

## Un Pwynt Mynediad

Mae dull un pwynt mynediad o gyrchu gwasanaethau cymdeithasol ac iechyd wedi'i ddefnyddio ledled y DU mewn amryw o ffyrdd dros y degawd diwethaf, yn amrywiad ar fodel Canolfan Ddiogelu Amlasiantaeth (MASH) (gweler t.51), sy'n rhoi mwy o bwyslais ar gynnwys sefydliadau iechyd a sefydliadau'r trydydd sector. Mae'r prosiect hwn yn Wrecsam yn seiliedig ar brosiect peilot blaenorol a oedd yn ymwneud â gwasanaethau oedolion yng ngogledd Cymru a gynhaliwyd rhwng 2013 a 2016, ac roedd pob un o'r chwe sir yn y rhanbarth wedi cymryd rhan. Cafodd y prosiect peilot hwn werthusiad cadarnhaol yn 2016[77], ac adeiladodd Wrecsam ar y llwyddiant hwn drwy gael Un Pwynt Mynediad i blant a phobl ifanc yn lle'r model MASH a dreialwyd yn flaenorol.

**Rhagor o wybodaeth:** Wrecsam Ifanc

## Cynorthwywyr personol i weithwyr cymdeithasol

Mae Merthyr Tudful wedi'i ysbrydoli gan Adolygiad o Gymorth Gweinyddol y Sefydliad Gofal Cyhoeddus (dogfen wedi'i darparu), ac mae ar fin recriwtio 'cynghorydd personol' i roi cymorth gweinyddol i weithwyr cymdeithasol er mwyn cefnogi eu hanghenion gweinyddol a'u galluogi i dreulio mwy o amser ar waith uniongyrchol. Bydd yr un gweithiwr hwn yn gweithredu fel prosiect peilot ac, os bydd yn llwyddiannus, maent yn gobeithio sicrhau bod hyn ar gael i'r holl weithwyr cymdeithasol. Yn ddiddorol, mae dull gweithredu tebyg yn cael ei gyflawni yn CAFCASS Cymru (gweler tudalen 43).

**Rhagor o wybodaeth:** Dogfen wedi'i darparu (Merthyr Tudful: 'IPC Admin Support Review')

## Model maethu therapiwtig

Cyfeiriodd Bro Morgannwg at fodel therapiwtig newydd y maent yn ei ddefnyddio mewn hyfforddiant a chymorth i ofalwyr maeth; fodd bynnag, yn anffodus, nid oeddem yn gallu cael rhagor o fanylion am yr union gynllun y maent yn ei ddefnyddio. Mae modelau gofal maeth o'r math hwn yn darparu set sgiliau ddatblygedig i helpu gofalwyr i unioni trawma neu gamdriniaeth a datblygu ymlyniad iach â phlant, ac yn cynnig gwasanaethau dwys gyda phlant a gofalwyr. Mae model 'Transform' Gweithredu dros Blant yn trin y gofalwr maeth fel partner wrth ddarparu therapi, gan ei gynnwys yn sesiynau therapiwtig y plentyn a darparu hyfforddiant a hyfforddiant personol parhaus. Gan gydnabod natur anodd maethu therapiwtig, sy'n gofyn sgiliau ar lefel uchel, mae hefyd yn cynnig cymorth 24 awr a seibiannau wedi'u cynllunio i ffwrdd o rianta[78]. Mae Childhood First yn cynnig model therapiwtig arall sy'n debyg iawn i fodel Gweithredu dros Blant, er eu bod hefyd yn cynnig cymorth o ran astudiaethau academaidd i ennill cymwysterau mewn seicotherapi plant[79]. Gan fod y gwasanaethau hyn yn debyg i'w gilydd, mae'n debygol y bydd menter Bro Morgannwg yn cynnwys nifer o'r nodweddion uchod.

Mewn ymchwil ynghylch y pwnc, mae gofalwyr maeth sy'n darparu model therapiwtig yn gadarnhaol ynghylch ei gynllun a'r lefelau o gymorth sydd ar gael iddynt; fodd bynnag, canfuwyd bod cwblhau asesiad cynhwysfawr, ac amseroldeb hynny, yn broblematig, ac ystyriwyd bod bylchau yn y gwasanaethau a ddarperir yn rhwystr i lwyddiant. Hefyd, mae angen rheoli'r bartneriaeth rhwng gofalwyr a gweithwyr proffesiynol yn ofalus, oherwydd canfu un astudiaeth fod anghydfod rhwng y partïon hyn ynghylch yr hyn oedd orau i blentyn wedi arwain at anfodlonrwydd gyda'r model[80].

# ATODIAD PEDWAR: DISGRIFIADAU O BROSIECTAU MEITHRIN GALLU GYDA GOFALWYR

### Hyder mewn Gofal

Caiff hwn ei ddisgrifio uchod ar dudalen 70 mewn perthynas â phrosiectau peilot. Y gobaith yw y bydd y rhaglen yn uwchsgilio'r gweithlu presennol a'r gweithlu newydd o ofalwyr maeth yn sylweddol, yn ogystal ag arwain at ganlyniadau cadarnhaol o ran cyflawniad academaidd ac iechyd emosiynol plant mewn gofal. Dangosodd adroddiadau ynghylch y prosiect hwn awydd am gydweithredu yn y sector, ac roedd gan Ben-y-bont ar Ogwr ddiddordeb arbennig mewn sut y gallai ddatblygu cymorth ar gyfer gofal preswyl. Fel y gellid rhagweld, o ystyried eu bod yn rhan o'r consortiwm darparu, roedd y Rhwydwaith Maethu yn arbennig o frwdfrydig dros y rhaglen, gan bwysleisio ei photensial i ddarparu rhwydwaith cefnogaeth gan gymheiriaid i ofalwyr a galluogi eu hymarfer i ddatblygu strategaethau ymarferol yn seiliedig ar theori ymlyniad.

**Rhagor o wybodaeth:** Y Rhwydwaith Maethu; Fostering Changes

### Fframwaith Maethu Cenedlaethol

Ar hyn o bryd, mae'r Fframwaith Maethu Cenedlaethol, sydd wedi'i gynllunio i greu strategaeth a system gymorth genedlaethol gydlynol ar gyfer gofal maeth, yn dal i gael ei ddatblygu a disgwylir iddo gael ei weithredu yn y dyfodol agos. Roedd ymwybyddiaeth o'r Fframwaith yn dda, a phwysleisiodd nifer o awdurdodau lleol y ffaith bod ganddo gryn botensial i feithrin gallu gyda gofalwyr maeth. Roedd y Rhwydwaith Maethu a Gweithredu dros Blant yn optimistaidd ond yn bwyllog, gan bwysleisio bod angen ymatebolrwydd o fewn y sector, ac roeddent yn dymuno cael eglurder ynghylch yr union gynlluniau cyn gynted â phosibl.

**Rhagor o wybodaeth:** Fframwaith Maethu Cenedlaethol: Cam 3

### Fostering Maethu Llesiant

Dyma raglen sy'n seiliedig ar addysg ar gyfer plant a'u teuluoedd maeth, ac sy'n canolbwyntio ar iechyd emosiynol a chymdeithasol. Mae'n ddull sy'n croesawu gwaith partneriaeth, gan gynnwys y sectorau gwasanaethau cymdeithasol, iechyd ac addysg, ac mae'n annog pawb yn y tîm o amgylch y plentyn i gydweithio i rannu dysgu ac arferion gorau. Ar hyn o bryd, mae'n cael ei threialu am ddwy flynedd yn rhanbarth Bwrdd Iechyd Cwm Taf (Rhondda Cynon Taf a Merthyr Tudful) gan y Rhwydwaith Maethu. Disgwylir canlyniadau gwerthusiad o'r prosiect peilot yn 2019.

**Rhagor o wybodaeth:** Y Rhwydwaith Maethu; Adroddiad Rhondda Cynon Taf

### MIST (Tîm Cefnogi Ymyrraeth Aml-ddisgyblaeth Torfaen)

Mae MIST, sy'n unigryw i Dorfaen (er bod Caerffili yn ei defnyddio hefyd) ac sy'n gynhwysfawr cael ei ddarparu gan Weithredu dros Blant, yn rhaglen gymorth gofal maeth sy'n darparu cymorth a chyngor dros y ffôn 24 awr y dydd i ofalwyr maeth. Maent yn cynnig ymweliadau cartref y tu allan i oriau, yn ogystal â sesiynau goruchwyliaeth rheolaidd a grŵp misol i ofalwyr er mwyn cael cefnogaeth gan gymheiriaid. Er bod y rhaglen wedi'i defnyddio ers dros 10 mlynedd, mae'r gwasanaeth yn parhau i arloesi a gwella, ac yn ddiweddar datblygodd y gwasanaeth therapi chwarae ar gyfer plant a phobl ifanc a ddisgrifir ar dudalen 75.

**Rhagor o wybodaeth:** Gweithredu dros Blant; Adroddiad 'Moving into Maturity'

### MAPS (Gwasanaeth Cymorth Paru a Lleoli)

Mae MAPS yn darparu pecyn wedi'i deilwra o gymorth a gwaith therapiwtig cyflawn gyda gofalwyr maeth a'u plant i gefnogi lleoliadau a chynllunio gofal, yn rhan o'r cymorth uniongyrchol a gynigir i holl ofalwyr maeth cynghorau. Mae'n ceisio darparu 'fframwaith clir ac atebol ar gyfer paru anghenion plant a phobl ifanc â sgiliau'r gofalwyr maeth, sy'n rhoi ystyriaeth i'r risgiau posibl' ac sydd hefyd yn creu 'cyd-ddealltwriaeth o brofiadau'r plentyn yn y gorffennol ac yn lleihau'r risg o amharu ar y lleoliad'.

**Rhagor o wybodaeth:** Datganiad o Ddiben Gwasanaeth Maethu Casnewydd

# Cyfeiriadau

1. Mae 'plant sy'n derbyn gofal' yn derm cyffredin ar gyfer plant mewn gofal, fodd bynnag rydym yn ceisio osgoi defnyddio'r term yn yr adroddiad hwn oni bai ein bod ni'n cyfeirio at ddefnydd rhywun arall ohono, gan nad yw plant mewn gofal yn hoff o'r term.

2. Consortiwm y Gwanwyn (2016) *Children's Social Care Innovation Programme: Interim Learning Report* (ar-lein). Ar gael yn: www.innovationunit.org/wp-content/uploads/2017/04/DfE-Innovation-Programme-Interim-Learning-Report.pdf

3. Sefydliad Gofal Cyhoeddus (2015) *Effective Interventions and Services for Young People at the Edge of Care: Rapid Research Review* (ar-lein). Oxford Brookes University. Ar gael yn: https://ipc.brookes.ac.uk/publications/Rapid_Research_Review_relating_to_Edge_of_Care_July_2015.pdf

4. Ward, H., Brown, R., a Hyde-Dryden, G. (2014). *Assessing Parental Capacity to Change when Children are on the Edge of Care: an overview of current research evidence.* Loughborough University: yr Adran Addysg

5. Dixon, J. a Biehal, N. (2007) *Young People on the Edge of Care: The Use of Respite Placements.* Uned Ymchwil a Datblygu Gwaith Cymdeithasol, Prifysgol Efrog

6. Ofsted (2011) *Edging away from care – how services successfully prevent young people entering care.* Manceinion

7. Ni ofynnwyd i heddluoedd na byrddau iechyd am y wybodaeth hon gan mai'r awdurdod lleol sy'n arwain o ran y dulliau o weithio mewn partneriaeth

8. Defourny, J. (2003) Introduction: From third sector to social enterprise. Yn Borzaga, C. & J. Defourny (eds) *The emergence of social enterprise.* London: Routledge, pp. 13-40.

9. Dobrowolsky, A. (2002) Rhetoric versus reality: the figure of the child and New Labour's strategic "social investment state". *Studies in Political Economy,* 69(1), 43-73.

10. Fraser, M. W., a Galinsky, M. J. (2010) Steps in intervention research: Designing and developing social programs. *Research on social work practice,* 20(5), 459-466.

11. www.thefosteringnetwork.org.uk/sites/www.fostering.net/files/content/nffcomsbulletin2.pdf

12. Yr Adran Addysg (2017) Evaluation of the No Wrong Door Innovation Programme. Adroddiad ymchwil. I'w gael ar-lein yn: www.gov.uk/government/publications/no-wrong-door-innovation-programme-evaluation

13. fostercarecardiff.co.uk/adolescent-resource-centre/

14. Cynulliad Cenedlaethol Cymru (2018) Submission to the Public Accounts Committee on looked-after children from the National Association of Fostering Providers. Ar gael [ar-lein] yn: http://senedd.assembly.wales/documents/s73205/Response%20from%20Nationwide%20Association%20of%20Fostering%20Providers.html?CT=2

15. Iechyd Cyhoeddus Cymru/Cydgynhyrchu Cymru (2015) Seeing Is Believing: Co-production Case Studies from Wales. Ar gael [ar-lein] yn: www.goodpractice.wales/SharedFiles/Download.aspx?pageid=96&mid=187&fileid=78

16. Munro, E. (2011) *The Munro review of child protection: Final report, a child-centred system* (Vol. 8062). Llundain: Y Llyfrfa

17. Crockett, R. et al (2013) *Assessing the early impact of multi agency safeguarding hubs (MASH) in London*. Cynghorau Llundain. Ar gael yn: cdn.basw.co.uk/upload/basw_114425-8.pdf

18. Cordis Bright (2016) *Hyb Plant Coll Gwent: Adroddiad gwerthuso terfynol.* Ymchwil Gymdeithasol 356/2016: Welsh Government. Ar gael yn: gov.wales/docs/caecd/research/2016/160330-gwent-missing-children-hub-final-en.pdf

19. Mae mwy o wybodaeth am Operation Encompass, gan gynnwys ei phrosesau cyfrinachedd a diogelu data, ar gael ar y wefan yn: www.operationencompass.org/

20. Felitti, V. J. et al. (1998) Relationship of childhood abuse and household dysfunction to many of the leading causes of death in adults: The Adverse Childhood Experiences (ACE) Study. *American Journal of Preventive Medicine*, 14(4), 245-258.

21. Chapman, D. P. et al. (2004) Adverse childhood experiences and the risk of depressive disorders in adulthood. *Journal of Affective Disorders*, 82(2), 217-225.

22. Public Health Wales (2015) *Profiadau Niweidiol mewn Plentyndod a'u heffaith ar ymddygiad sy'n niweidio iechyd ymysg oedolion Cymru*. Ymddiriedolaeth GIG Iechyd Cyhoeddus Cymru.

23. saildatabank.com/

24. www.childcomwales.org.uk/publications/hidden-ambitions/

25. cardiff.moderngov.co.uk/documents/s19344/Item%2010%20-%20Bright%20Spots%20Your%20Life%20Your%20Care%20Survey%20Cover%20Report.pdf

26. www.childcomwales.org.uk/wp-content/uploads/2017/10/A-Year-of-Change-CCFW-Annual-Report.pdf
senedd.assembly.wales/documents/s66380/CECYP_05%20Childrens%20Commissioner%20for%20Wales.pdf
record.assembly.wales/Committee/4505

27. Roedd hwn yn fater o ddiddordeb ychwanegol i'r astudiaeth hon o ystyried y ffocws rhannol ar waith partneriaeth yn ein nodau, felly gofynnon ni am lefel uwch o wybodaeth am y pwynt hwn.

28. Reid, W.J., Kenaley, B.D. a Colvin, J. (2004) Do some interventions work better than others? A review of comparative social work experiments. *Social Work Research* 28, 2: 71-81.

29. Llywodraeth Cymru a GIG Cymru (2017) *Fframwaith ar gyfer Gwasanaeth Nyrsio mewn Ysgolion i Gymru*. Ar gael yn: https://gov.wales/docs/phhs/publications/170523schoolnurseen.pdf

30. Messages to Schools, CASCADE, Prifysgol Caerdydd. Ar gael yn: www.exchangewales.org/messagestoschools

31. Rydym yn ymwybodol bod o leiaf un awdurdod lleol arall yn cynnig darpariaeth fewnol hefyd; ond ni chymerodd ran yn yr astudiaeth hon.

32. record.assembly.wales/Committee/4505#A40561

33. Menting, A.T.A., Orobio de Castro, B. Effectiveness of the Incredible Years parent training to modify disruptive and prosocial child behavior: A meta-analytic review. *Clinical Psychology Review* 33, 8; 901-913.

34. Davies, F., McDonald, L. ac Axford, N. (2012) *Technique Is Not Enough A framework for ensuring that evidence-based parenting programmes are socially inclusive*. Papur trafod Cymdeithas Seicolegol Prydain.

35. Sheldon, B. a McDonald, G. (2009) *A Textbook of Social Work*. Llundain, Routledge.

36. Reid, W.J., Kenaley, B.D. a Colvin, J. (2004) Do some interventions work better than others? A review of comparative social work experiments. *Social Work Research* 28, 2: 71-81.

37. Forrester, D., Kershaw, S., Moss, H. a Hughes, L. (2008) Communication skills in child protection: how do social workers talk to parents? *Child and Family Social Work* 13, 1: 41-51.

38. Elliott, M. 'Charting the Rise of Children and Young People Looked After in Wales' in Mannay, D., Rees. A, and Roberts, L (eds). *Children and Young People Looked After: Education, Intervention and the Everyday Culture of Care in Wales*, Gwasg Prifysgol Cymru, Caerdydd [i ddod].

39. Forrester, D., Lynch, A., Bostock, L., Newlands, F., Preston, B., a Cary, A. (2017) Family Safeguarding Hertfordshire. Children's Social Care Innovation Programme Evaluation Report 55: yr Adran Addysg.

Bostock, L., Lynch, A., Newlands, F., a Forrester, D. (2018) Diffusion theory and multi-disciplinary working in children's services. *Journal of Integrated Care*, 26(2), 120-129.

Antonopoulou, P., Killian, M., & Forrester, D. (2017) Levels of stress and anxiety in child and family social work: Workers' perceptions of organizational structure, professional support and workplace opportunities in Children's Services in the UK. *Children and Youth Services Review*, 76, 42-50.

40. Jack, G. (1997) An ecological approach to social work with children and families. *Child & Family Social Work*, 2(2), 109-120.

Fraser, M. W. (1997) *Risk and resilience in childhood: An ecological perspective.* Washington, DC: National Association of Social Workers Press.

41. White, S. C. (2002) Being, becoming and relationship: Conceptual challenges of a child rights approach in development. *Journal of International Development,* 14(8), 1095-1104.

42. Murphy, D., Duggan, M., a Joseph, S. (2013) Relationship-based social work and its compatibility with the person-centred approach: Principled versus instrumental perspectives. *The British Journal of Social Work*, 43(4), 703-719.

43. Folgheraiter, F. (2007) 'Relational Social Work: Principles and Practices,' yn *Social Policy and Society*, *6:2, 265-274.*

Ruch, G. (2005) Relationship-based practice and reflective practice: holistic approaches to contemporary child care social work. *Child & Family Social Work,* 10(2), 111-123.

44. Saleebey, D. (1996) The strengths perspective in social work practice: Extensions and cautions. *Social work*, 41(3), 296-305.

Early, T. J., a GlenMaye, L. F. (2000) Valuing families: Social work practice with families from a strengths perspective. Social work, 45(2), 118-130.

45. Fortune, A. E. a Reid, W. J. (2017) Task-Centred Social Work. Yn: F. J. Turner (ed) *Social Work Treatment: Interlocking Theoretical Approaches,* Chweched Argraffiad. Efrog Newydd: Gwasg Prifysgol Rhydychen, tud. pp. 532-549.

46. Er bod rhywfaint o drafodaeth ynghylch a yw theori ymlyniad yn golygu model fframwaith ar wahân ar gyfer ymarfer, gan mai pwrpas yr adolygiad hwn yw adrodd ymatebion y sefydliadau a nodwyd mewn perthynas ag ymholiadau'r prosiect, yn hytrach na'u beirniadu, ni roddir sylw i'r drafodaeth hon yma.

47. Howe, D., Brandon, M., Hinings, D., a Schofield, G. (1999) *Attachment theory, child maltreatment and family support: A practice and assessment model.* Hampshire: Macmillan Press.

Mennen, F. E., ac O'Keefe, M. (2005) Informed decisions in child welfare: The use of attachment theory. *Children and Youth Services Review,* 27(6), 577-593.

48. McConnaughy, E. A., DiClemente, C. C., Prochaska, J. O., a Velicer, W. F. (1989) Stages of change in psychotherapy: A follow-up report. *Psychotherapy: Theory, Research, Practice, Training,* 26(4), 494.

DiClemente, C. C., Prochaska, J. O., Fairhurst, S. K., Velicer, W. F., Velasquez, M. M., a Rossi, J. S. (1991) The process of smoking cessation: an analysis of precontemplation, contemplation, and preparation stages of change. *Journal of consulting and clinical psychology,* 59(2), 295.

49. Williamson, E., ac Abrahams, H. (2010) Evaluation of the Bristol Freedom Programme. *Bristol, England: University of Bristol*, 190.

50. Ballinger, A. (2009) Gender, power and the state: same as it ever was? *J. Sim., S. Tombs and D. Whyte (eds) State, Power, Crime: Readings in Critical Criminology,* 1-21.

Robbins, R., a Cook, K. (2017) 'Don't Even Get Us Started on Social Workers': Domestic Violence, Social Work and Trust – An Anecdote from Research. *The British Journal of Social Work* (ar-lein yn unig).

51. Maslow, A. H. (1943) A theory of human motivation. *Psychological review*, 50(4), 370.

52. Johnson, R., a Cotmore, R. (2015) *National evaluation of the Graded Care Profile.* NSPCC.

53. Ofsted (2011) *Inspection of safeguarding and looked after children services Liverpool.* Ofsted / Comisiwn Ansawdd Gofal.

54. CSSIW (2014) *Arolygiad Cenedlaethol Diogelu a Chynllunio Gofal ar gyfer plant sy'n derbyn gofal*

*ac unigolion sy'n gadael gofal, sy'n ymddwyn mewn ffordd sy'n eu gwneud yn agored i niwed neu a allai beri rig: Arolygiad o Gyngor Gwynedd.*

55. Webster-Stratton, C., a Reid, M. J. (2003) *The incredible years parents, teachers and children training series: a multifaceted treatment approach for young children with conduct problems.* Efrog Newydd: Guilford Press.

56. Letarte, M. J., Normandeau, S., a Allard, J. (2010) Effectiveness of a parent training program "Incredible Years" in a child protection service. *Child Abuse & Neglect*, 34(4), 253-261.

57. Foster, E. M., Olchowski, A. E., a Webster-Stratton, C. H. (2007) Is stacking intervention components cost-effective? An analysis of the Incredible Years program. *Journal of the American Academy of Child & Adolescent Psychiatry*, 46(11), 1414-1424.

58. Thom, G., Delahunty, L., Harvey, P. ac Ardill, J. (2014) Evaluation of the Integrated Family Support Service – Final Year 3 Report. Adroddiad. Ymchwil Gymdeithasol 19/2014: Llywodraeth Cymru.

59. Forrester, D., Copello, A., Wassbein, C. & Pokhreal, S. (2008) Evaluation of an intensive family preservation service for families affected by parental substance misuse. *Child Abuse Review* 17: 410-426.

60. Forrester, D., Westlake, D., a Glynn, G. (2012) Parental resistance and social worker skills: Towards a theory of motivational social work. *Child & Family Social Work*, 17(2), 118-129.

Forrester, D., McCambridge, J., Waissbein, C., Emlyn-Jones, R., & Rollnick, S. (2007) Child risk and parental resistance: Can motivational interviewing improve the practice of child and family social workers in working with parental alcohol misuse? *British Journal of Social Work,* 38(7), 1302-1319.

Hall, K., Staiger, P. K., Simpson, A., Best, D., a Lubman, D. I. (2016) After 30 years of dissemination, have we achieved sustained practice change in motivational interviewing? *Addiction*, 111(7), 1144-1150.

61. Robinson, A. L. (2004) *Domestic Violence MARACs (Multi-Agency Risk Assessment Conferences) for Very High-risk Victims in Cardiff, Wales: A Process and Outcome Evaluation*. Cardiff University School of Social Sciences.

62. Burford, G. (2017). *Family group conferencing: New directions in community-centered child and family practice.* Abingdon: Routledge.

Rogers, M., a Parkinson, K. (2018) Exploring approaches to child welfare in contexts of domestic violence and abuse: Family group conferences. *Child & Family Social Work*, 23(1), 105-112.

63. Schofield, G., a Beek, M. (2009) Growing up in foster care: providing a secure base through adolescence. *Child & Family Social Work*, 14(3), 255-266.

Schofield, G., a Beek, M. (2005) Providing a secure base: Parenting children in long-term foster family care. *Attachment & human development*, 7(1), 3-26.

64. Cashmore, J., a Paxman, M. (2006) Predicting after-care outcomes: the importance of 'felt' security. *Child & Family Social Work,* 11(3), 232-241.

Frey, L., Cushing, G., Freundlich, M., a Brenner, E. (2008) Achieving permanency for youth in foster care: Assessing and strengthening emotional security. *Child & Family Social Work*, 13(2), 218-226.

65. Turnell, A. a Murphy, T. (2010) *Signs of safety: A comprehensive briefing paper.* Dwyrain Perth: Resolutions Consultancy.

66. Bunn, A. (2013) Signs of Safety in England: An NSPCC commissioned report on the Signs of Safety model in child protection. *Llundain, NSPCC.*

67. Berg, I. K. (1994) *Family-based services: A solution-focused approach.* Efrog Newydd: W W Norton & Co

Gingerich, W. J., a Peterson, L. T. (2013) Effectiveness of solution-focused brief therapy: A systematic qualitative review of controlled outcome studies. *Research on Social Work Practice*, 23(3), 266-283.

Kim, J. S. (2008) Examining the effectiveness of solution-focused brief therapy: A meta-analysis. *Research on Social Work Practice*, 18(2), 107-116.

68. Briskman, J. et al (2012) *Randomised Controlled Trial of the Fostering Changes Programme*. Llundain:

Department for Education.
Pallett, C. et al (2002) Fostering Changes: A Cognitive-Behavioural Approach to Help Foster Carers Manage Children. *Adoption and Fostering* 26 (1), pp. 39-48.

Warman, A., Pallett, C. a Scott, S. (2006) Learning from each other: Process and outcomes in the Fostering Changes training programme. Adoption and Fostering 30 (3), pp.17-28.

69. Children's Commissioner for Wales (2017) *Breuddwydion Cudd: Ymrwymiad Cymru i bobl ifanc sy'n gadael gofal.*

70. Skills Development Scotland (2015) *Equalities action plan for Modern Apprenticeships in Scotland.* Glasgow: Skills Development Scotland.

Children's Commissioner for England (2016) *Delivering a Care Leavers' Strategy for Traineeships and Apprenticeships.* Llundain: The Centre for Social Justice.

71. Fox, S. a Ashmore, Z. (2015) Multisystemic Therapy as an Intervention for Young People on the Edge of Care. *The British Journal of Social Work*, 45 (7), pp.1968–1984.

Witkon, Y. (2012) A crisis mental health intervention service: an innovative model for working intensively with young people on the edge of care, *Journal of Child Psychotherapy,* 38 (2), pp.154-169.

72. Boddy, J. et al. (2009) *Working at the 'Edges of Care'? European models of support for young people and families.* London: Department for Children, Schools and Families.

Dixon, J. et al. (2015) *Supporting Adolescents on the Edge of Care: The role of short term stays in residential care: an evidence scope*. Adroddiad Ymchwil. Gweithredu dros Blant.

73. Clifton, J., Horne, J., a Smith, C. (2014) Did birth relative attendance at adoption panels assist decision-making? Evaluating the Suffolk experience. *Adoption & Fostering*, 38(1), 22-36.

Hender, P. (1994) Applicants attending local authority adoption panels. *Adoption & Fostering*, 18(1), 45-48.

74. Goodyer, A. (2011) Child-centred foster care: a rights-based model for practice. Llundain: Jessica Kingsley Publishers.

Warren, J. (2007) *Service user and carer participation in social work.* Exeter: Learning Matters.

75. Sinclair, R., a Grimshaw, R. (1997) Partnership with parents in planning the care of their children. *Children & society*, 11(4), 231-241.

Ward, H. et al. (2014) *Assessing Parental Capacity to Change when Children are on the Edge of Care: an overview of current research evidence*. Llundain: Yr Adran Addysg.

76. Clausen, J. M., et al. (2012) For as long as it takes: Relationship-based play therapy for children in foster care. *Psychoanalytic Social Work*, 19 (1-2), 43-53.

Coholic, D., et al. (2009) Exploring the helpfulness of arts-based methods with children living in foster care. *Traumatology*, 15 (3), pp.64-71.

77. Wilson Sheriff (2016) *Research and Evaluation for Transforming Access to Community based Health & Social Care across North Wales – Single Point of Access (SPOA) Programme* [online]. Ar gael ar: moderngov.denbighshire.gov.uk/documents/s18921/App%201%20SPOA%20Report.pdf?LLL=1 [accessed 4 April 2018].

78. www.actionforchildren.org.uk/fostering-adoption/about-fostering/types-of-fostering/therapeutic-fostering-transform/

79. childhoodfirst.org.uk/our-services/therapeutic-fostering/

80. Staines, J., Farmer, E., a Selwyn, J. (2010) Implementing a therapeutic team parenting approach to fostering: The experiences of one independent foster-care agency. *The British Journal of Social Work,* 41(2), 314-332.